# Thema 1 UG: Meddylfryd Moesegol

## 1A UG Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol

**Profi eich hun – tudalen 6**

1. Pa bedair rhinwedd y mae theïstiaid yn honni sydd gan Dduw?
Hollraslon, Hollalluog, Hollwybodus, Hollbresennol

2. Sut gallaf wybod beth sy'n dda yn ôl Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol?
Daioni yw'r hyn y mae Duw yn ei orchymyn.

3. Beth yw ystyr y geiriau deontolegol a hollgyffredinol?
**Deontolegol –** O'r gair Groeg (deon), sef dyletswydd neu rwymedigaeth

**Hollgyffredinol** – Perthnasol ym mhob achos

4. Sut gallaf ddod i wybod beth mae Duw yn ei orchymyn?
Drwy edrych ar y gorchmynion yn yr ysgrythur neu yn athrawiaeth yr Eglwys.

**Profi eich hun** – **tudalen 7**

1. Pwy ddatblygodd y Ddamcaniaeth Gorchymyn Dwyfol wedi'i Haddasu?
Robert Adams

2. Beth yw ystyr mympwyol?
Ar hap/heb reswm

3. Pam nad yw Duw yn gallu gorchymyn unrhyw beth mympwyol?
Oherwydd ei bod hi'n gynhenid i natur Duw fod yn hollraslon, yn ddi-feth.

### Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 8

Edrychwch ar y gorchmynion canlynol o'r Beibl.

- Nid wyt i fynd o amgylch yn enllibio ymysg dy bobl na pheryglu bywyd dy gymydog – Lefiticus 19:16
- Nid wyt i hau dy faes â hadau gwahanol – Lefiticus 19:19
- Nid yw'r brenin i amlhau meirch iddo'i hun, nac i yrru ei bobl yn ôl i'r Aifft er mwyn hynny. – Deuteronomium 17:16

Beth gallai gorchmynion fel hyn ei awgrymu am nodweddion Duw a beth yw ystyr bod yn dda?
Mae'n aneglur pam mae Duw yn gorchymyn y deddfau uchod. Maen nhw'n gymysgedd o rai sy'n ymddangos yn anogaeth foesol eglur, ac eraill nad ydyn nhw'n ymddangos felly. Efallai fod yr ail un yn ymarferol, mae'r trydydd fel petai'n rheolau i Frenin. Mae'r gorchmynion yn gallu gwneud i Dduw ymddangos **yn fympwyol** gan nad yw rhai o'i orchmynion yn gwneud synnwyr i ni heddiw. Mae hyn yn awgrymu nad yw rheolau Duw yn wrthrychol dda o gwbl ac y gall Duw fod yn **newidiol**.

## 1B UG – Damcaniaeth Rhinwedd

**Profi eich hun – tudalen 10**

1. Sut mae Moeseg Rhinwedd yn wahanol i ddamcaniaethau normadol eraill?
Er y bydd y rhan fwyaf yn gofyn y cwestiwn 'Sut dylwn i ymddwyn?', mae Moeseg Rhinwedd yn gofyn: 'Pa fath o berson dylwn i fod?' Mae Damcaniaeth Rhinwedd yn asesu'r math o nodweddion personol sy'n cyfrannu at wneud person da, yn hytrach na llunio system o reolau a deddfau. Mae hi'n ystyried mai pwrpas moeseg yw cael cymeriad da drwy ystyried ein cyflwr meddyliol yn hytrach na'r gweithredoedd rydyn ni'n eu gwneud.

2. Beth yw pwrpas gweithredu dynol?
Cyflawni **Ewdaimonia** – Hapusrwydd/llesiant/ffyniant dynol

3. Sut byddwn ni'n dysgu sut i fod yn rhinweddol?
Rydyn ni'n dod yn rhinweddol drwy efelychu neu ddilyn enghraifft pobl foesegol eraill er mwyn datblygu'r un nodweddion cymeriad rydyn ni'n dymuno eu cael.

4. Enwch a diffiniwch dair rhinwedd a'u drygioni.

| **Drygioni Diffyg** | **Rhinwedd (y Cymedr Euraidd)** | **Drygioni Gormodedd** |
|---|---|---|
| Llwfrdra (diffyg dewrder) | Dewrder (gwroldeb) | Byrbwylltra (difeddwl) |
| Diffyg teimlad (dim ymwybyddiaeth neu gonsýrn) | Cymedroldeb | Anlladrwydd (rhemp, yn enwedig yn rhywiol) |
| Culni (yn crynhoi arian ond ddim yn gwario) | Rhyddfrydedd (hael wrth roi symiau bach o arian) | Afradlonedd (gorwario a heb dderbyn digon) |
| Bychandra (cybydd-dod) | Haelioni (hael wrth roi symiau mawr o arian) | Fwlgariaeth (yn dangos arian) |
| Gostyngeiddrwydd (yn ofni sefyll drostyn nhw eu hunain) | Uchelfrydedd (hael wrth faddau) | Rhodres |
| Diffyg uchelgais (dim cymhelliant) | Uchelgais briodol (anrhydedd fach) | Gor-uchelgais (nodau personol y tu hwnt i reswm neu allu) |
| Diffyg ysbryd (di-hid) | Tymer dda (amynedd) | Gwylltineb (hawdd gwylltio) |
| Natur groes (dweud rhy ychydig) | Natur gyfeillgar (hoffus/cymdeithasol) | Gwaseidd-dra |
| Bychanu eironig (difrïo) | Didwylledd (gonestrwydd) | Ymffrost (tueddu i frolio) |
| Anfoesgarwch (anghwrteisi/bras) | Ffraethineb (dawn dweud/doniol) | Ffwlbri (chwerthinllyd) |
| Digywilydd-dra (haerllug) | Gwyleidd-dra (cymedrol) | Swildod |
| Dideimladrwydd (mwynhad maleisus) | Dicllonedd (dicter cyfiawn) | Malais (cenfigen) |

5. Beth yw'r Cymedr Euraidd?
**Cymedr Euraidd** – Y nodweddion cymeriad cymedrol, yn y canol, rhwng dau ddrygioni gormodedd a diffyg.

**Profi eich hun – tudalen 11**

1. Rhestrwch dair rhinwedd o Efengyl Mathew a'r gwobrau cysylltiedig.

| | **Rhinwedd** | **Gwobr** |
|---|---|---|
| 1 | **Tlawd yn yr ysbryd** (gwyleidd-dra) | Teyrnas Nefoedd |
| 2 | **Galaru** (tristwch yn sgil bod ar wahân neu golled) | Cysur |
| 3 | **Addfwyn** (ymostyngol/tyner) | Y ddaear |
| 4 | **Yn newynu a sychedu am gyfiawnder** (ceisio tegwch) | Cael eu digon |
| 5 | **Trugarog** (tosturiol neu faddeugar) | Cael trugaredd |
| 6 | **Pur o galon** (bwriadau didwyll) | Cael gweld Duw |
| 7 | **Tangnefeddwyr** (achosi cymod) | Galw'n blant i Dduw |
| 8 | **Erlidiwyd o achos cyfiawnder** (dioddef am ddilyn eu hegwyddorion) | Teyrnas Nefoedd |

2. Rhowch y cyfeirnod ysgrythurol lle mae'n bosibl gweld y Gwynfydau.

Mathew 5:3-12

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 12**

1. Mae Beca a Sara yn ffrindiau gorau. Mae hi'n ben-blwydd ar Beca ac mae Sara yn gweld cariad Beca yn ei thwyllo gyda merch arall yn ei pharti pen-blwydd. Beth yw'r peth rhinweddol i Sara ei wneud?
   Byddai person dewr a gonest yn siarad â Beca ac yn dweud wrthi beth sydd wedi bod yn digwydd. Byddai'n gwneud hynny'n dawel ac yn breifat i osgoi bod yn ddideimlad. Efallai y byddai'n aros tan ar ôl y parti, yn ysbryd amynedd a chymedroldeb.
2. Pa broblemau a weloch chi wrth wneud y penderfyniad moesol hwn yn ôl Damcaniaeth Rhinwedd?
   Mae nifer o atebion rhinweddol 'cywir' posibl. Mae'r awgrym uchod yn un o nifer o atebion a allai gael eu hystyried yn rhinweddol, a dydy'r rhestr o rinweddau ddim yn eich helpu i ddehongli ymddygiad yn gywir.

## 1C UG – Myfïaeth Foesegol

**Profi eich hun – tudalen 14**

1. Rhowch enghraifft o weithred dda sy'n ymddangos yn allgarol.

Helpu rhywun i godi ar ei draed ar ôl iddo syrthio, hyd yn oed os yw hynny'n golygu eich bod chi'n colli eich bws i'r coleg.

2. Sut byddai'n bosibl ailddehongli'r weithred hon i ddangos cymhellion hunanol?

Mae pobl yn gwylio ac efallai bydden nhw'n eich barnu chi os nad ydych chi'n helpu. Doeddech chi ddim eisiau cyrraedd eich gwers gyntaf yn brydlon beth bynnag.

3. Pam mae Myfïaeth Foesegol yn cael ei disgrifio fel moeseg deleolegol?

Oherwydd mai pwrpas neu nod unrhyw weithred yw cyflawni eich hunan-les eich hun.

**Profi eich hun – tudalen 15**

1. Beth mae Stirner yn ei olygu wrth ddweud ein bod ni'n gaeth i rwymedigaethau?

Rydyn ni'n ymddwyn yn ôl ymdeimlad o ddyletswydd, euogrwydd neu gydwybod, gan gredu ar gam ein bod ni'n ymddwyn er ein hunan-les. Yn ein hanwybodaeth, mae'r synhwyrau hyn yn ein rheoli ni.

2. Pam na fyddai pobl yn mynd yn farus petaen nhw'n dilyn myfïaeth?

Mae fy natur unigryw yn rhoi pŵer imi dros y rhwymedigaeth rwy'n ei theimlo i fy nyheadau corfforol. Mae hyn yn golygu nad oes angen i'r pethau hyn fy nghaethiwo. Efallai nad yw o hunan-les i mi eu bod nhw'n fy rheoli. Dydy bod yn farus neu'n wrthgymdeithasol ddim o fudd i ego.

3. Beth yw ystyr y term Einzige?

**Einzige** – Ego

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 16**

Mae tri myfïwr yn cyrraedd maes parcio yn eu ceir eu hunain. Mae un lle parcio sy'n agos i'r allanfa ac mae pob un o'r tri eisiau parcio yno. Ceisiwch benderfynu pa atebion a allai fod i'r dilema hwn. Pa fathau o broblemau rydych chi'n eu rhagweld?

**Atebion:**

- Trafodwch pa un o'r tri sydd â'r angen mwyaf. Byddai hyn yn cyflymu'r broses ac yn sicrhau nad ydyn nhw i gyd yn aros yno yn dadlau; fyddai hyn ddim o les i unrhyw un.
- Gallen nhw gytuno bod yr un sy'n cael y lle yn parcio yn rhywle arall y tro nesaf.
- Gallai rhywun barcio yn rhywle arall beth bynnag oherwydd nad yw o hunan-les i neb gael ei dynnu i mewn i ddadl hirfaith.

**Problemau:**

- Dydy hi ddim o hunan-les i unrhyw un o'r gyrwyr ildio a gadael i rywun arall gael y lle.
- Gallai fod o hunan-les i rywun ddweud celwydd er mwyn cael ei ffordd ei hun.
- Does dim byd i reoli sut mae pobl yn mynd ati i gyflawni eu nodau personol. Gallai hyn arwain at annhegwch.

## Cwestiynau enghreifftiol

### Cwestiynau enghreifftiol AA1 – tudalen 19

1. Amlinellwch Ddamcaniaeth Rhinwedd Aristotle.

- Damcaniaeth normadol sy'n ymagweddu'n wahanol.
- Ystyr normadol yw: Yn llunio systemau a gweithdrefnau ar gyfer barnu gweithredoedd moesol a rheoleiddio gweithredu moesol.
- Mae Moeseg Rhinwedd yn gofyn, 'Pa fath o berson dylwn i fod?'
- Mae'n asesu'r math o rinweddau personol sy'n cyfrannu at wneud person da.
- Nid system o reolau a deddfau.
- Yn seiliedig ar waith Aristotle, ysgolhaig empirig o'r Hen Roeg.
- Mae Damcaniaeth Rhinwedd yn seiliedig ar y gair Groeg am rinwedd/rhagoriaeth: arete.
- Rydyn ni'n dod yn rhinweddol drwy ddilyn enghraifft pobl foesegol eraill er mwyn datblygu'r un nodweddion cymeriad rydyn ni'n dymuno eu cael.
- Mae damcaniaeth rhinwedd yn deleolegol – mae'n ystyried mai pwrpas/nod moeseg yw cyflawni Ewdaimonia. (llesiant/ffyniant)
- Y tri math o hapusrwydd sydd eu hangen i gyflawni Ewdaimonia:
    - Hapusrwydd fel unigolyn
    - Hapusrwydd fel aelod o gymuned
    - Hapusrwydd fel athronydd.
- Yn angenrheidiol i ddatblygu nodweddion cymeriad (Rhinweddau) a fydd yn eich helpu i gyflawni Ewdaimonia.
- Dau fath o rinwedd – Deallusol a moesol.
- Deuddeg rhinwedd foesol, mae pob un yn dod rhwng y ddau ddrygioni hyn: gormodedd a diffyg.
- Yr enw arnyn nhw yw'r **Cymedr Euraidd**.
- E.e. Mae dewrder (gwroldeb) yn dod rhwng y ddau ddrygioni, sef byrbwylltra a llwfrdra. (diffyg dewrder)
- Mae gwyleidd-dra yn dod rhwng digywilydd-dra (haerllugrwydd) a swildod.
- Mae natur gyfeillgar (cymdeithasol) yn dod rhwng gwaseidd-dra a natur groes. (dweud rhy ychydig)
- Rydyn ni'n dysgu'r rhinweddau moesol hyn drwy eu datblygu fel arferion.
- Rydyn ni'n dod yn ddewr drwy wneud gweithredoedd dewr.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2. Cymharwch ddamcaniaethau Moesegol Damcaniaeth Rhinwedd a Myfïaeth Foesegol.

| **Rhinwedd** | **Myfïaeth** |
|---|---|
| Normadol – Pa fath o berson dylwn i fod? | Normadol – Sut dylwn i ymddwyn? |
| Teleolegol – Nod = Ewdaimonia | Teleolegol – Nod = Hunan-les |
| Aristotle (Athronydd o'r Hen Groeg) | Stirner (Athronydd o'r Almaen yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg) |
| Anelu at gael hapusrwydd fel unigolyn, fel aelod o'r gymdeithas ac fel athronydd | Anelu at gael hapusrwydd i'r hunan, a phan mae angen er hunan-les, fel aelod o undeb y myfïwyr |

| | |
|---|---|
| Dylen ni ymddwyn yn ôl y Cymedr Euraidd, weithiau rydyn ni'n mynd yn ysglyfaeth i ddrygioni | Dylen ni ymddwyn oherwydd hunan-les, rydyn ni'n ymddwyn yn sgil rhwymedigaeth i ffactorau sy'n rheoli |
| Rydyn ni'n dysgu bod yn rhinweddol drwy ddilyn enghraifft pobl foesegol eraill | Ddylen ni ddim dilyn unrhyw ddeddfau, ond dylen ni wneud yr hyn sydd fwyaf ymarferol i gyflawni ein hunan-les |
| Mae hunanoldeb yn ddrygioni drwy gulni, bychandra neu natur groes | Gall hunanoldeb fy ngalluogi i fodloni fy lles fy hun, neu gall fy atal rhag gwneud hynny |
| Gall cydweithredu ag eraill fod yn rhinwedd natur gyfeillgar dim ond i ni beidio â mynd yn rhy gynffongar/daeogaidd | Gall cydweithredu ag eraill fod yn ymarferol er mwyn cyflawni ein hunan-les ond dydy e ddim yn ofynnol o gwbl |
| Mae rhinweddau deallusol yn werthfawr hefyd a dylen ni eu meithrin | Y cam cyntaf i ymddygiad moesegol yw deall yr awdurdod sydd gennyf dros fy ego fy hun |
| Mae bod yn gaeth i ddrygioni trachwant ac ymddygiad anfoesgar yn anfoesegol | Dydy bod yn farus neu'n wrthgymdeithasol ddim o fudd i'r hunan |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3. Archwiliwch yr heriau i Ddamcaniaeth Gorchymyn Dwyfol.

- Mae Dilema Euthyphro yn dyddio'n ôl i waith Platon, *The Last Days of Socrates.*
- Mae'r cymeriad Euthyphro a Socrates yn trafod sut rydyn ni'n gwybod beth yw sancteiddrwydd.
- Mae Socrates yn nodi'r dilema: a yw'r sanctaidd yn cael ei gymeradwyo gan y duwiau oherwydd ei fod yn sanctaidd, neu a yw'n sanctaidd oherwydd ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y duwiau?
- Mae un 'rhan' y dilema yn awgrymu bod y duwiau'n dda dim ond oherwydd eu bod yn byw yn ôl safon annibynnol. Nid nhw yw'r awdurdod moesol eithaf erbyn hyn.
- Does dim angen Duw arnom ni. Y cyfan y gallwn ei wneud yw'r hyn sydd dda.
- Mae ail 'ran' y dilema yn awgrymu bod y duwiau'n gallu cymeradwyo a gorchymyn unrhyw beth a fynnan nhw, a byddai'n dda oherwydd mai nhw sydd wedi'i gymeradwyo.
- Dydy'r Duw hwn ddim yn swnio fel petai'n haeddu ein haddoliad.
- Weithiau mae'r ail 'ran' yn cael ei galw'n broblem mympwyoldeb.
- Mae Duw yn gallu gorchymyn rhywbeth ar hap a dweud ei fod yn dda.
- Does dim rhaid i unrhyw beth y mae Duw yn dweud ei fod yn dda fod ag unrhyw nodwedd arbennig sy'n golygu ei fod yn gallu cael ei farnu fel hyn.
- Y drydedd broblem gyda'r Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol yw'r gwrthwynebiad plwraliaeth.
- Mae llawer o systemau crefyddol/moesegol sy'n honni awdurdod gan gyfeirio at Dduw, neu dduwiau.
- Mae rhai o'r systemau hyn yn gwrthdaro.
- Sut rydyn ni'n gwybod pa system sy'n gywir?
- Mae gwahanol ddehongliadau o ran ystyr deddfau neu sut maen nhw'n cael eu cymhwyso. E.e. Mae dysgeidiaeth Gristnogol yn gwahardd ysgariad yn Matthew 5:32, ond mae'n ei ganiatáu yn Deuteronomium 24.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4. Esboniwch Fyfïaeth Foesegol gan gyfeirio at Max Stirner.

- Moeseg normadol.
- Ystyr normadol yw: Yn llunio systemau a gweithdrefnau ar gyfer barnu gweithredoedd moesol a rheoleiddio gweithredu moesol.
- Mae myfïaeth yn deleolegol.
- Ystyr teleolegol yw: (Groeg – telos) yn canolbwyntio ar nod/diben.
- Nod cyflawni eich hunan-les.
- Mae'n cyferbynnu ag allgaredd, gan mai lles eraill yw nod hwnnw.
- Ystyr allgaredd yw: consýrn anhunanol dros eraill.
- Yn ôl myfïaeth, iddo ef ei hun mae unig ddyletswydd asiant moesol.
- Mae'n wahanol i fyfïaeth seicolegol
- Yn ôl Myfïaeth Seicolegol, allgaredd mewn cuddwisg ***yw*** myfïaeth.
- Dydyn ni ddim yn rhydd i weithredu mewn unrhyw ffordd arall.
- Mae Myfïaeth Foesegol yn dweud y ***dylen*** ni weithredu yn ôl y pethau sy'n bwysig i ni (ond dydyn ni ddim).
- Mae hyn yn pennu ymddygiad moesol.
- Mae'n dadlau y dylen ni osgoi allgaredd pan mae hynny'n mynd yn groes i'n hunan-les.
- Nid cael boddhad yn syth yw nod gweithredoedd hunan-les bob amser.
- Efallai bydd gan weithred sy'n ymddangos yn anhunanol nod tymor hir er mwyn hunan-les.
- Datblygodd yr athronydd o'r Almaen, Max Stirner, Fyfïaeth Foesegol yn *The Ego and His Own*
- Yn wahanol i fyfïaeth seicolegol sy'n dweud bod yn rhaid i ni ymddwyn er hunan-les, honnodd Stirner:
    - Rydyn ni'n meddwl ein bod ni'n gweithredu er ein hunan-les, ond dydyn ni ddim.
    - Rydyn ni'n gaeth i fuddiannau eraill fel dyletswydd, euogrwydd neu gydwybod.
    - Rydyn ni'n cael ein twyllo i feddwl y dylen ni ufuddhau i'r buddiannau hynny er ein hunan-les.
- Ymdeimlad o ddyletswydd i ryw werth arall sy'n rheoli ein gweithredoedd ni.
- Mae rhwymedigaeth yn rheolydd cudd sy'n mynd â'n rhyddid i ddewis ein budd ni ein hunain oddi wrthon ni.
- Maen nhw yno o hyd, fel ysbrydion, y tu ôl i'n cymhellion ni.
- Roedd Stirner yn dadlau:
    - Mae'r Ego (Einzige) yn gaeth i rwymedigaethau.
    - Mae rhyddid yn dod pan rwy'n adnabod fy hunanberchenrwydd (Eigenheit) neu awdurdod drosof fy hunan.
    - Rydyn ni'n gwireddu hunanberchenrwydd drwy ddeall bod ein natur unigryw (Einzig) yn rhoi pŵer inni wneud ein penderfyniadau ein hunain.
- Mae un rhwymedigaeth i'n chwantau corfforol, mae fy natur unigryw yn rhoi pŵer imi dros y rheolydd hwn.
- Felly, does dim angen i mi fod yn hunanol neu'n faterolaidd er mwyn ymddwyn er hunan-les.
- Mae cydweithredu ag eraill o fudd i'n hego ni.
- Does dim rhwymedigaeth i fyfïwyr eraill.
- Mae'n ymarferol dod o hyd i ffyrdd diegwyddor o sylweddoli bod myfiïwyr unigryw eraill yn gweithredu o'n cwmpas ni.
- Undeb y myfïwyr oedd ei enw ar hyn.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

**Cwestiynau enghreifftiol AA2 – tudalen 19**

1. Gwerthuswch y safbwynt bod Damcaniaeth Rhinwedd yn anymarferol pan mae dilema moesol yn codi.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Anymarferol = heb fod yn ddefnyddiol neu'n amhosibl ei ddefnyddio

**Paragraff un:**

- Mae'n anymarferol oherwydd nad yw'n rhoi unrhyw gyfarwyddiadau y gallwn ni eu defnyddio wrth wynebu problem foesol.
- Fodd bynnag, mae rheolau neu gyfarwyddiadau'n gallu achosi rhagor o broblemau nag y maen nhw'n eu datrys gan fod rheolau'n gallu caethiwo a rhwymo.
- Mae'n ymarferol oherwydd bod modd ei addasu mewn bywyd modern, felly mae'n bosibl ei ddefnyddio mewn unrhyw oes neu ddiwylliant – mae hyn yn ddymunol iawn yn y byd modern, felly byddai pobl yn fwy tebygol o'i ddefnyddio.

**Paragraff dau:**

- Mae'n amhosibl deddfu cymdeithas sy'n gweithio fel hyn, felly mae'n anymarferol.
- Fodd bynnag, nid yw wedi'i strwythuro fel system gyfreithiol ond mae'n foeseg bersonol. Gallai weithio ochr yn ochr â system gyfreithiol yn hytrach na'i disodli.
- Mae'n ymarferol oherwydd ei bod wedi bod yn sail i systemau eraill fel y Ddeddf Naturiol felly cafodd ei defnyddio'n llwyddiannus yn y gorffennol.

**Paragraff tri:**

- Dydy hi ddim yn ddefnyddiol oherwydd nad oes rhestr gyffredinol o safonau sy'n berthnasol i bawb, felly does dim modd barnu moesoldeb mewn diwylliant neu ar draws diwylliannau.
- Ond mewn unrhyw system foesegol fyddai person rhinweddol byth yn gwneud dim byd i niweidio pobl eraill yn y gymdeithas. Mae rhai delfrydau cyffredinol sydd gan bob cymdeithas.
- Mae'n ddefnyddiol oherwydd bod angen rhinwedd arnom i fod yn sail i ddeddfau moesol fel bod ein cyfreithiau'n rhesymol a chyfiawn. Dim ond os yw'n rhinweddol y mae'r gyfraith ei hun yn dda.

**Casgliad:**

- Mae'n ymddangos bod gan Foeseg Rhinwedd elfennau ymarferol pan gaiff ei defnyddio ochr yn ochr â system o gyfreithiau. Yn ei hyblygrwydd mae gwerth Rhinwedd, ond er mwyn gallu ei defnyddio mewn cymdeithas mae angen iddi fod â strwythur fel bod set o reolyddion yn bosibl. Fel moeseg bersonol, mae'n llawer mwy defnyddiol i helpu unigolyn i reoli ei ymddygiad moesol ei hun pan nad yw cyfreithiau'n cwmpasu'r amgylchiadau.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

2. 'Does dim o'r fath beth â gweithred dda anhunanol.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Gweithred dda anhunanol = gweithred allgarol h.y. rhywbeth sy'n cael ei wneud er budd pobl eraill er nad oes unrhyw fudd i'r asiant.

**Paragraff un:**

- Mae'n ymddangos bod gweithredoedd allgarol yn bodoli oherwydd bod digon o enghreifftiau o bobl hanesyddol a roddodd eu hunain cyn pobl eraill, e.e. Crist, y Fam Teresa, Gandhi.
- Fodd bynnag, mae Myfïwyr yn dadlau nad oedd y gweithredoedd hyn yn allgarol gan fod y cymeriadau hyn yn bodloni eu hunan-les heb sylweddoli hynny.
- Mewn bywyd, mae pobl yn gwneud pethau er budd eraill dim ond os yw'n gwneud iddyn nhw eu hunain deimlo'n dda, felly mae'n rhaid bod gweithredoedd allgarol yn amhosibl.

**Paragraff dau:**

- Efallai nad ydyn ni'n gwneud hyn yn ymwybodol, ond rydyn ni'n gwneud pethau rydyn ni eisiau eu gwneud yn unig, felly dydy gweithred dda anhunanol byth yn bosibl. Mae pob gweithred dda yn hunanol.
- Fodd bynnag, mae'r ddadl hon yn tybio nad oes gennym unrhyw ewyllys rydd i weithredu y tu allan i'n rhwymedigaethau, ac efallai mewn gwirionedd ein bod ni'n rhydd i ymateb i anghenion pobl eraill os ydyn ni'n dymuno.
- Os edrychwn ni ar ferthyron crefyddol a gwleidyddol, gallwn weld nad yw eu marwolaeth yn hybu eu hunan-les**.** Dydyn nhw ddim yn elwa dim ohoni yn bersonol, ond gallan nhw helpu i hybu achos. Felly, mae gweithredoedd da anhunanol yn bodoli.

**Paragraff tri:**

- Fel mae Stirner yn ei honni, does dim gweithredoedd allgarol. Rheolyddion allanol fel euogrwydd neu gydwybod yw'r rheswm pam rydyn ni'n dal gafael ar ein gwerthoedd neu'n eu hailddehongli.
- Eto i gyd, mae llawer o bobl yn dal gafael ar ddelfrydau hyd yn oed pan mae hyn yn gwneud drwg iddyn nhw. Mae hyn yn awgrymu bod allgaredd yn bodoli.
- Fodd bynnag, mae hyn i gyd yn dangos bod delfryd yn fwy pwysig i'r person na'i gysur ei hun. Mae hyn yn disodli un gwerth hunanol ag un arall, dyna i gyd. Mae person yn cael budd iddo'i hun drwy ddal gafael ar ei ddelfryd ei hun, felly mae pob gweithred yn hunanol.

**Casgliad:**

- Mae llawer o bobl fel petaen nhw'n cymysgu rhwng gweithred allgarol a gweithred sydd heb sgil effaith gadarnhaol i'r asiant. Does dim rheswm pam na all asiant weithredu oherwydd anhunanoldeb ond eto ei fod yn elwa o'r weithred honno yn y pen draw. Er enghraifft, efallai bydd person yn helpu plentyn sydd ar goll o'i weld yn dioddef, ond efallai bydd rhieni'r plentyn hwnnw yn diolch i'r person, a hynny'n gwneud iddo deimlo'n dda. Mae elfen anhunanol i hyn, felly mae gweithredoedd da anhunanol yn bosibl.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

# 2 Moeseg Ddeontolegol

## 2A UG – Deddf Naturiol Sant Thomas Aquinas – deddfau a gofynion fel sail i foesoldeb

### Profi eich hun – tudalen 20

1. Beth yw ystyr y term Diwinyddiaeth Naturiol?
Gwybodaeth am Dduw sy'n deillio o arsylwi'r byd empirig.

2. Yn ôl Aquinas, sut gallwn ni sefydlu deddfau moesol?
Drwy rodd ddwyfol rheswm, a roddodd Duw adeg y Creu.

3. Beth yw ystyr deontolegol?
O'r gair Groeg 'deon', sef dyletswydd neu rwymedigaeth.

4. Pa ran y mae'r ysgrythur yn ei chwarae yn y Ddeddf Naturiol?
Deddf ddwyfol yw hi sy'n cydymffurfio â'r drefn a greodd Duw ac sy'n atgoffa bodau dynol am foesoldeb.

### Profi eich hun – tudalen 22

Rhowch dair ffordd y mae'r Ddeddf Naturiol yn dibynnu ar fodolaeth Duw.

1. Undod â Duw yw pwrpas neu achos terfynol pob ymddygiad moesol.
2. Rydyn ni'n casglu beth yw'r Deddfau Moesol drwy arsylwi'r drefn a greodd Duw.
3. Mae addoli Duw yn un o'r gofynion cynradd a ddylai dim byd ei rwystro.

### Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 23

Mae llofrudd gwallgof â bwyell wrth eich drws, yn gofyn a yw eich ffrind gorau yn y tŷ. Mae'n dweud wrthoch chi yn agored ei fod eisiau ei phoenydio a'i lladd hi. Mae eich ffrind gorau yn cuddio yn yr ystafell sbâr. Defnyddiwch y gofynion i weithio allan beth byddai'r Ddeddf Naturiol yn dweud wrthoch chi am ei wneud.

Twyllo bwriadol yw dweud celwydd ac felly mae hyn yn bygwth trefn cymdeithas.

D.S. Os ydych chi'n ychwanegu at hyn, eich gwybodaeth am weithredoedd mewnol ac allanol ac am rinweddau, gallech chi ddweud hefyd mai pechod yw dweud celwydd gan fwriadu twyllo neu niweidio person arall. Hefyd, does dim rhinwedd mewn dweud celwydd oherwydd eich bod chi'n mwynhau gwneud hynny, gan fod hynny'n dangos diffyg agape neu ymatal drwy gymedroldeb. (Roedd Aquinas yn cydnabod ein bod ni'n dweud celwydd am wahanol resymau ond roedd pob rheswm yn bechadurus iddo, er bod modd maddau rhai ohonyn nhw.)

## 2B UG – Deddf Naturiol Aquinas – swyddogaeth y rhinweddau a'r daioni o ran cefnogi ymddygiad moesol

### Profi eich hun – tudalen 25

1. Rhestrwch y rhinweddau datguddiedig.
Ffydd, gobaith a chariad.

2. Sut mae'r prif rinweddau'n cael eu sefydlu?
   Recta ratio (rheswm cywir).

3. Nodwch weithredoedd mewnol neu allanol posibl yn y senarios canlynol:
   a. menyw sy'n dwyn bara i fwydo ei phlentyn
      Mewnol – cynnal bywyd diniwed
      Allanol – pechod dwyn

   b. dyn sy'n saethu ac yn lladd rhywun sy'n torri i mewn i'w gartref
      Mewnol – cynnal ei fywyd ei hun
      Allanol – pechod llofruddio

   c. meddyg sy'n rhoi dos mawr o boenladdwr i glaf sy'n dioddef.
      Mewnol – amddiffyn rhywun rhag poen
      Allanol – pechod llofruddio

**Profi eich hun – tudalen 26**

Yn ôl y Ddeddf Naturiol, trefnwch y gweithredoedd canlynol yn ddaioni gwirioneddol ac ymddangosiadol:

a. erthyliad
b. rhyw gyda chymar/cariad heb fod yn briod
c. rhoi adfywiad cardio-pwlmonaidd (CPR)
ch. rhyw o fewn priodas
d. ewthanasia
dd. dweud y gwir
e. mynd i'r eglwys
f. mynychu'r ysgol
ff. defnyddio atal cenhedlu
g. llofruddiaeth

| Daioni gwirioneddol | Daioni ymddangosiadol |
|---|---|
| Rhoi adfywiad cardio-pwlmonaidd (CPR) | Erthyliad |
| Rhyw o fewn priodas | Rhyw gyda chymar/cariad heb fod yn briod |
| Dweud y gwir | Ewthanasia |
| Mynd i'r eglwys | Defnyddio atal cenhedlu |
| Mynychu'r ysgol | Llofruddiaeth |

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 26**

Rydych chi'n feddyg, ac mae gennych glaf sâl sy'n ymbil am gael ei adael i farw. Mae e mewn poen ac mae ganddo gyflwr sy'n byrhau bywyd, ond dydy e ddim ar fin marw. Sut byddai'r rhinweddau yn eich helpu chi, y meddyg? Sut gallen nhw helpu eich claf?

- **Cymedroldeb** – yn sicrhau eich bod yn gymedrol wrth wneud penderfyniadau ac nad ydych chi'n rhuthro i wneud penderfyniad byrbwyll.
- **Gwroldeb** – yn rhoi'r dewrder i chi gadw at y penderfyniad cywir hyd yn oed os yw hynny'n teimlo'n anodd.
- **Cyfiawnder** – yn sicrhau eich bod yn trin pob claf yn deg, gan roi cyfle cyfartal i bob un gyflawni'r gofynion.

- **Pwyll** – yn sicrhau eich bod yn gwneud penderfyniad rhesymegol yn unol â'r Ddeddf Naturiol, yn hytrach nag ymateb emosiynol.
- **Cariad** – yn eich galluogi i ofalu am y claf a dangos empathi tuag ato.
- **Ffydd** – yn eich galluogi i ymddiried bod Duw yn rheoli ac y bydd yn amddiffyn ei blentyn.
- **Gobaith** – yn eich galluogi i edrych ymlaen at gyfnod pan fydd dioddefaint y claf yn dod i ben a phan fydd yn cael undod â Duw.

## 2C UG – Deddf Naturiol Aquinas – cymhwyso'r ddamcaniaeth

**Profi eich hun – tudalen 28**

1. Pa agweddau ar y Ddeddf Naturiol nad oes sôn amdanyn nhw yn yr enghreifftiau uchod?
    - Deontolegol/teleolegol
    - Ffydd
    - Gobaith
    - Cymedroldeb
    - Y pedair lefel o ddeddf
    - Trefnu'r gymdeithas
    - Addoli Duw
    - Addysgu
    - Gweithredoedd mewnol/allanol

2. A allech chi gymhwyso unrhyw un ohonyn nhw i'r enghraifft hon?
    - Dyletswydd Megan yw ufuddhau i'r gofynion cynradd a pheidio â'u rhwystro nhw.
    - Dylai weithredu er mwyn cyflawni'r weledigaeth wynfydedig wrth iddi wneud ei phenderfyniad.
    - Bydd ffydd a gobaith yn ei galluogi i ymddiried bod gan Dduw gynllun iddi ac y bydd ef yn ei gwobrwyo hi am geisio cadw at y ddeddf. (Bydd angen iddi edifarhau am ei phechodau.)
    - Dylai cymedroldeb ei helpu hi i wrthsefyll y temtasiwn i ruthro i wneud rhywbeth yn fyrbwyll.
    - Mae'r Ddeddf Ddwyfol yn dweud bod yn rhaid i Megan beidio â lladd, felly mae'n rhaid iddi gofio hyn wrth benderfynu.
    - Mae trefnu'r gymdeithas yn golygu bod rhaid bod cyfreithiau sy'n rheoli ei hymddygiad moesol ac mae ganddi ddyletswydd i'w dilyn nhw.
    - Mae rhan o addoli Duw yn golygu ymddwyn yn ôl y drefn a greodd. Pwrpas rhyw yw cenhedlu, a phwrpas beichiogrwydd yw cynhyrchu plentyn. Mae'n rhaid i Megan beidio â rhwystro hyn.
    - Wedyn gall Megan fynd ymlaen i sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu yn ffordd y ddeddf naturiol fel y gall fynd ymlaen i gyflawni'r pwrpas y mae Duw wedi'i osod.
    - Mae'n rhaid mai gwneud ewyllys Duw yw gweithred fewnol Megan bob amser. Dylai hi ufuddhau i'r gofynion cynradd â'i gweithred allanol.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 29**

Ceisiwch gymhwyso egwyddorion y Ddeddf Naturiol i'r sefyllfaoedd canlynol i benderfynu beth sy'n dderbyniol:

1. Mae dyn ifanc ar ddialysis gyda diabetes cam 5 a'i unig obaith yw trawsblaniad aren. Mae'n gwrthod rhagor o driniaeth.

- Byddai'n well i'r claf ddewis triniaeth yn unol â gofyniad cynnal bywyd.
- Gofynion cynradd: cynnal Bywyd, trefnu'r gymdeithas.
- Rhinweddau: cariad (gan y meddyg), gobaith a ffydd (i'r claf).
- Recta ratio: gwneud daioni yn unig ac osgoi drygioni.
- Daioni ymddangosiadol yw lleddfu ei ddioddefaint neu ei orfodi i gael trawsblaniad.
- Daioni gwirioneddol yw ei drin gymaint â phosibl, a gadael iddo gael marwolaeth heddychlon.
- Ddylai'r meddyg ddim brysio ei farwolaeth mewn unrhyw ffordd.
- Dylai popeth y mae'n bosibl ei wneud i achub ei fywyd yn ôl ei ewyllys gael ei wneud.

2. Mae menyw oedrannus ar ddiwedd ei hoes yn dymuno cael help i farw.
   - Daioni ymddangosiadol fyddai ei helpu hi.
   - Daioni gwirioneddol yw cynnal bywyd.
   - Os yw hi mewn poen, mae'n bosibl trin ei phoen.
   - Os yw ei phoen yn ddifrifol a'r unig ffordd o'i drin yw rhoi triniaeth a allai ei lladd hi, mae'r meddyg yn gallu rhoi digon o driniaeth er mwyn lleddfu ei phoen yn unig. Os yw'r sgil effaith, sef ei bod hi'n marw'n gynt, yn anfwriadol, effaith ddwbl yw hyn.
   - Bydd pwyll yn galluogi'r meddyg i ddod i farn am ei weithredoedd yn ddoeth, nid yn emosiynol.

3. Mae menyw ganol oed sydd â chlefyd Alzheimer sy'n cychwyn yn gynnar, ond sy'n iach fel arall, eisiau dod â'i bywyd i ben, ond mae angen help arni.
   - Mae cynnal bywyd, trefnu'r gymdeithas, addoli Duw i gyd yn dynodi mai dyletswydd y fenyw a'r meddyg yw ei chadw hi'n fyw.
   - Mae rhinwedd Cariad a Gwroldeb yn golygu y dylai'r ddau chwilio am fathau eraill o help.
   - Y daioni gwirioneddol fyddai gwneud popeth i gadw'r claf yn fyw.
   - Gan fod y ddamcaniaeth hon yn ddeddfol ac yn absoliwtaidd, does dim gwahaniaeth pwy yw'r person, y clefyd y mae'n dioddef ohono neu pa mor hen yw e. Mae ewthanasia wedi'i wahardd.

**Profi eich hun – tudalen 30**

1. Diffiniwch ewthanasia gwirfoddol.

'Marwolaeth esmwyth, hawdd' neu ladd trugarog, y mae'r claf wedi gofyn amdano fel ateb i ddioddefaint corfforol eithafol.

2. Pa ofynion cynradd sydd fwyaf defnyddiol wrth benderfynu am ewthanasia?

Cynnal Bywyd, trefnu'r gymdeithas

3. Beth byddai Aquinas yn ei alw'n ddaioni ymddangosiadol ewthanasia?

Pechod

## Cwestiynau enghreifftiol

**Cwestiynau enghreifftiol AA1 – tudalen 33**

1. Amlinellwch y deddfau a'r gofynion sydd yn Neddf Naturiol Aquinas.

Nododd Aquinas bedair deddf hierarchaidd y bydysawd.

- Y Ddeddf Dragwyddol – sylfaen holl greadigaeth Duw, does dim byd yn gallu ei herio hi. E.e. disgyrchiant.
- Y Ddeddf Ddwyfol – y cyfreithiau sydd yn yr ysgrythur. Mae'n bosibl eu cyflawni oherwydd eu bod nhw'n cydymffurfio â'r drefn a greodd Duw. E.e. y Deg Gorchymyn.
- Y Ddeddf Naturiol – mae'n cydymffurfio â deddfau tragwyddol a dwyfol Duw, ond mae'n bosibl gwybod beth yw'r Ddeddf Naturiol drwy reswm cywir (recta ratio). E.e. y gofynion cynradd.
- Y Ddeddf Ddynol – y cyfreithiau sy'n rheoli'r gymdeithas. Mae'n bosibl eu cymhwyso i sefyllfa benodol. Mae'n rhaid iddyn nhw gydymffurfio â'r deddfau uchod. E.e. y gofynion eilaidd neu system gyfreithiol gwlad.

Mae'r Ddeddf Naturiol yn defnyddio recta ratio i sefydlu pum gofyniad cynradd absoliwt, deontolegol.

1. Cynnal bywyd diniwed
2. Trefnu'r gymdeithas
3. Addoli Duw
4. Addysgu
5. Atgenhedlu

Mae'r gofynion yn ein helpu i gyflawni'r pwrpas a grëwyd i ni, sef cymdeithas â Duw, drwy wneud daioni ac osgoi drygioni.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2. Archwiliwch ran meddylfryd rhesymegol yn Neddf Naturiol Aquinas.

- Rhoddodd Duw reswm (recta ratio) i ni, adeg y creu pan wnaeth ef ni ar ei ddelw ei hun.
- Mae'r Ddeddf Naturiol yn deillio drwy reswm cywir, drwy edrych ar y byd empirig ac arsylwi'r pwrpas a greodd Duw i bob peth (Diwinyddiaeth Naturiol).
- Gallwn ddefnyddio rheswm i adnabod y pwrpas a grëwyd i ni (cymdeithas â Duw, drwy wneud daioni ac osgoi drygioni).
- Mae recta ratio yn sefydlu'r pum gofyniad cynradd (cynnal bywyd, trefnu'r gymdeithas, addoli Duw, addysgu, atgenhedlu).
- Mae recta ratio yn gallu cymhwyso'r gofynion cynradd i sefydlu gofynion eilaidd. (Peidiwch â lladd, rhyw o fewn priodas, ewch i'r eglwys ac ati.)
- Mae gennym ni ddyletswydd i ddilyn hyn er mwyn cyflawni'r pwrpas y mae Duw wedi'i roi i ni.
- Mae recta ratio yn sefydlu'r prif rinweddau (pwyll, cymedroldeb, cyfiawnder, dewrder).

- Bydd pwyll (doethineb) yn ein galluogi i resymu rhwng daioni gwirioneddol ac ymddangosiadol.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3. Esboniwch rôl y saith rhinwedd yn Neddf Naturiol Aquinas.

- Defnyddiodd Aquinas gyfuniad o resymu Aristotle a'r ysgrythur i sefydlu dwy restr o nodweddion dynol y dylen ni anelu atyn nhw.
- Rhinweddau datguddiedig – rhinweddau y mae'n amhosibl eu sefydlu drwy reswm ond y mae'r ysgrythur yn eu dangos i ni – 1 Corinthiaid 13:13.
  - Ffydd – ymddiriedaeth yn Nuw
  - Gobaith – dymuniad neu ddyhead i'r dyfodol (cymdeithas â Duw yn y nefoedd)
  - Cariad – agape/elusen – consýrn allgarol am bobl eraill
- Mae'r rhain yn rhoi'r dyhead i ni resymu'n gywir ac i gael gwybod beth yw ewyllys Duw ar gyfer ein hymddygiad moesol.
- Prif rinweddau – rhinweddau y mae'n bosibl eu sefydlu drwy reswm yn unig.
  - Cymedroldeb – bod yn gymedrol/hunanreolaeth
  - Pwyll – doethineb/y gallu i farnu rhwng gweithredoedd
  - Dewrder – gwroldeb/cryfder cymeriad/wynebu ofn
  - Cyfiawnder – ymddygiad teg/sut i drin eraill
- Mae'r rhain yn rhoi'r gallu i ni sefydlu ac yna dilyn y deddfau naturiol fel y gallwn ni weithredu yn unol ag ewyllys Duw.
- Maen nhw'n gweithio ar y cyd â'r gofynion – mae'r gofynion yn dweud wrthon ni sut i ymddwyn, mae rhinweddau'n dweud wrthon ni pa fath o berson y dylen ni fod.
- Mae rhinweddau'n helpu i sefydlu'r bwriad neu'r weithred fewnol; mae'r gofynion yn helpu i reoli'r weithred allanol.
- Mae'n bosibl defnyddio enghraifft sy'n dangos y gwaith datrys: menyw feichiog sydd ddim eisiau'r baban. Bydd cariad at y plentyn, er gwaetha'r sefyllfa, yn galluogi'r fenyw i ddewis beth sydd orau i'r plentyn. Bydd cymedroldeb yn atal ymateb sydyn, byrbwyll a bydd pwyll yn sicrhau ei bod hi'n edrych ar ei hymddygiad gyda rheswm cyn gweithredu.
- Mae angen ymarfer i berffeithio ein rhinweddau.
- Byddwn ni'n dod yn fwy tebyg i Dduw a bydd gennym y rhinweddau personol angenrheidiol i wneud penderfyniadau moesol cywir, yn hytrach nag ildio i demtasiwn a gwneud dewisiadau gwael.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4. Cymhwyswch Ddeddf Naturiol Aquinas at fater ewthanasia gwirfoddol.

- Ystyr ewthanasia gwirfoddol yw 'marwolaeth esmwyth, hawdd' neu ladd trugarog, y mae'r claf wedi gofyn amdano fel ateb i ddioddefaint corfforol eithafol.
- Yn hierarchaeth deddfau Aquinas, mae'n rhaid ufuddhau i'r Ddeddf Ddwyfol. Dydy'r ysgrythur ddim yn gwahardd ewthanasia gwirfoddol, ond efallai bydd llawer o ddysgeidiaethau yn berthnasol i'r mater hwn.
- Mae'r ysgrythur yn condemnio llofruddiaeth ac yn cefnogi sancteiddrwydd bywyd.
- Mae Iesu yn gwrthod sylwedd narcotig i leddfu ei boen pan oedd yn marw.

- Yn yr Hen Destament, mae Dafydd yn condemnio dyn y mae'n credu iddo lofruddio Saul wedi i Saul ofyn iddo wneud hynny ar ôl cael ei glwyfo'n farwol mewn brwydr.
- Mae'r Ddeddf Naturiol yn cymhwyso recta ratio (rhesymu cywir) i weithredu moesol.
- Mae'r gofynion cynradd (cynnal bywyd) yn ffafrio hyd bywyd yn hytrach nag ansawdd y bywyd sy'n cael ei brofi.
- Damcaniaeth ddeontolegol yw hon. Felly, dyletswydd/cyfrifoldeb yw bywyd, nid hawl ddewisol.
- Rhowch enghraifft: mae dyn sydd â chanser amhosibl ei wella wedi gofyn i feddyg ei helpu i farw'n gyflym ac yn ddi-boen.
- Dylai pawb sy'n ymwneud â hyn sicrhau rheswm cywir er mwyn gwneud daioni ac osgoi drygioni yn unol â phwrpas Duw (y daioni uchaf).
- Byddai'r dyn yn cael ei helpu i benderfynu drwy ddatblygu rhinweddau:
  - Gobaith – am fywyd tragwyddol yn y nefoedd gyda Duw
  - Ffydd – ymddiriedaeth yn ewyllys Duw
  - Gwroldeb – dewrder i wynebu'r hyn sydd i ddod
- Byddai'r meddyg yn cael budd o ddatblygu rhinweddau:
  - Cariad – tosturi dros ei glaf
  - Cymedroldeb – ymddygiad cymedrol, osgoi eithafion
  - Pwyll – gwneud penderfyniadau doeth, rhesymu cywir
- Ystyr rheswm yw bod y gofynion cynradd yn dangos i bawb sy'n gysylltiedig â hyn fod ganddyn nhw ddyletswydd i gynnal bywyd.
- Felly gallwn ni sefydlu'r gofynion eilaidd sef, peidiwch â lladd, peidiwch â gweithredu ewthanasia, rhowch driniaeth feddygol i gynnal bywyd.
- Mae'r gofyniad cynradd i addoli Duw yn golygu y dylen nhw ddibynnu ar Ddeddf Ddwyfol Duw, sy'n gwahardd lladd.
- Mae'r gofyniad cynradd i drefnu'r gymdeithas yn golygu y dylai pawb ddilyn cyfreithiau dynol. Felly yn y DU, mae ewthanasia gwirfoddol yn dal yn anghyfreithlon.
- Y daioni ymddangosiadol yw lleddfu dioddefaint y dyn gan mai dyna mae e ei eisiau. Fodd bynnag, pechod yw hyn.
- Mae rheswm cywir yn dangos mai'r daioni gwirioneddol yw cynnal bywyd yn unol â'r gofynion cynradd ac awdurdod Duw.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

**Cwestiynau enghreifftiol AA2 – tudalen 33**

1. Gwerthuswch y safbwynt bod angen credu mewn Duw sy'n greawdwr er mwyn i Ddeddf Naturiol Aquinas wneud synnwyr.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Angen credu = Dydy hi ddim yn bosibl ystyried bod y Ddeddf Naturiol yn rhesymegol heb gredu yn Nuw. Er mwyn dilyn y Ddeddf Naturiol, mae angen credu yn Nuw.

**Paragraff un:**

- Mae sylfaen y Ddeddf Naturiol yn y Ddeddf Dragwyddol a Dwyfol, lle mae'n rhaid cael Duw i'w creu nhw.
- Fodd bynnag, rheswm yw sylfaen y gofynion, mae hyn yn wahanol i'r Gorchmynion Dwyfol. Felly, does dim angen i chi gredu yn Nuw er mwyn cymhwyso rheswm.
- Felly, er mai Duw yw'r sail fel yr un sydd wedi creu'r ddeddf, mae'n bosibl dilyn y deddfau heb ffydd. Felly does dim angen credu yn Nuw.

**Paragraff dau:**

- Rhan fach o'r Ddeddf Naturiol yw credu yn Nuw; mae llawer mwy iddi na hyn. E.e. cynnal bywyd, sicrhau mai cariad/agape yw sail gweithredu ac ati.
- Ond mae addoli Duw yn ofyniad absoliwt. Mae'r Ddeddf Naturiol yn syrthio os ydyn ni'n cael gwared ar hyn.
- Yn ogystal, holl bwrpas/telos y Ddeddf Naturiol yw'r weledigaeth wynfydedig neu gymdeithas â Duw ac felly mae'n rhaid wrth gred yn Nuw, does bosibl.

**Paragraff tri:**

- Dydy Duw ddim yn angenrheidiol oherwydd bod yr atheist yn gallu gwerthfawrogi bywyd a chymdeithas drefnus lawn cymaint â'r person crefyddol.
- Fodd bynnag, does bosibl bod gan ddeddfau absoliwt awdurdod dim ond os oes gwarantwr, a hynny ar ffurf Duw. Yn y pen draw, mae pob deddf rydyn ni'n ei chreu yn amodol ar y drefn a greodd Duw.
- Eto i gyd, mae'n bosibl bod gwerth cynhenid i weithredoedd hyd yn oed os nad oes Duw i'n barnu ni. Rydyn ni i gyd yn gwybod bod llofruddiaeth a threisio yn anghywir, does dim gwahaniaeth a oes Duw neu beidio; felly does dim angen cred.

**Casgliad:**

- Yn y pen draw, mae'r Ddeddf Naturiol yn rheswm-ganolog, yn seiliedig ar resymeg empirig Aristotle. Os felly mae hi, does dim gofyniad i gredu mewn Duw sy'n greawdwr. Ond mae rheswm wedi penderfynu bod y deddfau hyn yn amodol ar drefn sydd wedi'i chreu'n dragwyddol. Hon sy'n rhoi eu hawdurdod i'r deddfau rhesymegol ac sy'n ffynhonnell pob rheswm dynol. Does dim llawer o synnwyr bod â dull deontolegol i ymdrin â'r Ddeddf Naturiol heb gred mewn Duw sy'n greawdwr.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

2. 'Mae rhinweddau Aquinas yn aneffeithiol wrth ymdrin â mater erthyliad.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Aneffeithiol = ddim yn cynhyrchu unrhyw effaith arwyddocaol nac effaith rydyn ni'n dymuno ei chreu. Yr effaith rydyn ni ei heisiau gan y Ddeddf Naturiol fyddai nodi cam gweithredu moesegol amlwg o ran mater erthyliad. Byddai rhywun yn disgwyl i'r rhinweddau yn y Ddeddf Naturiol helpu rhywun i ddod i gasgliad eglur o ran sut i ymddwyn.

**Paragraff un:**

- Mae'r rhinweddau'n gwneud i'r Ddeddf Naturiol fod yn ddull cyfannol, yn cefnogi anghenion y fenyw feichiog drwy'r rhinweddau, nid plismona ei gweithredoedd yn unig. (e.e. dewrder, gobaith)
- Fodd bynnag, wrth benderfynu ynghylch erthyliad, dydyn ni ddim llawer callach o ddefnyddio'r rhinweddau ynghylch pa weithred y dylen ni ei gwneud.
- Mae rheolau'n ddefnyddiol er mwyn gwneud penderfyniad eglur, ond efallai bydd person rhinweddol sy'n gariadus eisiau rhoi cyfraith sy'n gwahardd erthyliad o'r neilltu er mwyn achub iechyd meddwl menyw. Felly dydy'r rhinweddau ddim yn effeithiol o ran rhoi penderfyniad eglur.

**Paragraff dau:**

- Mae dull deontolegol y Ddeddf Naturiol yn gadael i fenyw feichiog ddioddef os yw'r baban yn achosi problemau iddi hi. Ond mae'r rhinweddau'n ystyried y ffaith bod gan rai pobl fwy o feichiau nag eraill drwy roi'r cryfder iddyn nhw i ymdopi.
- Eto i gyd, mae mynnu bod person sy'n dioddef yn datblygu mwy o ddewrder neu gymedroldeb yn dangos diffyg teimlad ac yn greulon. Mae'r rhinweddau'n symud y bai am ddioddefaint moesol yn ôl at y dioddefwr, gan ddweud nad yw hi'n ddigon dewr neu'n ddigon ffyddlon.
- Mae'n ymddangos nad yw'r rhinweddau'n effeithiol os ydyn nhw'n gadael i'r Ddeddf Naturiol gadw'n dynn at ei rheolau o hyd a beio'r fenyw am ei dioddefaint.

**Paragraff tri:**

- Mae pob damcaniaeth yn cael anhawster wrth fodloni angen unigol pob person, ond mae'r Ddeddf Naturiol yn mynd â hyn yn rhy bell drwy blismona cymeriad drwy'r rhinweddau. Mae hyn yn cyfyngu mwy ar ein rhyddid moesol na rheolau.
- Fodd bynnag, efallai bydd rhywun sy'n wynebu penderfyniad anodd fel erthyliad, lle efallai nad oes canlyniad cadarnhaol, yn cael cysur yn y rhinweddau.
- Os yw'r rhinweddau'n gallu rhoi cysur pan mae penderfyniad yn aneglur, ac os ydyn nhw'n gallu helpu i arwain llais mewnol person wrth bwyso a mesur yr opsiynau, yna maen nhw'n effeithiol.

**Casgliad:**

- Mae'r rhinweddau ar eu pennau eu hunain yn aneffeithiol gan nad ydyn nhw'n rhoi unrhyw arweiniad moesol ynghylch mater erthyliad. Efallai bydd angen cariad ar y fam a'r plentyn heb ei eni, bydd y ddau fywyd yn dioddef beth bynnag yw'r canlyniad. Fodd bynnag, rhan fach o ddamcaniaeth Aquinas yw'r rhinweddau ac mae'n amhosibl eu hystyried ar eu pennau eu hunain. Efallai fod y fenyw sy'n poeni'n wirioneddol ynghylch beth i'w wneud yn gweld, os oes ganddi rinwedd pwyll, ei bod hi'n haws dod i gasgliad. Os yw hi'n gymedrol, efallai bydd hi'n ymateb yn ofalus a gallai hyn olygu bod y penderfyniad cywir yn cael ei wneud yn y tymor hir.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

# 3 UG: Moeseg Sefyllfa

## 3A UG Moeseg Sefyllfa Joseph Fletcher – ei benderfyniad i wrthod mathau eraill o foeseg ac i dderbyn agape yn sail i foesoldeb

**Profi eich hun – tudalen 34**

1. Beth yw ystyr y term antinomaidd?

Yn llythrennol, yn ddigyfraith. Diffyg unrhyw reolau neu ganllawiau.

2. Pam gwrthododd Fletcher ddeddfoliaeth?

- Roedd hi'n rhy gaeth.
- Doedd hi ddim yn tosturio wrth yr heriau a oedd yn wynebu pobl.
- Mae hi'n rhoi deddfau cyn pobl.
- Roedd hi'n arwain at anfoesoldeb drwy orfodi pobl i ufuddhau i ddeddfau hyd yn oed pan oedd hynny'n eu niweidio nhw.

**Profi eich hun – tudalen 35**

Rhowch dri rheswm pam roedd Fletcher o'r farn bod cariad yn well na deddfoliaeth neu antinomiaeth.

- Mae'n dangos tosturi tuag at bawb yn gyfartal.
- Mae'n egwyddor gadarn i seilio pob ymddygiad arni, felly mae'n osgoi anhrefn antinomiaeth.
- Mae'n hyblyg, yn dangos cariad at bobl mewn ffyrdd gwahanol, yn dibynnu ar bwy ydyn nhw a beth yw eu sefyllfa. Mae hyn yn osgoi caethiwed deddfoliaeth.

**Profi eich hun – tudalen 37**

1. Enwch chwe rhinwedd sydd gan gariad, yn ôl Paul.
    - Amyneddgar
    - Cymwynasgar
    - Ddim yn cenfigennu
    - Ddim yn ymffrostio
    - Ddim yn ymchwyddo
    - Ddim yn gwneud dim sy'n anweddus

2. Rhowch ddwy enghraifft o Iesu yn dangos agape yn y Testament Newydd.
    - Mae Iesu yn achub menyw a gafodd ei dal yn godinebu rhag cael ei llabyddio. Mae e'n maddau iddi. (Ioan 8:1–11)
    - Mae Iesu yn iacháu dyn sydd â llaw ddiffrwyth ar y Sabath pan does dim hawl i weithio. (Marc 3:1–6)

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 37**

Byddai rhai pobl yn dadlau bod rhai gweithredoedd yn gynhenid anghywir, a bod Moeseg Sefyllfa yn annog ymddygiad anfoesol. Meddyliwch am enghraifft lawn lle gallai gweithred gariadus fod yn foesol erchyll.

Mae hyn yn dibynnu ar eich safbwynt chi. Gallai deontolegydd ddadlau y byddai unrhyw weithred sy'n torri rheol foesol yn weithred foesol ofnadwy. Er enghraifft: byddai rhai pobl yn ystyried bod erthyliad wedi'i wneud oherwydd tosturi wrth fam a oedd yn dioddef yn weithred ofnadwy ond eto i gyd yn gariadus. Ond byddai Fletcher yn ystyried bod gweithred fel hyn yn foesol dderbyniol.

Enghraifft bosibl a allai boeni rhai pobl fyddai rhyfel hir a chreulon, a'r unig ffordd o ddod ag ef i ben fyddai bomio canolfan filwrol. Gallai bomio'r ganolfan filwrol achub miloedd ar filoedd o fywydau. Cariad at holl ddioddefwyr diniwed y rhyfel sy'n ysgogi hyn. Fodd bynnag, mae'r ganolfan yn rhan o ysbyty mawr sy'n cael ei ddefnyddio i drin cannoedd o ddioddefwyr cyfundrefn y gelyn. Mae'n bosibl y byddai Fletcher wedi derbyn y weithred hon hefyd.

## 3B UG Moeseg Sefyllfa Fletcher – yr egwyddorion fel modd o asesu moesoldeb

**Profi eich hun – tudalen 38**

1. Beth yw meistr-egwyddor?
Prif egwyddor neu egwyddor sylfaenol.

2. Beth yw ystyr positifiaeth?
(Ffydd yn gyntaf) Allwch chi ddim profi mai cariad yw'r peth pwysicaf. Mae'n rhaid i ni fod yn ffyddiog mai dyna fel mae hi, a defnyddio ein rheswm wedyn i weld pa ffordd sydd orau i fod yn gariadus.

3. Pa rai o'r chwe egwyddor sylfaenol a oedd yn amlwg yn Luc 10: 25–37 ac 1 Corinthiaid 13?
   1. Cariad yn unig – rhoddodd y Samariad normau diwylliannol o'r neilltu er mwyn helpu'r dioddefydd.
   2. Norm sy'n rheoli – er nad oedd y Samariad yn Gristion, dilynodd y delfryd hwn, sydd nawr yn un Cristnogol.
   3. Cyfiawnder = cariad – gwnaeth drin y dioddefwr fel y byddai wedi trin unrhyw Samariad er nad oedd y dioddefwr yn dod o'i grŵp diwylliannol.
   4. Cariad cymdogol – gwnaeth drin y dioddefwr â pharch fel petai'n gymydog.
   5. Mae'r nod yn cyfiawnhau'r dull – y canlyniad oedd bod y dioddefwr yn cael gofal a help i wella. Roedd torri normau crefyddol a diwylliannol yn galluogi hyn i ddigwydd.
   6. Sefyllfa – ymatebodd y Samariad i'r sefyllfa, yn hytrach na chyfeirio at system gaeth o gyfreithiau.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 38**

Mae Fletcher yn rhoi enghraifft menyw â sgitsoffrenia sy'n cael ei threisio pan oedd yn derbyn gofal ac sy'n dod yn feichiog. Byddai'r Ddeddf Naturiol yn gwahardd erthyliad. Gan ddefnyddio'r egwyddorion, esboniwch pam gallai fod yn gariadus i'w ganiatáu.

1. **P**ragmatiaeth – erthyliad yw'r ffordd fwyaf ymarferol o helpu'r fenyw. Byddai beichiogrwydd a geni plentyn yn gwneud rhagor o niwed seicolegol iddi.
2. **P**ersonolyddiaeth – hyd yn oed petai'r gyfraith yn gwahardd erthyliad, y fenyw a'i hanghenion sydd fwyaf pwysig. Mae hi'n methu gofyn am erthyliad drosti ei hun, yn enghraifft Fletcher, ei thad sydd wedi gofyn amdano.
3. **P**ositifiaeth – mae'n rhaid i rywun ymddiried mai cariad yw'r peth gorau ac yna defnyddio rheswm i weithio allan sut rydyn ni'n dangos cariad at y fenyw.
4. **P**erthynoliaeth – dylen ni roi'r gorau i gyfreithiau erthyliad er mwyn mwyn gofalu am y fenyw hon a'i hanghenion. Fydd hyn ddim yn gosod cynsail i bobl eraill. Yn ei hachos hi, oherwydd ei

salwch, mae'n heriol iawn iddi ymdopi â'r newidiadau hormonaidd, y newid yn y cyffuriau y mae'n eu cymryd a'i galluoedd corfforol tra mae hi'n feichiog. Mae ymdopi â rhagor o newidiadau ar ôl yr enedigaeth ac â bod y baban yn cael ei gymryd yn syth er mwyn iddo fod yn ddiogel yn fwy nag y byddai'r rhan fwyaf o bobl iach yn gallu ymdopi ag ef.

1. **C**ariad yn unig – mae'n rhaid i ni bwysleisio'r peth mwyaf cariadus, nid y rheolau.
2. **N**orm sy'n rheoli – Y peth mwyaf Cristnogol i'w wneud yw ei charu hi fel byddai Iesu wedi'i wneud. Gwnaeth Iesu eithriadau a dangos tosturi, dylen ninnau wneud hynny hefyd.
3. **C**yfiawnder = cariad – mae'r fenyw mewn sefyllfa annheg ar ôl i'r beichiogrwydd gael ei orfodi arni yn erbyn ei hewyllys. Mae caniatáu i erthyliad ddatrys hyn yn fwy cyfiawn.
4. **C**ariad at gymydog – dangos gofal a thosturi drosti fyddai'r unig ddaioni. Byddai cadw at y gyfraith, a fyddai yn ystod y cyfnod yn UDA pan oedd Fletcher yn ysgrifennu wedi gwahardd erthyliad fel arfer, yn dangos diffyg tosturi.
5. **N**od yn cyfiawnhau'r dull – y prif beth yw gofal i'r fenyw, felly dylen ni wneud beth bynnag sy'n ofynnol er mwyn ei helpu hi. Efallai mai erthyliad cyn gynted â phosibl, o dan anaesthetig i leihau ei dioddefaint, fyddai'n ei galluogi i ddioddef leiaf.
6. **S**efyllfa – efallai bydd ei gorfodi drwy feichiogrwydd yn golygu bod rhaid addasu'r feddyginiaeth, a allai niweidio'r plentyn heb ei eni. Byddai hi'n cael niwed seicolegol o gael ei gorfodi drwy eni plentyn ac yna mynd â'r plentyn oddi wrthi oherwydd nad yw hi'n gallu gofalu amdano. Efallai bydd y plentyn yn dioddef o ganlyniad i'w gefndir, yn etifeddu salwch seicolegol neu o bosibl yn ei chael hi'n anodd heb deulu sefydlog.

## 3C UG Moeseg Sefyllfa Fletcher – cymhwyso'r ddamcaniaeth

**Profi eich hun – tudalen 40**

1. Pa rai o egwyddorion Moeseg Sefyllfa nad oes sôn amdanyn nhw yn yr enghraifft uchod?

- **P**ositifiaeth
- **P**erthynoliaeth
- **C**ariad yn unig sy'n dda
- **N**orm sy'n rheoli gwneud penderfyniadau Cristnogol
- **S**efyllfa yn cael ei barnu'n gyfrannol nid yn rhagnodol

2. Sut gallech chi gymhwyso unrhyw un ohonyn nhw i'r enghraifft hon?

- **P**ositifiaeth – yn y naill achos a'r llall mae'n rhaid i ni ymddiried mai cariad yw'r canlyniad gorau i Cai a Carys yn hytrach na phoeni beth mae'r gyfraith yn ei ragnodi. Wedyn mae'n rhaid i ni gymhwyso rheswm i weithio allan beth yw'r ffordd orau i ddangos cariad atyn nhw.
- **P**erthynoliaeth – efallai fod y penderfyniad gorau'n wahanol i bob un ohonyn nhw. I Carys bydd y cariad mwyaf yn cael ei gyflawni drwy groesawu ei dymuniad i ymrwymo i'w chariad ac i ddilyn bywyd gyda'i gilydd.  Does neb arall yn cael niwed ac mae'n unol â'u dymuniadau nhw. Yn achos Cai, mae'n fwy cymhleth. Does dim hawl ei orfodi i berthynas nad yw ei heisiau, ond mae angen iddo ofalu ei fod yn dangos cariad at unrhyw bartner posibl. I wneud hyn mae'n rhaid defnyddio'r egwyddorion, osgoi anonestrwydd a sicrhau bod gan ei bartner

yr un dyheadau ag ef. Mae rhoi cydsyniad parod a chael gwybodaeth lawn yn hanfodol i gariad ac mae'n hanfodol defnyddio atal cenhedlu fel bod y partner yn ddiogel. Heb y pethau hyn, fyddai hi ddim yn weithred gariadus.

- **C**ariad yn unig – does dim gwahaniaeth pa gyfreithiau sydd yn y gymdeithas neu'r grefydd, cariad a thosturi at y bobl sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa sydd bwysicaf.
- **N**orm sy'n rheoli – y peth mwyaf Cristnogol i'w wneud yw caru Carys a Cai fel byddai Iesu wedi'i wneud. Gwnaeth Iesu eithriadau a dangos tosturi, felly dylen ninnau wneud hynny.
- **S**efyllfa – yn sefyllfa Carys mae llawer mwy o gariad yn bosibl drwy'r briodas a thrwy fagu teulu mewn amgylchedd sefydlog a chariadus. Yn achos Cai mae gweld y cariad yn fwy o her os noson o ryw heb ymrwymiad sy'n digwydd. Fodd bynnag, fel bod dynol, mae'n bwysig bod Cai yn cael ei drin yn yr un ffordd ag unrhyw un arall. Os nad yw'r sefyllfa'n cael effaith wael ar unrhyw un arall, byddai Fletcher yn dadlau mai mater preifat yw hyn ac mai Cai sydd i benderfynu. Fyddai cyfyngu arno ddim yn weithred gariadus.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 40**

A allwch chi ddefnyddio Moeseg Sefyllfa i wahardd priodas Carys a'i chariad? Pam/pam lai?

Gallai rhai ddadlau na fyddai caniatáu'r briodas yn gariadus oherwydd mae'n caniatáu iddyn nhw eu twyllo eu hunain ynghylch ewyllys Duw a'i gynlluniau ar eu cyfer. Os nad yw Duw yn derbyn cyfunrywioldeb, yna mae caniatáu ac awdurdodi'r gweithredoedd yn eu niweidio nhw. Fodd bynnag, mae hyn yn methu pwynt Moeseg Sefyllfa oherwydd ei bod hi'n dweud bod Crist yn rhoi deddfau fel hyn o'r neilltu mewn rhai sefyllfaoedd.

Gallai rhai nodi nad agape yw'r math o gariad y mae Carys yn ei brofi. Mae'n fwy tebyg i philios neu eros. Yn yr achos hwn nid dyma'r math o gariad y mae rheidrwydd moesol arnon ni i'w hybu. Fodd bynnag, gallwn ni ddadlau y byddai gwahardd eu huniad yn dangos diffyg agape, oherwydd nad ydyn ni'n gadael iddyn nhw gael y boddhad rydyn ni'n gadael i gyplau heterorywiol ei gael mewn bywyd.

**Profi eich hun – tudalen 42**

Pa adnodau o'r Beibl y gwyddoch chi amdanyn nhw a allai awgrymu nad yw amlgarwriaeth yn dderbyniol?

- Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam, ac yn glynu wrth ei wraig, a byddant yn un cnawd. **Genesis 2:24**
- Oherwydd hyn yw ewyllys Duw, ichwi gael eich sancteiddio: yr ydych i ymgadw oddi wrth anfoesoldeb rhywiol. **1 Thesaloniaid 4:3**
- Bydded priodas mewn parch gan bawb, a'r gwely yn ddihalog; oherwydd bydd Duw yn barnu puteinwyr a godinebwyr. **Hebreaid 13–4**

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 42**

Edrychwch ar enghraifft Dyfan, Eirian a Ceri eto. Nodwch pa rai o'r egwyddorion sydd wedi'u gadael allan. Sut maen nhw'n helpu i ddangos a yw gweithred amlgarwriaeth yn gariadus ai peidio yn eu sefyllfa nhw?

**P**ositifiaeth – Mae'n rhaid i rywun ymddiried mai cariad yw'r peth gorau ac yna defnyddio rheswm i weithio allan sut rydyn ni'n dangos cariad at y triawd.

**P**erthynoliaeth – Dylen ni roi'r gorau i gyfreithiau er mwyn gofalu am y grŵp hwn o bobl. Y ffordd orau o ddangos cariad at y tri pherson hyn yw gadael iddyn nhw barhau â'u perthynas oherwydd dyma sy'n rhoi'r bodlonrwydd mwyaf iddyn nhw. Byddai eu gorfodi i chwalu eu perthynas yn achosi gormod o drallod iddyn nhw. Does dim angen gwneud hyn oherwydd nad ydyn nhw'n amddifadu unrhyw un arall o'u cariad drwy eu gweithredoedd.

**C**ariad yn unig – Mae'n rhaid i ni bwysleisio'r peth mwyaf cariadus, nid y rheolau. Mae gadael iddyn nhw barhau â'u perthnasoedd preifat ac ymrwymedig eu hunain yn dangos gofal neu gonsýrn diamod atyn nhw.

**N**orm sy'n rheoli – Y peth mwyaf Cristnogol i'w wneud yw eu caru nhw fel byddai Iesu wedi'i wneud. Dydyn nhw ddim yn hybu unrhyw weithred sy'n achosi niwed i unrhyw berson arall. Mae eu perthynas yn breifat a dydy hi ddim yn eu hatal rhag mynd i'r eglwys neu addoli Duw os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny.

## Cwestiynau enghreifftiol

### Cwestiynau enghreifftiol AA1 – tudalen 45

1. Amlinellwch bedair egwyddor weithredol a chwe egwyddor sylfaenol Moeseg Sefyllfa.

- Lluniodd Joseph Fletcher bedair egwyddor weithredol a chwe gosodiad sylfaenol Moeseg Sefyllfa fel moeseg Gristnogol amgen er mwyn galluogi asiantau moesol i roi egwyddor agape uwchlaw cyfreithiau cymdeithasol a chrefyddol.
- Agape – gofal neu'r consýrn diamod am eraill/ymddygiad allgarol/elusen.
- Meistr-egwyddor – prif egwyddor neu egwyddor sylfaenol.

Darparodd Fletcher yr egwyddorion hyn i roi arweiniad i bobl am y ffordd orau i fod yn gariadus. Nid rheolau neu gyfreithiau ydyn nhw, maen nhw'n disgrifio sut dylen ni gymhwyso cariad.

1. Pragmatiaeth – (ymarferoldeb) mae'n rhaid i unrhyw weithred fod yn ymarferol bosibl er mwyn cael canlyniad cariadus.
2. Personolyddiaeth – (pobl cyn y gyfraith) y personau unigol yw'r flaenoriaeth ac mae cariad atyn nhw yn bwysicach na manylion unrhyw gyfraith.
3. Positifiaeth – (ffydd yn gyntaf) allwch chi ddim profi mai cariad yw'r peth pwysicaf. Mae'n rhaid i ni fod yn ffyddiog mai dyna fel mae hi, a defnyddio ein rheswm wedyn i weld pa ffordd sydd orau i fod yn gariadus.
4. Perthynoliaeth – (dim rheolau pendant) rhaid i bob gweithred fod yn berthynol i ganlyniad cariadus. Does dim cyfreithiau sefydlog sy'n berthnasol yn hollgyffredinol ac eithrio cariad.

Nid cyfreithiau neu reolau yw'r chwe egwyddor hyn. Maen nhw'n rhoi arweiniad ynghylch y ffordd orau i fod yn gariadus wrth wynebu dilema moesol. Maen nhw'n dweud wrthon ni beth yw'r ffordd orau i fod yn gariadus.

1. Cariad yn unig – cariad a dim byd arall yw'r unig beth da cynhenid.
2. Norm sy'n rheoli – cariad yw'r norm sy'n rheoli gwneud penderfyniadau Cristnogol. I Gristion wneud penderfyniad moesol, mae'n rhaid iddo asesu bob amser a fydd yn cynhyrchu cariad cyn poeni ynghylch a yw'n ufuddhau i ddeddfau fel y deg gorchymyn.
3. Cyfiawnder = cariad – yr un peth yw cariad a chyfiawnder. Cariad wedi'i rannu'n deg yw cyfiawnder.

4. Cariad at gymydog – dylech garu eich cymydog fel chi eich hun.
5. Mae'r Nod yn cyfiawnhau'r dull – os yw'r canlyniad yn gariadus, gallwn ganiatáu unrhyw weithred.
6. Sefyllfa – dylen ni benderfynu ar weithredoedd yn ôl y sefyllfa, nid yn rhagnodol. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n edrych ar y sefyllfa ac yn penderfynu ar bob achos unigol, yn hytrach nag edrych ar set barod o reolau a cheisio gwneud iddyn nhw weddu i'r amgylchiadau.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2. Cymharwch Foeseg Sefyllfa Fletcher ag ymagweddau moesegol deddfoliaeth ac antinomiaeth

| **Deddfolaeth** | **Moeseg Sefyllfa** | **Antinomiaeth** |
|---|---|---|
| Set gaeth o gyfreithiau neu reolau parod sy'n absoliwt ac nad oes hawl i'w torri. | Damcaniaeth foesol yn seiliedig ar agape (gofal neu gonsýrn anhunanol/diamod am eraill) fel ffordd ganol rhwng dau ddull deddfolaeth ac antinomiaeth. | Yn llythrennol, yn ddigyfraith. Diffyg unrhyw reolau neu ganllawiau. |
| Mae'n gaeth, yn anhyblyg, yn ymrwymo ac yn awdurdodol. | Mae'n cynnwys egwyddor agape fel yr un egwyddor absoliwt ond mae'n barod i roi unrhyw gyfreithiau ac egwyddorion eraill i'r neilltu. | Mae'n anghyson ac yn ddiegwyddor, yn llythrennol yn gadael pobl i ymddwyn sut bynnag maen nhw eisiau. |
| Dydy hi ddim yn tosturio wrth yr heriau a oedd yn wynebu pobl. | Mae chwe egwyddor sylfaenol Fletcher yn rhoi strwythur sy'n amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin: Cyfiawnder = cariad – yr un peth yw cariad a chyfiawnder. Cariad wedi'i rannu'n deg yw cyfiawnder. Ond mae'n dangos tosturi at eraill:<br>Cariad at gymydog – dylech garu eich cymydog fel chi eich hun | Doedd hi ddim yn amddiffyn aelodau agored i niwed y gymdeithas. |
| Roedd hi'n rhoi deddfau cyn pobl. | Mae pedair egwyddor weithredol Fletcher yn blaenoriaethu anghenion y person sy'n eich wynebu chi. Personolyddiaeth – (pobl cyn y gyfraith) y personau unigol yw'r flaenoriaeth ac mae cariad atyn nhw yn bwysicach na manylion unrhyw gyfraith. Perthynoliaeth – (dim rheolau pendant) rhaid i bob gweithred fod yn berthynol i ganlyniad cariadus. Does dim cyfreithiau sefydlog sy'n berthnasol yn hollgyffredinol ac eithrio cariad. | Byddai'n arwain at anhrefn/anarchiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ond mae'n osgoi anarchiaeth drwy'r ail egwyddor sylfaenol: Norm sy'n rheoli – cariad yw'r norm sy'n rheoli gwneud penderfyniadau Cristnogol. I Gristion wneud penderfyniad moesol, mae'n rhaid iddo asesu bob amser a fydd yn cynhyrchu cariad cyn poeni ynghylch a yw'n ufuddhau i ddeddfau fel y deg gorchymyn. | |
| Mae'n arwain at anfoesoldeb drwy orfodi pobl i ufuddhau i ddeddfau hyd yn oed pan oedd hynny'n eu niweidio nhw. | Yn achos person â salwch terfynol sy'n dioddef ac sydd eisiau marw, byddai Moeseg Sefyllfa yn amddiffyn y claf rhag niwed dull ar hap sy'n llythrennol yn ddigyfraith. Byddai dull fel hyn yn gadael i'r claf ddioddef neu'n mygu'r claf â gobennydd, gyda'r un diffyg consýrn. Ond byddai'n cymhwyso pragmatiaeth – (ymarferoldeb) mae'n rhaid i unrhyw weithred fod yn ymarferol bosibl er mwyn cael canlyniad cariadus. Dydy hi ddim yn ymarferol i garu er mwyn ufuddhau i gyfreithiau sy'n gwahardd ewthanasia a gorfodi'r claf i ddioddef pan nad oes angen iddo. | Mae'r dull yn 'ad hoc' neu ar hap. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3. Archwiliwch sut defnyddir dysgeidiaeth Feiblaidd i gefnogi Moeseg Sefyllfa.

Mae hen ddigon o dystiolaeth o agape yn y Testament Newydd. Dyma enghreifftiau da posibl o Iesu yn dangos agape:

- Mae Iesu yn achub menyw a gafodd ei dal yn godinebu rhag cael ei llabyddio. Mae'n maddau iddi – Ioan 8:1-11

Mae pedair egwyddor weithredol Fletcher yn cynnwys: personolyddiaeth – (pobl cyn y gyfraith) y personau unigol yw'r flaenoriaeth ac mae cariad atyn nhw yn bwysicach na manylion unrhyw gyfraith.

- Mae Iesu yn iacháu dyn sydd â llaw ddiffrwyth ar y Sabath pan does dim hawl i weithio – Marc 3:1–6

Mae chwe egwyddor sylfaenol Fletcher yn cynnwys: mae'r nod yn cyfiawnhau'r dull – os yw'r canlyniad yn gariadus, gallwn ganiatáu unrhyw weithred.

- mae Iesu yn dysgu y dylen ni garu ein gelynion – Luc 6:27–36

Mae chwe egwyddor sylfaenol Fletcher yn cynnwys: norm sy'n rheoli – cariad yw'r norm sy'n rheoli gwneud penderfyniadau Cristnogol. I Gristion wneud penderfyniad moesol, mae'n rhaid iddo asesu bob amser a fydd yn cynhyrchu cariad cyn poeni ynghylch a yw'n ufuddhau i ddeddfau fel y deg gorchymyn.

Mae Iesu yn dysgu mai yn yr ysgrythur mae sail agape. Mae'n adrodd stori yn Luc 10:25–37 sy'n cael ei galw yn Y Samariad Trugarog, i ddangos ei bod hi'n bosibl bod yn anghonfensiynol wrth gymhwyso ufudd-dod gwirioneddol i'r ddeddf cariad hon.

- Ymosododd lladron ar ddyn a oedd yn teithio o Jerwsalem i Jerico. Gadawon nhw ef i farw. Gwelodd offeiriad ac wedyn Lefiad ef, a mynd heibio heb ei helpu. Ond wrth deithio, gwelodd Samariad ef a'i helpu (roedd y Samariaid a'r Lefiaid yn elynion). Rhoddodd driniaeth i anafiadau'r dioddefwr, dod o hyd i lety iddo, gofalu amdano, yna talodd i'r lletywr roi lloches i'r dioddefwr tan iddo wella.

Adroddwyd y stori hon i ddangos mai cariad at gymydog yw'r peth mwyaf cariadus a'r peth sydd ei angen er mwyn etifeddu bywyd tragwyddol.

Mae chwe egwyddor sylfaenol Fletcher yn cynnwys: cariad at gymydog – dylech garu eich cymydog fel chi eich hun.

Yn 1 Corinthiaid 13, mae Paul yn rhestru'r rhinweddau y mae'n rhaid i agape fod â nhw. Maen nhw'n sôn mwy am ymddygiad elusennol tuag at bobl eraill nag am deimladau.

- Mae cariad yn: amyneddgar, cymwynasgar, mwy na ffydd, mwy na gobaith
- Dydy cariad ddim yn: cenfigennu, ymffrostio, gwylltio, ymchwyddo, gwneud dim sy'n anweddus, cadw cyfrif o gam
- Dydy cariad ddim yn: llawenhau mewn anghyfiawnder, ceisio ei ddibenion ei hun, darfod byth
- Mae cariad yn: cydlawenhau â'r gwirionedd, goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf

Mae pedair egwyddor weithredol Fletcher yn cynnwys: positifiaeth – (ffydd mewn cariad yn gyntaf) allwch chi ddim profi mai cariad yw'r peth pwysicaf. Mae'n rhaid i ni fod yn ffyddiog mai dyna fel mae hi, a defnyddio ein rheswm wedyn i weld pa ffordd sydd orau i fod yn gariadus.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4. Esboniwch ddamcaniaeth deleolegol a chanlyniadaethol Moeseg Sefyllfa.

Mae damcaniaethau teleolegol yn canolbwyntio ar bwrpas neu nod gweithred. Mae Moeseg Sefyllfa yn deleolegol oherwydd mai cariad yw'r nod yn ei phroses gwneud penderfyniadau.

Mae canlyniadaeth yn asesu gweithredoedd moesol yn seiliedig ar eu canlyniadau yn hytrach nag ar y weithred ei hun. Mae Moeseg Sefyllfa, fel damcaniaeth ganlyniadaethol, yn gweithio allan a fydd canlyniad gweithred yn gariadus. Os ydyw, yna mae hi'n weithred dda. Dydy gweithred, fel rhyw rhwng aelodau o'r un rhywedd, ddim yn gynhenid dda nac yn gynhenid ddrwg. Mae'n dibynnu ar ganlyniad y weithred ym mhob achos unigol.

*(D.S. pwysleisir y gwahaniaeth rhwng y nod a'r canlyniad isod i'ch helpu gyda'r diffiniadau ond mae hyn ychydig yn artiffisial oherwydd mai'r nod yw'r canlyniad sy'n cael ei fwriadu, felly does dim gwahaniaeth eglur mewn gwirionedd)*

Darparodd Fletcher y pedair egwyddor i roi arweiniad i bobl am y ffordd orau i fod yn gariadus. Nid rheolau neu gyfreithiau ydyn nhw, maen nhw'n disgrifio sut dylen ni gymhwyso cariad.

1. Pragmatiaeth – (ymarferoldeb) mae'n rhaid i unrhyw weithred fod yn ymarferol bosibl er mwyn cael canlyniad cariadus. (teleolegol oherwydd mai'r nod yw cyflawni cariad yn ymarferol)
2. Personolyddiaeth – (pobl cyn y gyfraith) y personau unigol yw'r flaenoriaeth ac mae cariad atyn nhw yn bwysicach na manylion unrhyw gyfraith. (teleolegol oherwydd mai'r nod yw rhoi cariad i'r person hwn)
3. Positifiaeth – (ffydd yn gyntaf) allwch chi ddim profi mai cariad yw'r peth pwysicaf. Mae'n rhaid i ni fod yn ffyddiog mai dyna fel mae hi, a defnyddio ein rheswm wedyn i weld pa ffordd sydd orau i fod yn gariadus. (teleolegol oherwydd mai'r pwrpas yw gweithio allan sut i gyflawni cariad.)
4. Perthynoliaeth – (dim rheolau pendant) rhaid i bob gweithred fod yn berthynol i ganlyniad cariadus. Does dim cyfreithiau sefydlog sy'n berthnasol yn hollgyffredinol ac eithrio cariad. (Canlyniadaethol oherwydd mai canlyniad cariadus yw'r prif nod).

Nid cyfreithiau neu reolau yw chwe egwyddor sylfaenol Fletcher, maen nhw'n rhoi arweiniad ynghylch y ffordd orau i fod yn gariadus wrth wynebu dilema moesol. Maen nhw'n dweud wrthon ni beth yw'r ffordd orau i fod yn gariadus.

1. Cariad yn unig – cariad a dim byd arall yw'r unig beth da cynhenid. (Teleolegol oherwydd nad cyfraith fel y cyfryw yw cariad ond peth da cynhenid i anelu ato fel nod.)
2. Norm sy'n rheoli – cariad yw'r norm sy'n rheoli gwneud penderfyniadau Cristnogol. I Gristion wneud penderfyniad moesol, mae'n rhaid iddo asesu bob amser a fydd yn cynhyrchu cariad (fel canlyniad) cyn poeni ynghylch a yw'n ufuddhau i ddeddfau fel y deg gorchymyn.
3. Cyfiawnder = cariad – yr un peth yw cariad a chyfiawnder. Cariad wedi'i rannu'n deg yw cyfiawnder. (Teleolegol oherwydd mai'r nod yw dosbarthu cariad yn deg.)
4. Cariad at gymydog – dylech garu eich cymydog fel chi eich hun. (Teleolegol oherwydd bod Cariad yn nod ac yn fwriad y tu ôl i unrhyw weithred sy'n cael ei gwneud.)
5. Mae'r Nod yn cyfiawnhau'r dull – os yw'r canlyniad yn gariadus, gallwn ganiatáu unrhyw weithred. (Canlyniadaethol oherwydd bod y ffocws ar y diben neu'r canlyniad, nid ar y weithred ei hun.)
6. Sefyllfa – dylen ni benderfynu ar weithredoedd yn ôl y sefyllfa, nid yn rhagnodol. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n edrych ar y sefyllfa ac yn penderfynu ar bob achos unigol, yn hytrach nag edrych ar set barod o reolau a cheisio gwneud iddyn nhw weddu i'r amgylchiadau. (Teleolegol oherwydd ym mhob sefyllfa, rydyn ni'n ystyried nod cariad ac yn gweithio tuag ato.)

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5. Cymhwyswch Foeseg Sefyllfa Fletcher i fater moesegol perthnasoedd amlgarwriaethol.

- Perthynas amlgarwriaethol yw'r syniad bod mwy na dau o bobl yn rhan o berthynas rywiol a/neu ramantus â'i gilydd, ac yn fodlon ar hynny.
- Mae'n ymddangos bod cyfreithiau beiblaidd traddodiadol yn gwahardd gweithredoedd fel hyn, er nad yw'n eglur bob amser:

- 'Oherwydd hyn yw ewyllys Duw, ichwi gael eich sancteiddio: yr ydych i ymgadw oddi wrth anfoesoldeb rhywiol.' 1 Thesaloniaid 4:3.
- 'Bydded priodas mewn parch gan bawb, a'r gwely yn ddihalog; oherwydd bydd Duw yn barnu puteinwyr a godinebwyr.' Hebreaid 13:4.
- Ym Moeseg Sefyllfa Fletcher, mae unrhyw gyfreithiau neu reolau am berthnasoedd amlgarwriaethol yn ail i gariad o ran pwysigrwydd (agape). Roedd yn honni bod yn rhaid mai ein man cychwyn yw ymddiried mai cariad yw'r peth da (positifiaeth) ac yna gweithio allan beth yw'r ffordd orau i fod yn gariadus. Mae angen i ni asesu'r sefyllfa unigol (perthynoliaeth).
- Os cymerwn ni enghraifft y tri pherson, Dyfan, Eirian a Ceri a gwrddodd yn y brifysgol a rhannu llety yno, gallwn ni gymhwyso egwyddorion agape at eu sefyllfa foesol nhw. Yn raddol daeth eu cyfeillgarwch yn emosiynol ddwfn ac yn rhywiol. Nawr mae pob un o'r tri yn teimlo'n drist wrth feddwl am fod ar wahân. Maen nhw eisiau dal i fyw gyda'i gilydd fel partneriaid rhywiol a rhamantus ar ôl y brifysgol.
- Does dim rheolau caeth sy'n cael eu cymhwyso yma, felly gall pobl wahanol gymhwyso'r egwyddorion mewn ffyrdd gwahanol.
- Pragmatiaeth – dydy'r berthynas hon ddim yn effeithio ar unrhyw un arall. Byddai'n sicrhau bod pob un o dri aelod eu grŵp yn cael ei wireddu'n emosiynol ac yn gorfforol. Ond byddai deddfu ar gyfer perthynas fel hon yn heriol iawn. Mae'n amhosibl amddiffyn pobl rhag cael eu gorfodi i'r math hwn o berthynas.
- Personolyddiaeth/mae cariad yn penderfynu yn ôl y sefyllfa – yn eu sefyllfa, maen nhw i gyd yn cydsynio i'r berthynas ac yn dymuno ei chael, mae'n rhaid rhoi eu hanghenion cyn y gyfraith. Fodd bynnag, maen nhw'n dweud y bydd mwy o gariad, ond nid dyna'r math o gariad yr oedd Fletcher yn sôn amdano. Eros yw hwn, nid agape.
- Cariad = cyfiawnder – Dylen ni eu trin nhw'n deg. Dydyn ni ddim yn mynnu bod pâr heterorywiol, unrhywiol yn rhoi'r gorau i'w bywydau gyda'i gilydd, felly efallai ei bod hi'n annheg gofyn i'r bobl hyn wneud hynny. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn gwrthod perthynas gariadus i unrhyw un. I gael tegwch mae'n rhaid i bob person roi ei sylw i un person ar y tro, beth bynnag yw ei gyfeiriadedd rhywiol.
- Mae'r nod yn cyfiawnhau'r dull – y canlyniad fyddai hapusrwydd a gwireddu emosiynol/rhywiol. Bydd gan y plant sy'n ganlyniad i'r berthynas dri rhiant cariadus i ofalu amdanyn nhw. Fodd bynnag, mae'n anodd rhagweld y canlyniad. Gallai unrhyw blant sy'n ganlyniad i'r berthynas olygu bod pa berson bynnag sydd ddim yn berthynas biolegol yn cael ei adael allan. Dydy hyn ddim yn agapeaidd.
- Câr dy gymydog fel ti dy hun – os yw pob un ohonyn nhw'n teimlo y gallai roi blaenoriaeth i anghenion y ddau arall, yna mae'n bosibl y bydd y berthynas yn achosi agape. Mae'n angharedig disgwyl bod pob un ohonyn nhw'n gallu bod yr un mor bwysig mewn perthynas dair ffordd. Mae perthnasoedd unweddog yn ddigon heriol.
- Yn y pen draw, roedd Fletcher yn teimlo nad oedd perthnasoedd fel hyn, a oedd yn digwydd yn breifat a gyda chydsyniad llawn, yn fusnes i unrhyw un arall nad yw'n cael ei effeithio ganddyn nhw. Byddai hyn yn wir am unrhyw berthynas. Petai ein tri pherson yn anhapus mewn unrhyw ffordd â'r trefniant neu heb wybodaeth lawn am fwriadau neu ddymuniadau'r bobl eraill, byddai hyn yn cael ei asesu'n wahanol ac felly efallai na fyddai'n dderbyniol.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

*(D.S. Weithiau mae cwestiwn 'cymhwyswch' yn gallu teimlo'n debyg iawn i gwestiwn AA2. Mae'n wahanol oherwydd nad yw'n gofyn i chi ddod i farn ynghylch a yw Moeseg Sefyllfa yn effeithiol neu a yw'n well na dull arall, mae'n gofyn i chi am ffyrdd gwahanol o gymhwyso'r egwyddorion, dyna i gyd.)*

**Cwestiwn enghreifftiol AA2 – tudalen 45**

1. Gwerthuswch y safbwynt bod agape yn ymagwedd well at foeseg na deddfau crefyddol.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Gwell = term goddrychol. Gallai olygu bod yn ymarferol, neu'n fwy cyson? Neu, gallai fod yn fwy unol â dysgeidiaeth Crist.

**Paragraff un:**

- Gosododd Iesu y cynsail y gallwn ni roi cyfreithiau o'r neilltu os yw hi'n gariadus i wneud hynny. Mae fel petai'n awgrymu ei fod yn well. Mae'n ymddangos yn unol â'i ddysgeidiaeth.
- Dydy deddfau Duw ddim yn newid, maen nhw'n absoliwt. (Malachi 3:6 – 'Oherwydd nid wyf fi, yr Arglwydd, yn newid'). Dydy agape ddim yn gallu bod yn well na'r ddeddf a osododd Duw.
- Mae agape yn ddefnyddiol i unigolion ond dydy e ddim yn gallu rhedeg cymdeithas oherwydd dydy'r strwythur ddim ganddo i fod yn ymarferol neu'n gyson i gael cyfiawnder.

**Paragraff dau:**

- Mae deddfau crefyddol yn amddiffyn pobl agored i niwed ac yn cynnal ein perthynas â Duw. Mae'n rhaid bod hyn yn well oherwydd ei fod yn fwy cyson ac mae'n golygu bod pobl yn llai tebygol o ddioddef.
- Os ydyn ni'n dilyn agape, yna fel arfer byddwn ni'n dilyn yr hyn y mae'r gyfraith yn ei awgrymu beth bynnag, ond bod y gyfraith yn gariadus. Yr unig bryd y bydd yn cael ei thorri yw os yw hi'n niweidio pobl, felly mae'n rhaid bod agape yn well pan mae hyn yn digwydd.
- Mae agape yn foeseg bersonol ddefnyddiol ar gyfer pan nad yw rheolau'n ymdrin â'r sefyllfa. Felly mae angen cyfuno deddfau crefyddol ag agape mewn rhyw ffordd fel nad yw'r naill na'r llall yn well; mae angen y ddau.

**Paragraff tri:**

- Mae canolbwyntio ar y gyfraith yn golygu ein bod ni'n mynd yn debyg i'r Phariseaid, y pregethodd Iesu yn eu herbyn nhw, felly mae dilyn agape yn well ac yn fwy cyson â Christ.
- Mae ein rheswm yn wallus, mae'n amhosibl ymddiried ynon ni i wybod beth yw'r ffordd orau i fod yn gariadus. Mae hyn yn golygu, does bosib bod cyfreithiau'n well gan fod Duw yn hollwybodus ac yn gosod y rheolau yn eu lle fel rhodd i ni.
- Mae agape yn gallu sicrhau nad yw'r rheolau'n mynd yn rhy galon-galed ac felly efallai fod agape yn well, neu o leiaf gystal â'r gyfraith.

**Casgliad:**

- Mae rheolau'n ddefnyddiol i'r gymdeithas i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn. Felly mae'n hanfodol eu bod nhw'n bodoli. Fodd bynnag, doedd Moeseg Sefyllfa byth yn gwadu hyn. Gorsymleiddio yw awgrymu bod y naill yn well na'r llall. Dim ond pan nad yw'r gyfraith yn gallu gwneud y gwaith mae angen agape, felly dydy'r naill na'r llall ddim yn well. Mae angen y ddau i reoli'r gymdeithas ac i roi arweiniad i berson mewn sefyllfaoedd anarferol neu breifat nad yw'r gyfraith yn eu cwmpasu.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

2. 'Mae Moeseg Sefyllfa yn hyrwyddo triniaeth deg i bawb.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Triniaeth deg = gallai olygu trin pawb yr un fath neu gallai olygu rhoi i bobl yr hyn sydd ei angen arnyn nhw yn y sefyllfa maen nhw ynddi er mwyn llwyddo. Dau beth gwahanol.

**Paragraff un:**

- Un o'r chwe egwyddor sylfaenol yw mai'r un peth yw cyfiawnder a chariad. Mae cyfiawnder yn aml yn cael ei ddiffinio fel triniaeth deg ac felly mae tegwch wedi'i gynnwys ynddo.
- Mae'r calcwlws agapeaidd yn anwybyddu'r lleiafrif er mwyn dod â chariad i'r mwyafrif. Nid triniaeth deg yw hyn, efallai mai dyma'r peth mwyaf ymarferol, ond fydd rhai pobl ddim yn cael eu cynnwys.
- Mae cyfiawnder yn amhosibl. Mae'n amhosibl dangos cariad at bawb er bod Fletcher eisiau i ni wneud hynny. Mae hyn yn golygu, er efallai fod Fletcher yn hyrwyddo triniaeth deg, dydy e ddim yn gallu ei rhoi.

**Paragraff dau:**

- Os triniaeth deg, nid yr un canlyniad, yw cyfiawnder, yna dylai'r un rheolau fod yn berthnasol i bawb. Dyma'r unig beth gallwn ni ei reoli'n realistig gan fod y canlyniadau'n wyllt ac yn anodd eu rhagweld. Allwn ni byth gael triniaeth deg drwy ganlyniadaeth.
- Mae personolyddiaeth yn derbyn bod amgylchiadau yn ei gwneud hi'n haws i rai ufuddhau i reolau. Mae hyn yn decach gan ei bod hi'n llawer haws peidio dwyn pan rydych chi'n gyfoethog ac mae hi'n llawer haws osgoi erthyliad pan nad ydych chi'n feichiog ac os nad ydych chi wedi cael eich treisio.
- Mae Moeseg Sefyllfa yn idealistig ond dydy hi ddim yn realistig. Felly, os yw hi'n hyrwyddo triniaeth deg neu beidio, fydd hi byth yn llwyddo i gyflawni hyn oherwydd bod moeseg yn rhy gymhleth i drin pawb yn deg.

**Paragraff tri:**

- Os yw cyfiawnder yn ganlyniad teg, mae gan bobl anghenion amrywiol i gyrraedd yr un nod ac mae moeseg sefyllfa yn galluogi hyn.

- Mae’n amhosibl deddfu ar gyfer Moeseg Sefyllfa mewn cymdeithas, felly mae hi’n methu hyrwyddo tegwch. Mae hyn oherwydd ei bod hi’n anwybyddu cyfreithiau a rheolau pan mae hi’n gyfleus iddi wneud hynny.
- Mae rhai pobl yn gwrthod derbyn help, ac felly allwn ni ddim rhoi cariad os nad ydyn nhw ei eisiau. Mae hyn yn golygu bod Moeseg Sefyllfa, er bod ei bwriad yn dda, yn methu rhoi triniaeth deg hyd yn oed pan mae hi’n hyrwyddo hynny.

**Casgliad:**

Mae Moeseg Sefyllfa yn hybu rhyddid i ddewis ymddygiad, sy’n swnio’n wych ar yr olwg gyntaf. Fodd bynnag, mae hyn yn hyrwyddo anarchiaeth, nid cyfiawnder. Dydy hi ddim yn amddiffyn aelodau agored i niwed yn y gymdeithas ac felly bydd rhai’n dioddef. Mae hyn yn arbennig o wir pan mae’n rhaid ystyried y mwyafrif dros y lleiafrif. Dydy Moeseg Sefyllfa ddim yn cydnabod mai cymhlethdod y gyfraith yw sicrhau cyfiawnder mewn sefyllfaoedd anarferol ac anodd, felly dydy Moeseg Sefyllfa ddim yn hyrwyddo triniaeth deg i bawb. Mae’n hybu canlyniad gwych i rai.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â’r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi’i gefnogi â thystiolaeth.**

# Thema 4 UG Iwtilitariaeth – ymagwedd anghrefyddol at foeseg

## 4A UG Iwtilitariaeth Glasurol – Iwtilitariaeth Gweithredoedd Jeremy Bentham: hapusrwydd fel sail i foesoldeb

**Profi eich hun – tudalen 46**

1. Pa ysgolhaig sydd wedi'i gysylltu fwyaf ag Iwtilitariaeth Glasurol?

Jeremy Bentham

2. Beth oedd enw Hume ar y math hwn o ddamcaniaeth foesegol?

Damcaniaeth defnyddioldeb

**Profi eich hun – tudalen 48**

1. Caewch y llyfr ac ysgrifennwch bob un o nodweddion penodol y calcwlws hedonig.

**H**yd

**C**yfoeth

**P**urdeb

**A**gosrwydd

**D**wysedd

**S**icrwydd

**M**aint

2. Nawr, a allwch chi ddiffinio pob un?

**H**yd **–** am faint o amser bydd yr hapusrwydd yn para.

**C**yfoeth – faint yn fwy o hapusrwydd bydd y weithred hon yn arwain ato yn y dyfodol (ffrwythlondeb).

**P**urdeb – faint bydd poen yn llygru'r weithred.

**A**gosrwydd – am faint bydd rhaid i ni aros tan i'r hapusrwydd ddechrau.

**D**wysedd – pa mor gryf fydd y teimlad o hapusrwydd.

**S**icrwydd – pa mor sicr ydyn ni y bydd yr hapusrwydd yn digwydd.

**M**aint – ar faint o bobl eraill bydd yr hapusrwydd yn effeithio.

**Profi eich hun – tudalen 49**

1. Pam byddai Iwtilitariaeth yn cael ei hystyried yn berthynolaidd?
   - Does dim rheolau absoliwt sydd wedi'u llunio ymlaen llaw.
   - Does dim un weithred yn gynhenid dda neu ddrwg.

- Mae natur ddaionus neu ddrygionus gweithred i gyd yn berthynol i faint o hapusrwydd a achosir.
- Mae gweithred ddrwg yn ddrwg dim ond os yw'n cynhyrchu mwy o boen na hapusrwydd.

2. Esboniwch beth yw Iwtilitariaeth Gweithredoedd.
    - Mae Iwtilitariaeth Gweithredoedd yn pwyso a mesur pob gweithred unigol yn ôl y sefyllfa y mae'n digwydd ynddi.
    - Does dim rheolau'n cael eu cymhwyso ymlaen llaw.
    - Does dim ymgais i edrych yn hanesyddol ar ganlyniadau gweithredoedd blaenorol ac i lunio unrhyw fath o gynsail.
    - Mae pob sefyllfa'n unigryw a dylen ni ei phwyso a'i mesur yn ôl y Calcwlws Hedonig.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 49**

Cafodd Problem y Troli ei chyflwyno yn 1967. Mae'r arbrawf meddwl yn dweud mai chi yw gyrrwr troli sy'n mynd o gwmpas tro ac yn gweld bod pum gweithiwr ar y trac. Mae'n rhaid i chi wasgu'r brêc i osgoi gwrthdrawiad, ond mae'n methu gweithio. Gallwch chi symud y troli i seidin, ond mae un gweithiwr ar y lein honno hefyd. Does neb yn gallu symud o'r ffordd mewn pryd.

- Cymhwyswch fersiwn Bentham o'r egwyddor defnyddioldeb i'r broblem hon.

Weithiau mae ei egwyddor defnyddioldeb yn cael ei hadnabod fel yr hapusrwydd mwyaf i'r nifer mwyaf o bobl.

Nod ei egwyddor yw hyrwyddo'r hapusrwydd mwyaf ac i leihau'r boen yn y gymdeithas.

Mae'n ymddangos bod symud y troli i seidin a lladd un gweithiwr yn lle'r pum gweithiwr yn creu mwy o hapusrwydd.

- Defnyddiwch ei galcwlws hedonig.

**H**yd – mae'n bosibl y bydd hapusrwydd i'r goroeswyr yn parhau drwy gydol eu bywydau. Mae mwy o flynyddoedd o hapusrwydd ar gael gyda'i gilydd i'r pump nag y byddai ar gael i'r un person.

**C**yfoeth – dydy achub y pump neu'r un person ddim yn arwain yn uniongyrchol at ragor o hapusrwydd neu boen. Fodd bynnag, mae potensial am brofi rhagor o hapusrwydd dim ond oherwydd eu bod nhw'n fyw i gael profiad ohono. Felly, mae mwy o hapusrwydd yn bosibl i'r pum person.

**P**urdeb – bydd ychydig o boen yn cael ei achosi drwy ladd yr un person a bydd eu perthnasau'n profi poen Byddai hyn yn llai na'r poen a fyddai'n cael ei brofi petai'r pum person yn cael eu lladd.

**A**gosrwydd – mae hapusrwydd i'r mwyafrif yn gallu parhau'n syth i'r rhai sydd wedi goroesi. Efallai bydd un gweithiwr yn profi poen yn syth, a bydd ei deulu'n profi poen hefyd am gyfnod byr wedyn.

**D**wysedd – gall hyn amrywio i bobl wahanol. Bydd ymdeimlad cryf o ryddhad i'r rhai sydd wedi goroesi ac i'w perthnasau. Bydd hapusrwydd dwys yn bosibl yn y dyfodol. Bydd anwyliaid y rhai a fydd yn marw yn profi dwysedd poen sylweddol.

**S**icrwydd – gallwn ni fod yn siŵr y bydd y pum gweithiwr yn hapus eu bod wedi goroesi ac y byddai eu perthnasau a'u hanwyliaid wedi profi poen petaen nhw wedi marw. Gallwn ni fod yn siŵr y bydd anwyliaid yr un gweithiwr yn profi poen. Ond allwn ni ddim bod yn sicr ynghylch ar faint o bobl bydd hyn yn effeithio gan nad ydyn ni'n gwybod sefyllfa'r gweithwyr neu unrhyw beth am eu cymeriadau.

**M**aint – bydd hyn yn effeithio ar yrrwr y troli a aeth allan o reolaeth. Mae'n siŵr y byddai ef yn teimlo mwy o boen o ladd pump nag o ladd un. Bydd hyn yn effeithio hefyd ar holl ffrindiau a theulu'r bobl sydd wedi cael eu lladd neu'r rhai sydd wedi goroesi. Hefyd, efallai bydd tystion y bydd y digwyddiad wedi effeithio arnyn nhw. Byddai lladd neu achub y pump yn effeithio ar gymaint yn rhagor o bobl.

- Pa fath o anawsterau sydd i'w gweld?
  - Mae llawer o bethau anhysbys yn gysylltiedig â phwyso a mesur pob rhan o'r calcwlws oherwydd nad ydyn ni'n gwybod dim am fywydau pob person cysylltiedig.
  - Dydyn ni ddim yn gwybod beth yw goblygiadau'r digwyddiad hwn i fywydau pobl yn y dyfodol, er enghraifft PTSD, colli swyddi, teuluoedd yn dioddef, canslo trenau, rhagofalon diogelwch yn y dyfodol. Maen nhw'n gallu bod yn dda neu'n ddrwg.
  - Fyddai dim digon o amser i bwyso a mesur hyn yn ystod eiliad gwneud y penderfyniad.
  - Mae gwahaniaeth rhwng lladd y pump yn ddamweiniol ar droli allan o reolaeth, a thargedu'r un gweithiwr yn fwriadol.
  - Yn ymarferol, sut rydych chi'n mesur teimladau'r bobl sy'n gysylltiedig?

- Ydy hi'n gwneud gwahaniaeth os ydych chi'n adnabod y gweithiwr ar y seidin?
  - Ydy, os yw'r person ar y seidin yn ffrind neu'n berthynas, yn sydyn rwy'n gwybod rhagor amdano ac rwy'n gallu pwyso a mesur ei hapusrwydd neu ei boen yn wahanol.
  - Ydy, mae gen i ymlyniad emosiynol wrtho a bydd y profiad personol o boen o'i ladd yn fwy dwys.
  - Ydy, os yw'r person yn elyn i mi, rwy'n fwy tebygol o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar fy nghasineb fy hun a'm safbwynt am ei werth o'm teimladau fy hun.
  - Nac ydy, mae un person o hyd yn cael ei dafoli yn erbyn pump.
  - Nac ydy, dydy'r calcwlws ddim yn emosiynol ac felly does dim gwahaniaeth sut rwy'n teimlo.

- Ydy hi'n gwneud gwahaniaeth os arsylwr yn hytrach na gyrrwr ydych chi, ac yn lle newid cyfeiriad y troli, eich bod chi'n gallu bwrw'r troli oddi ar y cledrau drwy wthio un person o'i flaen, gan ladd y person hwnnw ond achub y pump?
  - Ydy, mae hyn yn lladd gweithredol yn hytrach na gwneud dewis mewn argyfwng.
  - Ydy, fel arsylwr, rydych chi mewn sefyllfa lai uniongyrchol ac rydych chi'n haeddu cael eich beio am wthio, yn hytrach na bod sicrwydd y bydd eich troli'n lladd rhywun.
  - Nac ydy, mae un person yn marw beth bynnag sy'n digwydd.

## 4B UG John Stuart Mill yn datblygu Iwtilitariaeth – mathau o bleser, egwyddor niwed a'i ddefnydd o'r rheolau

**Profi eich hun – tudalen 51**

1. Pa fathau o hapusrwydd a fyddai yn bwysicach, yn ôl Mill?

Pleser uwch – deallusol, sy'n ein gwneud ni'n ddynol yn hytrach nag fel anifeiliaid eraill, yn rhagori ar bleserau eraill.

e.e. darllen llyfr, ymwneud ag athroniaeth, astudio gwyddonol, ymweld ag oriel gelf, ysbrydolrwydd.

Mae'n rhaid i ni fodloni pleserau is er mwyn bodoli, ond gall fod yn werth aberthu pleser is er mwyn pleser uwch.

2. Sut rydyn ni'n dewis rhwng mathau gwahanol o hapusrwydd?

- Wrth wneud penderfyniad moesol, dylen ni bwyso a mesur gwerth y weithred yn seiliedig ar a oes pleser o ansawdd uwch yn y fantol neu bleser o ansawdd is.
- Dydyn ni ddim bob amser yn dewis y pleser uwch yn hytrach na'r un is os nad ydyn ni wedi cael ein haddysgu ac wedi profi'r amrediad llawn o bleserau'n gywir.
- Felly, dylai pawb gael profiad o'r pleserau uwch drwy addysg gan fod hyn yn eu helpu i wneud dewisiadau moesol gwell.

3. Pam roedd Mill a Carlyle o'r farn bod Iwtilitariaeth Bentham yn anifeilaidd?

- Roedd Thomas Carlyle wedi galw Iwtilitariaeth yn 'athroniaeth y moch' oherwydd ei bod hi'n apelio at ysfeydd sylfaenol, anifeilaidd yn hytrach na gofynion dynol mwy soffistigedig.
- Roedd Mill yn cytuno mai'r hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol yw ein bod ni eisiau mwy allan o fywyd na'r pleserau mochynnaidd sylfaenol.

**Profi eich hun – tudalen 52**

1. Caewch y llyfr hwn ac yna ysgrifennwch yr egwyddor niwed. Agorwch y llyfr a gwiriwch eich ateb.

Efallai na chawn ni fyth gyfyngu ar ryddid pobl eraill i weithredu, heblaw am er mwyn atal niwed rhag cael ei wneud i bobl eraill.

2. Rhowch dri rheswm pam na fyddai Mill yn caniatáu i'r gwarchodwyr sadistaidd boenydio'r carcharor dieuog.

- Dydy'r gwarchodwyr ddim yn cael niweidio person arall er mwyn cael yr hapusrwydd mwyaf yn unig (egwyddor niwed).
- Mae hapusrwydd y gwarchodwyr yn fath is o bleser a dydy e ddim yn cyfrif cymaint. (Mill yn unig, nid iwtilitariaeth rheolau)
- Mae'r carcharor yn ddioddefwr anfoddog ac felly mae'n cael ei warchod (gan egwyddor niwed).

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 53**

Defnyddiwch yr enghreifftiau canlynol i weld a allwch chi lunio rheol a fyddai, o'i mabwysiadu, yn arwain at yr hapusrwydd mwyaf i'r gymdeithas ac i'r unigolyn:

1. A yw hi'n bosibl caniatáu i barau cyfunrywiol gael rhyw?

- Mae gan bob person hawl i gael rhyw gyda phwy bynnag mae eisiau, ond bod y ddau bartner yn cydsynio.
- Person sy'n cydsynio yw oedolyn â meddwl iach sy'n dweud y byddai'n hoffi cael rhyw.
- Mae'n rhaid i weithredoedd rhywiol gael eu perfformio'n breifat yn unig fel nad oes effaith wael ar bobl eraill.

2. A yw hi'n dderbyniol i fenyw gael erthyliad?

Mae'n anodd creu rheol gyffredinol yn yr achos hwn, heblaw am ddweud:

- Mae gan fenyw hawl i ddewis beth sy'n digwydd i'w chorff ar unrhyw adeg.

Fodd bynnag, y broblem yw y bydd hyn yn creu'r hapusrwydd mwyaf dim ond os yw pob menyw yn cytuno â'r rheol hon, oherwydd bod llawer o ddynion a menywod na fydden nhw'n hapus â'r rheol hon. Bydden nhw'n dadlau bod y person heb ei eni yn dal i ddioddef ar draul y fenyw a byddai rhai'n dadlau y dylai fod gan y dyn/tad rai hawliau i benderfynu.

Dewis arall posibl fyddai:

- Mae'n rhaid i bob person gydsynio i unrhyw weithredoedd sy'n cael eu gwneud ar ei gorff ei hun.
- Mae gan bob person hawl i ddewis beth sy'n digwydd i'w gorff ei hun ar unrhyw adeg.

Efallai fod hyn yn gwneud rheol sy'n swnio'n fwy cydradd, sy'n gwneud i ddynion a menywod fod yn gydradd o ran y rheolaeth sydd ganddyn nhw dros eu cyrff. Ond wrth gwrs, y diffyg yma yw nad yw'r person heb ei eni yn gallu cydsynio neu ddewis beth sy'n digwydd i'w gorff. Mae'n dibynnu ar a yw'r un sydd heb ei eni yn berson ai peidio.

Neu:

- Mae'n rhaid amddiffyn pob person agored i niwed rhag niwed, beth bynnag yw ei oed, ei rywedd, ei hil neu ei statws cymdeithasol.

Mae hyn yn golygu bod y ffoetws yn cael ei amddiffyn os yw'n berson, ond person yw'r fenyw hefyd, a gall fod paradocs yn achos beichiogrwydd.

3. A gawn ni gosbi troseddwr â phigiad angheuol?

Os ydyn ni wedi sefydlu'r rheol uchod, bod rhaid i bob person gydsynio i unrhyw weithredoedd sy'n cael eu gwneud ar ei gorff ei hun a'i fod yn cael dewis beth sy'n digwydd i'w gorff ei hun ar unrhyw adeg, yna, 'na chawn' yw'r ateb i'r cwestiwn uchod, chawn ni ddim llunio rheol i ganiatáu hyn. Mae'n ymddangos bod egwyddor niwed yn atal y gosb eithaf oni allwn ni ddweud ei bod hi'n amhosibl cadw troseddwr treisgar yng ngharchar heb niweidio pobl eraill. Os, am ryw reswm, yr unig ffordd o amddiffyn pobl eraill rhag niwed fyddai defnyddio'r gosb eithaf, yna does bosib y byddai'n dderbyniol. Os ydyn ni wedi sefydlu'r rheol bod rhaid amddiffyn pob person agored i niwed rhag cael niwed, beth bynnag yw ei oedran, ei rywedd, ei hil neu ei statws cymdeithasol, gallen ni ddosbarthu troseddwr treisgar fel person agored i niwed (os ydyn ni'n

derbyn bod y bywyd a allai fod wedi arwain person at fywyd o drais yn gallu gwneud iddo ddod yn agored i niwed).

## 4C UG Iwtilitariaeth Gweithredoedd Bentham ac Iwtilitariaeth Rheolau Mill – cymhwyso'r ddamcaniaeth

**Profi eich hun – tudalen 55**

1. Rhowch dri rheswm pam byddai calcwlws hedonig Bentham yn gwrthod arbrofi ar anifeiliaid.

**Hyd** – bydd miliynau o anifeiliaid yn cael eu magu ar gyfer arbrofion ac wedyn ar gyfer y driniaeth.

**Cyfoeth** – mae arbrofi ar anifeiliaid yn annibynadwy, yn arwain at yr hapusrwydd lleiaf yn y dyfodol.

**Purdeb** – mae llawer o anifeiliaid yn dioddef er mwyn i broses feddygol gael ei datblygu.

2. Gwnewch restr o bleserau uwch y mae bodau dynol yn unig yn gallu eu profi.

Athroniaeth, llenyddiaeth, celf.

3. Rhowch ddau reswm Iwtilitaraidd i gefnogi deddf er mwyn defnyddio anifeiliaid mewn ymchwil meddygol

- Dylen ni ddefnyddio ein pŵer i ddiogelu pobl sâl rhag niwed drwy arbrofi.
- Mae wedi cael ei ddefnyddio ers yr Hen Roeg i wella dealltwriaeth feddygol.

**Profi eich hun – tudalen 56**

1. Defnyddiwch dair elfen o'r calcwlws hedonig i esbonio pam mae bod yn berchen ar arfau niwclear yn foesol dderbyniol.

- Hyd – dangosodd Hiroshima a Nagasaki y byddai'n byrhau unrhyw wrthdaro yn sylweddol.
- Dwysedd – byddai goroeswyr ymosodiad yn cael poen difrifol drwy gydol eu hoes.
- Maint – mae bod yn berchen ar yr arfau hyn yn sicrhau diogelwch rhag bygythiadau gan wledydd eraill hefyd.

2. Defnyddiwch dri maen prawf gwahanol o'r calcwlws ac esboniwch pam mae bod yn berchen ar arfau niwclear yn annerbyniol.

- Cyfoeth – mae arfau fel hyn yn lladd pawb – fyddai hyn ddim yn arwain at hapusrwydd yn y dyfodol.
- Sicrwydd – bydd tanio arfau fel hyn yn achosi difrod a hil-laddiad helaeth.
- Purdeb – does dim ffiniau daearyddol i'r difrod a achosir wrth eu defnyddio.

## Cwestiynau enghreifftiol

**Cwestiynau enghreifftiol AA1, tudalen 60**

1. Amlinellwch galcwlws hedonig Bentham.

- Damcaniaeth foesol seciwlar yw Iwtilitariaeth a hyrwyddwyd gan Jeremy Bentham.
- Weithiau mae ei egwyddor defnyddioldeb yn cael ei hadnabod fel yr hapusrwydd mwyaf i'r nifer mwyaf o bobl.
- Felly, nod egwyddor defnyddioldeb yw hyrwyddo'r hapusrwydd mwyaf i'r gymdeithas.
- Wrth ddod i farn am ddaioni neu ddrygioni gweithred, mae'n rhaid i ni bwyso a mesur cyfanswm yr hapusrwydd cyffredinol sy'n cael ei achosi.
- Mae'n rhaid i ni gydbwyso hyn â chyfanswm cyffredinol y poen a achosir.
- Roedd Bentham eisiau gwneud i'r cyfrifiadau moesegol fod mor wyddonol â phosibl. O ganlyniad, lluniodd y calcwlws hedonig, y dylen ni ei gymhwyso i bob sefyllfa heb ddefnyddio unrhyw reolau parod. Bwriad y calcwlws oedd mesur faint o bleser neu boen yr oedd unrhyw weithred yn ei gynhyrchu, er mwyn penderfynu a yw hi'n foesol ai peidio.
- Ymgais yw'r calcwlws hedonig i geisio cyfrifo'r cydbwysedd rhwng y pleser a'r poen sy'n dod o unrhyw weithred.
- Roedd Bentham o'r farn bod modd pwyso a mesur pleser yn feintiol.
- Ystyr hyn oedd bod ganddo fwy o ddiddordeb mewn faint o hapusrwydd fydd yn digwydd; doedd e ddim yn poeni am y math o hapusrwydd neu pa fath o ansawdd sydd iddo.
- Roedd ganddo saith maen prawf yn ei galcwlws:
    1. **H**yd **–** am faint o amser bydd yr hapusrwydd yn para.
    2. **C**yfoeth – faint yn fwy o hapusrwydd bydd y weithred hon yn arwain ato yn y dyfodol (ffrwythlondeb).
    3. **P**urdeb – faint bydd poen yn llygru'r weithred.
    4. **A**gosrwydd – am faint bydd rhaid i ni aros tan i'r hapusrwydd ddechrau.
    5. **D**wysedd – pa mor gryf fydd y teimlad o hapusrwydd.
    6. **S**icrwydd – pa mor sicr ydyn ni y bydd yr hapusrwydd yn digwydd.
    7. **M**aint – ar faint o bobl eraill bydd yr hapusrwydd yn effeithio.
- Honnodd ei bod hi'n bosibl mesur pleser a phoen yn yr un ffordd ag unrhyw beth arall. Yr enw ar uned o bleser oedd hedon, a dolor oedd yr enw ar uned o boen.
- Os yw ymgeiswyr yn gallu defnyddio enghraifft, byddai hyn yn ychwanegu at yr amlinelliad, ond dydy hyn ddim yn hanfodol ar gyfer amlinelliad.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2. Cymharwch Iwtilitariaeth Gweithredoedd ag Iwtilitariaeth Rheolau.

| **Gweithredoedd** | **Rheolau** |
|---|---|
| Does dim ymgais i edrych yn hanesyddol ar ganlyniadau gweithredoedd blaenorol ac i lunio unrhyw fath o gynsail. | Yn hanesyddol, mae rheolau sydd wedi'u sefydlu a fydd bob amser yn arwain at hapusrwydd beth bynnag yw'r sefyllfa. |
| Mae Iwtilitariaeth Gweithredoedd yn pwyso a mesur pob gweithred unigol yn ôl y sefyllfa y mae'n digwydd ynddi. | Does dim angen i bob gweithred gael ei hasesu'n foesol oherwydd mae hi'n foesol gywir os yw hi'n cydymffurfio â rheol |

| | |
|---|---|
| | hanesyddol sydd wedi dangos ei bod hi'n bodloni egwyddor defnyddioldeb. |
| Does dim rheolau'n cael eu cymhwyso ymlaen llaw. | Mae egwyddor niwed Mill yn un o'r rheolau hynny sydd wedi'u gosod ar gyfer pob amgylchiad. |
| Mae pob sefyllfa'n unigryw a dylen ni ei phwyso a'i mesur yn ôl y calcwlws hedonig. | Mae'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir i un person yn gywir ac yn anghywir i bawb. |
| Perthynolaidd –<br>Does dim rheolau absoliwt sydd wedi'u llunio ymlaen llaw.<br>Does dim un weithred yn gynhenid dda neu ddrwg. | Mae dau fersiwn o Iwtilitariaeth Rheolau (cryf a gwan).<br>**Rheol Gryf** – ar ôl gosod y rheolau, does dim hawl eu torri nhw o dan unrhyw amgylchiadau. |
| Canlyniadaethol –<br>asesir pob gweithred yn ôl canlyniad posibl y weithred. | Canlyniadaethol –<br>**Rheol Wan** – mae'n bosibl torri rheolau os yw'n angenrheidiol, i gael yr hapusrwydd mwyaf mewn sefyllfa eithafol. |
| Teleolegol –<br>Telos yw'r gair Groeg am nod neu ddiben.<br>Nod unrhyw weithred yw cynhyrchu'r hapusrwydd mwyaf.<br>Nod pob gweithred foesol yw cynhyrchu hapusrwydd ac osgoi poen. | Dydy fersiwn Mill o Iwtilitariaeth ddim mor amlwg o deleolegol.<br>Mae'n deleolegol yn yr ystyr ein bod ni, wrth sefydlu rheol, yn gwneud hyn drwy ystyried nod yr hapusrwydd neu'r pleser i'r mwyafrif yn gyffredinol.<br>Mae'n ddeontolegol oherwydd, ar ôl i reol gael ei sefydlu, ei bod hi'n dod yn ddyletswydd arnon ni i gynnal y gyfraith hon er lles yr hapusrwydd mwyaf. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3. Archwiliwch sut mae Mill yn datblygu Iwtilitariaeth fel hybrid deontolegol/teleolegol.

- Damcaniaeth seciwlar yw Iwtilitariaeth a ddatblygwyd o waith yr Hen Roegwyr gan Jeremy Bentham.
- Weithiau mae ei egwyddor defnyddioldeb yn cael ei hadnabod fel yr hapusrwydd mwyaf i'r nifer mwyaf o bobl. Mae hyn yn deleolegol oherwydd mai pwrpas neu nod gweithredu moesegol yw cynhyrchu'r hapusrwydd mwyaf.
- Newid nodedig a wnaeth Mill i Iwtilitariaeth Bentham oedd canolbwyntio ar yr honiad mai nod/telos gweithred foesegol oedd ansawdd y pleser yn hytrach na'i faint.
- Mae pleserau uwch yn werth mwy na phleserau is.
- **Pleser uwch** – deallusol, sy'n ein gwneud ni'n ddynol yn hytrach nag fel anifeiliaid eraill, yn rhagori ar bleserau eraill.

  e.e. darllen llyfr, ymwneud ag athroniaeth, astudio gwyddonol, ymweld ag oriel gelf, ysbrydolrwydd.

  **Pleserau is** – sylfaenol, corfforol, anifeilaidd

  e.e bwyta, yfed, cysgu, rhyw.

- Yn hanesyddol, mae rheolau sydd wedi'u sefydlu a fydd bob amser yn arwain at hapusrwydd beth bynnag yw'r sefyllfa.
- Does dim angen i bob gweithred gael ei hasesu'n foesol oherwydd mae hi'n foesol gywir os yw hi'n cydymffurfio â rheol hanesyddol sydd wedi dangos ei bod hi'n bodloni egwyddor defnyddioldeb. Mae hyn yn ymddangos yn ddeontolegol oherwydd ar ôl sefydlu rheol mae'n bosibl ei chymhwyso bob tro.
- Mae'r egwyddor niwed yn un o'r rheolau hynny sydd wedi'u gosod ar gyfer pob amgylchiad.
- Mae'r egwyddor niwed yn dweud na chawn ni fyth gyfyngu ar ryddid pobl eraill i weithredu, heblaw am er mwyn atal niwed rhag cael ei wneud i bobl eraill. Mae hyn yn hollgyffredinol ac felly yn ddeontolegol. Mae dyletswydd arnom i adael i bobl gael rhyddid oni bai ei fod yn achosi niwed.
- Mae'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir i un person yn gywir ac yn anghywir i bawb.
- O ganlyniad, Iwtilitariaeth Rheolau yw'r enw ar fersiwn Mill erbyn hyn.
- Mae dau fersiwn o Iwtilitariaeth Rheolau (cryf a gwan).
- Rheol gryf – ar ôl gosod y rheolau, does dim hawl eu torri nhw o dan unrhyw amgylchiadau (deontolegol – yn seiliedig ar ddyletswydd).
- Rheol wan – mae'n bosibl torri rheolau os yw'n angenrheidiol i gael yr hapusrwydd mwyaf mewn sefyllfa eithafol (teleolegol – yn cyfeirio at nod).
- Mae fersiwn John Stuart Mill yn tueddu i gael ei ddosbarthu fel rheol wan oherwydd ei fod yn derbyn bod adegau pan mae angen rhoi rheolau o'r neilltu i gael yr hapusrwydd mwyaf i'r nifer mwyaf o bobl.
- Dydy fersiwn Mill o Iwtilitariaeth ddim mor amlwg o deleolegol.
- Mae'n deleolegol yn yr ystyr ein bod ni, wrth sefydlu rheol, yn gwneud hyn drwy ystyried nod yr hapusrwydd neu'r pleser i'r mwyafrif yn gyffredinol.
- Mae'n ddeontolegol oherwydd, ar ôl i reol gael ei sefydlu, ei bod hi'n dod yn ddyletswydd arnon ni i gynnal y gyfraith hon er lles yr hapusrwydd mwyaf.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4. Esboniwch pam datblygodd Mill y syniad nad yw pob pleser yr un fath.

- Mae problem y gwarchodwyr sadistaidd yn her gyffredin a ddefnyddir yn erbyn Iwtilitariaeth Bentham.
- Mae tri gwarchodwr sadistaidd yn goruchwylio dyn dieuog, sydd wedi'i garcharu ar gam, ac maen nhw'n cael pleser drwy ei boenydio. Yn ôl fersiwn meintiol Bentham o Iwtilitariaeth, mae Mill yn dadlau bod modd caniatáu'r poenydio oherwydd bod y weithred hon yn cynhyrchu mwy o bleser nag o boen. Eto i gyd, byddai'r rhan fwyaf ohonon ni'n dadlau bod y weithred yn anghywir, does bosib.
- Newid nodedig a wnaeth Mill i Iwtilitariaeth Bentham oedd canolbwyntio ar yr honiad bod pleser yn ansoddol yn hytrach nag yn feintiol.
- Roedd Thomas Carlyle wedi galw Iwtilitariaeth yn 'athroniaeth y moch' oherwydd ei bod hi'n apelio at ysfeydd sylfaenol, anifeilaidd yn hytrach na gofynion dynol mwy soffistigedig.
- Roedd Mill yn cytuno mai'r hyn sy'n ein gwneud ni'n ddynol yw ein bod ni eisiau mwy allan o fywyd na'r pleserau mochynnaidd sylfaenol.
- Yn achos y gwarchodwyr sadistaidd, byddai Mill yn dadlau bod gweithred poenydio yn anghywir.

- Dehonglodd Mill bleser fel Aristotle. Ewdaimonia yw'r math o hapusrwydd rydyn ni i gyd yn ei geisio.
- Honnodd Mill fod modd dadansoddi pleser yn ansoddol. Felly, mae rhai pleserau y byddai'n bosibl tybio eu bod nhw'n bleserau uwch a rhai sy'n is.
- Mae pleserau uwch yn werth mwy na phleserau is.
- Pleser uwch – deallusol, sy'n ein gwneud ni'n ddynol yn hytrach nag fel anifeiliaid eraill, yn rhagori ar bleserau eraill.
  e.e. darllen llyfr, ymwneud ag athroniaeth, astudio gwyddonol, ymweld ag oriel gelf, ysbrydolrwydd.
- Pleserau is – sylfaenol, corfforol, anifeilaidd
  e.e bwyta, yfed, cysgu, rhyw.
- Mae'n rhaid i ni fodloni pleserau is er mwyn bodoli, ond gall fod yn werth aberthu pleser is er mwyn pleser uwch.
- Wrth wneud penderfyniad moesol, dylen ni bwyso a mesur gwerth y weithred yn seiliedig ar a oes pleser o ansawdd uwch yn y fantol neu bleser o ansawdd is.
- Dydyn ni ddim bob amser yn dewis y pleser uwch yn hytrach na'r un is os nad ydyn ni wedi cael ein haddysgu ac wedi profi'r amrediad llawn o bleserau'n gywir.
- Felly, dylai pawb gael profiad o'r pleserau uwch drwy addysg gan fod hyn yn eu helpu i wneud dewisiadau moesol gwell.
- Yn enghraifft y gwarchodwyr sadistaidd, mae'r math o bleser y mae'r gwarchodwyr yn ei gael yn isel iawn a dydy e ddim yn fwy na'r poen difrifol y mae'r un carcharor yn ei gael, er bod mwy ohonyn nhw. Felly, does dim modd cyfiawnhau'r weithred o boenydio.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5. Cymhwyswch Iwtilitariaeth Gweithredoedd Bentham at ddefnyddio arfau niwclear fel arf ataliol.

- Mae Iwtilitariaeth Gweithredoedd yn derm sy'n cael ei gymhwyso i Bentham wrth edrych yn ôl. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n cysylltu'r term ag ef, nid mai ef a fathodd y term.
- Weithiau mae ei egwyddor defnyddioldeb yn cael ei hadnabod fel yr hapusrwydd mwyaf i'r nifer mwyaf o bobl.
- Mae Iwtilitariaeth Gweithredoedd yn pwyso a mesur pob gweithred unigol yn ôl y sefyllfa y mae'n digwydd ynddi.
- Does dim rheolau'n cael eu cymhwyso ymlaen llaw.
- Mae pob sefyllfa'n cael ei gwerthuso yn ôl faint o hapusrwydd neu boen sy'n dod o bob gweithred. Felly mae'n amhosibl i fater arfau niwclear fel arf ataliol fod â rheol syml sy'n gymwys ym mhob achos.
- Mae pob sefyllfa'n unigryw a dylen ni ei phwyso a'i mesur yn ôl y calcwlws hedonig.
- Mae gan naw gwlad arfau niwclear er mwyn atal y cenhedloedd eraill rhag ymosod arnyn nhw. Er mwyn penderfynu a yw hyn yn dderbyniol, mae'n rhaid i ni ei bwyso a'i fesur yn ôl y calcwlws.
- Hyd:
  - Dangosodd Hiroshima a Nagasaki y byddai'n byrhau unrhyw wrthdaro yn sylweddol.
  - Byddai'r llwch ymbelydrol niwclear a'i ganlyniadau tymor hir yn helaeth.
- Cyfoeth:
  - Mae bod yn berchen ar arfau yn arwain at hinsawdd o ofn a diffyg ymddiriedaeth rhwng gwledydd.

    - Mae arfau fel hyn yn lladd pawb – fyddai hyn ddim yn arwain at hapusrwydd yn y dyfodol.
- Purdeb:
    - Byddai arfau'n cael eu defnyddio yn ôl maint bygythiad gelyn yn unig.
    - Does dim ffiniau daearyddol i'r difrod a achosir wrth eu defnyddio.
- Agosrwydd:
    - Mae tanio arfau fel hyn yn achosi poen ymhell i'r dyfodol.
    - Mae ceisio datblygu arfau gwell drwy'r amser yn gohirio hapusrwydd.
- Dwysedd:
    - Byddai goroeswyr ymosodiad yn cael poen difrifol drwy gydol eu hoes.
    - Byddai cenhedloedd agored i niwed, heb amddiffyniad, yn teimlo ofn mawr.
- Sicrwydd:
    - Bydd yr elyniaeth yn cynyddu rhwng cenhedloedd, fel bod mwy o fygythiad o ymosodiad.
    - Bydd tanio arfau fel hyn yn achosi difrod a hil-laddiad helaeth.
- Maint :
    - Mae bod yn berchen ar yr arfau hyn yn sicrhau diogelwch rhag bygythiadau gan wledydd eraill hefyd.
    - Mae rhyfeloedd wedi dechrau yn y gorffennol gan wledydd a oedd yn berchen ar *WMDs* yn cystadlu â'i gilydd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

**Cwestiwn enghreifftiol AA2 – tudalen 60**

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

1. Gwerthuswch y safbwynt bod egwyddor niwed yn gweithio'n dda yn y gymdeithas fodern.

**Cyflwyniad**

Egwyddor niwed – efallai na chawn ni fyth gyfyngu ar ryddid pobl eraill i weithredu, heblaw am er mwyn atal niwed rhag cael ei wneud i bobl eraill.

'Gweithio'n dda' – mae'n awgrymu ei fod yn effeithiol wrth gynhyrchu canlyniad hapus i fwyafrif y bobl yn y byd heddiw.

**Paragraff un:**

- Mae egwyddor niwed yn fath o Iwtilitariaeth Rheolau sy'n cadw gwerthoedd modern ymreolaeth ac yn amddiffyn pobl agored i niwed. Felly mae'n gweithio'n dda i gynhyrchu'r hapusrwydd mwyaf.
- Dydy egwyddor niwed ddim yn amddiffyn pobl agored i niwed pan maen nhw'n berygl iddyn nhw eu hunain, gan mai eu hamddiffyn nhw rhag niweidio pobl eraill mae hi.
- Mae egwyddor niwed yn rhy gyfyngedig i weithio'n dda gan nad yw hi'n rhoi cyfrifoldeb i ni dros y rhai nad ydyn nhw'n effeithio ar boen neu hapusrwydd pobl eraill.

**Paragraff dau:**

- Dydy egwyddor niwed ddim yn gweithio'n dda oherwydd nad yw hi'n gallu amddiffyn yr amgylchedd. Dim ond ymwneud â hapusrwydd dynol mae hi.

- Eto i gyd, yn y tymor hir, mae hapusrwydd dynol yn dibynnu ar ddiogelu'r amgylchedd er ein llesiant a'n hapusrwydd, felly efallai bydd yn gweithio'n dda.
- Mae egwyddor niwed yn dal yn ddibynnol ar y syniad mai hapusrwydd yw'r peth pwysicaf, ac efallai bydd rhai pobl yn teimlo bod hyn yn rhy gyfyngedig fel safbwynt moesegol yn y byd heddiw.

**Paragraff tri:**

- Mae egwyddor niwed yn effeithiol wrth atal cam-drin pobl eraill yn fyfïol er budd personol. Mae angen ymdrin â'r broblem hon yn y byd heddiw.
- Hefyd mae egwyddor niwed yn rhoi rhyddid i bobl weithredu yn ôl yr hyn sy'n ein gwneud ni'n hapus fel unigolion gan ein bod ni'n unigryw ac yn ffynnu mewn ffyrdd gwahanol.
- Mae ffocws y dyddiau hyn ar ryddid unigol ac ar ryddid i weithredu yn gadael i bobl esgeuluso pobl eraill ac mae egwyddor niwed yn dal i adael i hyn ddigwydd.

**Casgliad:**

Er bod egwyddor niwed yn ffordd ddefnyddiol a syml o sicrhau bod pobl wan yn cael eu gwarchod rywfaint mewn cymdeithas sy'n ceisio hapusrwydd, does dim modd sicrhau nad yw ein gweithredoedd yn gallu niweidio pobl eraill. Mae perygl bob amser y gallwn ni dramgwyddo, achosi trallod corfforol neu feddyliol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'n gweithredoedd oherwydd ei bod hi'n amhosibl rhagweld a rheoli canlyniadau. Felly dydy hyn ddim yn gweithio'n dda yn y byd heddiw.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

2. 'Allai crediniwr crefyddol fyth ddilyn moeseg Iwtilitaraidd.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Cyflwyniad**

Mae 'allai fyth' yn awgrymu ei bod hi'n amhosibl cael tir cyffredin i gredinwyr crefyddol a dilynwyr Iwtilitariaeth.

**Paragraff un:**

- Mae egwyddor defnyddioldeb yn hollgyffredinol pa un a yw rhywun yn grefyddol ai peidio, felly does dim rheswm pam na allai person crefyddol ei dilyn.
- Fodd bynnag, does gan anghrediniwr ddim sail well i benderfyniadau moesol, ond mae gan y crediniwr Dduw, sy'n awdurdod absoliwt a pherffaith.
- Yn y pen draw, byddai rhoi eu rhesymu eu hunain ynghylch hapusrwydd yn uwch na gorchmynion Duw yn groes i gydwybod credinwyr crefyddol.

**Paragraff dau:**

- Dydy credinwyr byth yn gallu bodloni ar ddibynnu ar ddyheadau dynol diffygiol yn hytrach nag ar ewyllys Duw, felly allen nhw byth ddilyn Iwtilitariaeth.

- Fodd bynnag, honnodd Mill mai egwyddor defnyddioldeb yw'r fwyaf duwiol gan ei bod hi'n cyfateb i'r rheol euraidd. Y cyfan mae Duw ei eisiau yw hapusrwydd i'w greadigaeth oherwydd ei fod yn ein caru ni.
- Mae'r cymhelliad y tu ôl i Iwtilitariaeth yn wahanol i gymhelliad crediniwr crefyddol, hyd yn oed os yw'r canlyniad yr un fath. Felly mae'n annhebygol y gallai crediniwr crefyddol ddilyn Iwtilitariaeth.

**Paragraff tri:**

- Mae Iwtilitariaeth yn ymagweddu at foesoldeb yn wyddonol ond mae'n well gan gredinwyr ffydd.
- Eto i gyd, nod y Deg Gorchymyn hefyd yw creu cymaint o hapusrwydd ag sy'n bosibl drwy osgoi ymddygiad niweidiol a thrwy hyrwyddo ymddygiad sy'n achosi hapusrwydd.
- Ond mae Iwtilitariaeth yn oddrychol ac yn berthynol, ond mae moeseg grefyddol yn tueddu i fod yn fwy deontolegol, yn ystyried cyfreithiau Duw fel rhai absoliwt.

**Casgliad:**

Does dim cyfeiriad uniongyrchol at Dduw, ond mae hyn yn ei wneud yn gynhwysol ac yn bosibl ei addasu i unrhyw fydolwg, hyd yn oed un crefyddol. Felly, efallai bydd rhai credinwyr crefyddol yn gweld eu bod yn gallu dilyn Iwtilitariaeth fel ffordd ymarferol o greu hapusrwydd ym myd Duw.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

# 1 Meddylfryd Moesegol (rhan 2)

## 1A U2 Ymagweddau metafoesegol – Naturiolaeth:

**Profi eich hun – tudalen 62**

1. Sut gallwn ni wybod beth yw ystyr iaith foesegol?
Drwy ddod o hyd i'w thystiolaeth o ddaioni neu ddrygioni yn y byd empirig.

2. Beth sy'n gwneud Naturiolaeth Foesegol yn wahanol i Ddamcaniaeth Gorchymyn Dwyfol?
Mae damcaniaethwyr Gorchymyn Dwyfol yn dod o hyd i'w tystiolaeth drwy ddatguddiad.
Mae Naturiolaethwyr Moesegol yn dod o hyd i'w tystiolaeth drwy gynnydd gwyddonol.

3. Beth gallwn ni ei wneud i wirio beth yw ystyr iaith foesegol?
Edrych ar y dystiolaeth o'r byd empirig. Defnyddio egwyddor gwirio/anwirio.

**Profi eich hun – tudalen 63**

1. Ble gallwn ni arsylwi ffeithiau moesol?
Yn y byd empirig, yn benodol drwy edrych ar ein rôl yn y gymdeithas.

2. Beth sy'n foesol dda, yn ôl Bradley?
Byw yn ôl ein rôl yn y gymdeithas.

3. Sut gallaf wybod bod llofruddiaeth yn anghywir?
Drwy ystyried y ffeithiau sydd i'w gweld bod llofruddiaeth yn tarfu ar y gymdeithas ac yn achosi rhwyg mewn bywyd teuluol. Mae'n tynnu person o'i rôl yn y gymdeithas. Mae llofruddiaeth yn achosi dinistr corfforol bywyd. Mae'n peri ofn i deuluoedd a'r gymdeithas gyfan.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 64**

1. Gan ddefnyddio erthyliad, cyfunrywioldeb neu fewnfudo fel enghraifft, dangoswch sut byddai Bradley yn pennu'r peth da i'w wneud.

Mae llawer o ffeithiau i'w gweld o ran pob un o'r materion hyn. Dyma rai enghreifftiau o syniadau posibl:

| **Mater Moesol** | **Ffeithiau sydd i'w gweld** | |
|---|---|---|
| Erthyliad | Dinistrio bywyd posibl | Adeiladol ym mywyd menyw nad yw hi eisiau plentyn |
| Cyfunrywioldeb | Mae'n herio rolau rhywedd traddodiadol yn y gymdeithas | Mae'n galluogi perthnasoedd sefydlog lle mae pobl yn cefnogi ei gilydd |
| Mewnfudo | Mae'n rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus sydd o dan straen | Mae'n galluogi i bobl ffynnu ac amrywiaeth ddiwylliannol |

2. Lluniwch osodiadau 'sydd' a 'ddylai fod' o'ch enghreifftiau.

Pa ffordd bynnag rydych chi'n llunio eich gosodiadau, p'un a yw'n dweud y dylai neu na ddylai rhywun wneud rhywbeth, mae'n dal i ddeillio 'ddylai' o 'sydd'. Mae'r isod yn rhai'n unig o'r enghreifftiau'n unig y gallech eu defnyddio.

| **Sydd (Mae)** | **Ddylai** |
|---|---|
| ***Mae*** erthyliad yn dinistrio bywyd posibl | Felly, ***ddylai*** rhywun ddim llofruddio |
| ***Mae*** cyfunrywioldeb yn her i rolau rhywedd traddodiadol | Felly, ***ddylai*** rhywun ddim ymarfer cyfunrywioldeb |
| ***Mae*** mewnfudo'n arfer sy'n galluogi amrywiaeth ddiwylliannol | Felly, ***dylai*** rhywun ganiatáu mewnfudo |

## 1B U2 Ymagweddau metafoesegol - Sythwelediaeth:

**Profi eich hun – tudalen 66**

1. Beth yw Annaturiolaeth Foesegol?
Sythwelediaeth.

2. Sut mae Annaturiolaethwyr yn cytuno â Naturiolaethwyr?
Mae'n bosibl gwybod ffeithiau moesol; maen nhw'n bodoli'n wrthrychol ac yn hollgyffredinol.

3. Sut maen nhw'n anghytuno?
Mae'n amhosibl diffinio ffeithiau moesol gan gyfeirio at y byd naturiol.

**Profi eich hun – tudalen 67**

1. Beth yw'r cysylltiad rhwng ffeithiau sydd i'w gweld a rhwymedigaeth foesol?
Does dim. Dydy ffeithiau sydd i'w gweld ddim yn dweud wrthon ni beth dylen ni ei wneud.

2. Beth yw'r berthynas rhwng meddwl cyffredinol a meddwl moesol?
Mae'n bosibl defnyddio ein rhesymu cyffredinol i wirio ein sythwelediad moesol ond mae'n amhosibl ei wirio.

3. Sut rydw i'n sefydlu rheol foesol?
Drwy sythwelediad. Os oes angen cadarnhad arna i, gallaf wirio a ydw i wedi cael yr un sythwelediad yn y gorffennol.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 68**

Ym Mhroblem Troli Phillipa Foot (gweler tudalen 49), mae'n rhaid i ni benderfynu pwy i'w achub:

- y pum gweithiwr ar y trac ar y chwith
- yr un gweithiwr ar y trac ar y dde

A ydyn ni'n tynnu lifer i ddewis trac? Neu a ydyn ni'n gwthio dyn mawr oddi ar bont arno i'r trac er mwyn bwrw'r troli oddi ar y cledrau ac achub pob un o'r chwe gweithiwr?

A yw'n newid unrhyw beth os:

- y dyn mawr yw'r un sy'n gyfrifol am y broblem?
- yw'r un person ar y trac yn rhywun rydych chi'n ei garu?
- yw'r un person ar y trac yn gwybod sut i iacháu canser?

Gwnewch restr o'r problemau rydych chi'n dod ar eu traws wrth ddefnyddio eich sythwelediad yn hytrach na'ch sgiliau rhesymu i benderfynu.

1. Mae fy sythwelediad yn dweud wrtha i am achub y pum gweithiwr, ond gallai hyn fod yn anghywir oherwydd fy mod i'n dal i ladd rhywun.
2. Hefyd mae fy sythwelediad yn dweud wrtha i am beidio â lladd neb, felly mae gen i fwy nag un sythwelediad ac maen nhw'n gwrthdaro.
3. Mae fy sythwelediad yn dweud wrtha i am beidio â gwthio'r dyn mawr, ond yna rwy'n mynd yn groes i'm greddf er mwyn achub y chwech.
4. Wrth i mi bwyso a mesur, mae pawb yn marw.
5. Efallai fod fy emosiwn yn tywyllu fy ngreddf neu'n dylanwadu arni. Os ydw i'n gwylltio wrth y dyn mawr am achosi'r broblem neu os yw fy nghariad at y person ar y trac yn golygu na allaf synhwyro beth sy'n gywir.
6. Os yw fy ngreddf yn dweud wrtha i am achub y mwyafrif, mae'n rhaid i mi ladd pum person os oes canser ar yr un person.

## 1C U2 Ymagweddau metafoesegol – Emosiynaeth

**Profi eich hun – tudalen 70**

1. Beth yw ystyr anwybyddoliaeth?

Dydy gosodiad moesegol ddim yn gwneud unrhyw honiadau o wirionedd ynghylch y byd, na chwaith yn dweud unrhyw beth y mae'n bosibl dangos ei fod yn gywir neu'n anghywir mewn unrhyw synnwyr gwirioneddol.

2. Pam mae Emosiynaeth yn cael ei galw yn ddamcaniaeth 'Hwrê-bŵ' weithiau?

Mynegiant emosiynol, neu fynegiant o gymeradwyaeth neu anghymeradwyaeth yn unig yw honiad moesol fel 'mae dwyn yn anghywir'.

3. Sut mae Stevenson yn esbonio anghytundebau moesol?

Mae agweddau (hoff ddewisiadau/teimladau) a chredoau (honiadau am ffeithiau) yn rhan o'r ddadl foesol, ond mae anghytundebau am foesoldeb yn ymwneud ag agwedd. Allwch chi ddim profi agweddau, felly mae dadl foesol yn her i weiddi'r teimlad mwyaf swnllyd a cheisio perswadio rhywun i newid ei agwedd.

**Profi eich hun – tudalen 71**

1. Pa fathau o osodiadau moesegol sy'n athroniaeth gywir, yn ôl Ayer?

Metafoeseg. Yr unig athroniaeth foesegol yn ôl Ayer.

2. Pa osodiadau oedd yn ddiystyr, yn ôl Ayer?

Moeseg normadol a chymhwysol.

3. Rhowch enghraifft o osodiad moesegol am bob un o bedwar categori Ayer.

| | |
|---|---|
| Metafoeseg | Mae'r gair 'anghywir' yn golygu fy mod i'n teimlo'n wael am rywbeth pan rwy'n ei ddefnyddio |
| Moeseg Ddisgrifiadol | Mae moeseg Fwdhaidd yn hybu heddychiaeth ar y cyfan |
| Moeseg Normadol | Mae lladd yn anghywir |

| | |
|---|---|
| Moeseg Gymhwysol | Er mwyn osgoi lladd, mae angen i mi wneud yn siŵr nad ydw i'n ymwneud â rhyfel, neu â gwrthdaro corfforol ag arfau |

4. Rhowch ddau reswm pam nad goddrychiaeth yw Emosiynaeth.

- Datganiadau emosiynol yw gosodiadau emosiynol, ond mae gosodiadau goddrychol yn osodiadau am gyflwr emosiynol person. E.e. Mae 'Ych-a-fi!' yn osodiad emosiynol ond mae 'Mae Carys yn casáu brechdanau picl a hufen iâ' yn osodiad goddrychol. Yn ôl Ayer, gosodiad mwy tebyg i'r math cyntaf yw 'Mae llofruddiaeth yn anghywir'.
- Mae'n amhosibl gwirio gosodiadau emosiynol, ond mae'n bosibl gwirio gosodiadau goddrychol. E.e. Dydy 'Ych-a-fi!' ddim yn ymadrodd rydyn ni'n gwybod sut i'w wirio neu i chwilio am dystiolaeth ohono. Mae'n bosibl gwirio 'Mae Carys yn casáu brechdanau picl a hufen iâ'. *Gallwch* chi wirio'r olwg ar fy wyneb a'r ymddygiad rwy'n ei ddangos pan mae fy mab yn bwyta brechdanau picl a hufen iâ. Hefyd gallwch chi wirio sut mae e'n edrych ac yn ymddwyn er mwyn gweld a yw'r gosodiad yn gywir neu'n anghywir, ond chewch chi ddim ateb pendant. Yn ôl Ayer, dydy 'Mae llofruddiaeth yn anghywir' ddim yn osodiad rydyn ni'n gwybod sut i chwilio am dystiolaeth ohono. (Gosodiad goddrychol fyddai 'Rwy'n casáu llofruddiaeth'.)

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 72**

1. Rhestrwch ddeg gosodiad normadol y mae pawb yn cytuno arnyn nhw fel arfer. E.e. Mae llofruddiaeth yn anghywir.

Deg enghraifft:

- Mae treisio'n anghywir.
- Mae helpu pobl yn dda.
- Mae niweidio pobl ddiniwed yn anghywir.
- Mae cam-drin plant yn ddrwg.
- Dylech chi godi eich sbwriel eich hun bob amser.
- Dylech chi osgoi gwneud difrod i'r amgylchedd.
- Mae rhoi cwtsh i'ch plant yn dda.
- Ddylech chi ddim dweud celwydd.
- Mae dwyn yn ddrwg.
- Dylen ni drin pobl eraill fel rydyn ni eisiau cael ein trin.

2. Pa un o'r gosodiadau hyn sy'n achosi pryder os ydyn nhw'n cael eu lleihau yn ddatganiadau emosiynol?

Unrhyw un ohonyn nhw.

3. Pam, felly?

Mae unrhyw un ohonyn nhw'n achosi pryder os ydyn nhw'n cael eu lleihau yn ddatganiadau emosiynol, ond os mynegi teimlad yn unig mae'r gosodiadau am dreisio neu gam-drin plant, yna maen nhw mor ddilys â'r rhai sydd â theimlad i'r gwrthwyneb. Byddai hyn yn golygu na allwn ni gondemnio ymddygiad fel hyn mewn ffordd ystyrlon.

4. Edrychwch yn ôl ar Naturiolaeth a Sythwelediaeth. A ydy'r naill neu'r llall o'r damcaniaethau hyn yn datrys y problemau rydych chi newydd eu codi?

**Naturiolaeth** – Mae'n eich galluogi i gondemnio gweithredoedd sy'n gwrthdaro â'n rôl yn y gymdeithas neu sy'n achosi difrod iddi.
**Sythwelediaeth** – Mae'n eich galluogi i gondemnio gweithredoedd rydych chi'n deall yn reddfol eu bod nhw'n anghywir, hyd yn oed os na allwch chi roi rheswm dros hyn.

## Cwestiynau enghreifftiol

### Cwestiynau enghreifftiol AA1 – tudalen 75

1. Cymharwch ymagweddau metafoesegol Naturiolaeth a Sythwelediaeth.

| Naturiolaeth | Sythwelediaeth |
|---|---|
| Realaeth Foesol – mae ffeithiau moesol yn bodoli | Realaeth Foesol – mae ffeithiau moesol yn bodoli |
| Naturiolaeth Foesol/Foesegol | Annaturiolaeth Foesegol |
| Mae'n bosibl gwybod ffeithiau moesol gwrthrychol yn annibynnol ar farn ddynol | Mae'n bosibl gwybod ffeithiau moesol gwrthrychol yn reddfol |
| Mae'n bosibl gwirio neu anwirio gosodiadau moesol | Dydy gosodiadau moesol ddim yn seiliedig ar unrhyw beth rhesymegol |
| Mae gorchmynion moesol i'w gweld yn y byd empirig | Mae gorchmynion moesol yn amhosibl eu dangos â thystiolaeth empirig |
| Mae naturiolaethwyr moesegol yn dod o hyd i'w tystiolaeth o ddaioni neu ddrygioni yn y byd empirig | Mae sythweledyddion yn honni bod gennym i gyd ymwybyddiaeth ddeallusol uniongyrchol o ddaioni neu ddrygioni |
| Mae Naturiolaeth Foesegol yn ceisio ymagweddu'n wyddonol | Mae Sythwelediaeth yn dweud ein bod ni i gyd yn adnabod y greddfau hyn heb fod angen hyfforddiant neu ddadansoddiad |
| Mae gosodiadau moesegol yn wybyddolaidd | Mae gosodiadau moesegol yn wybyddolaidd ond yn amhosibl eu diffinio |
| Mae'n bosibl cymhwyso rheolau moesegol yn hollgyffredinol i bob person beth bynnag yw ei ddiwylliant neu ei sefyllfa | Mae gan bob bod dynol yr un gallu cynhenid i wybod y gwahaniaeth rhwng cywir ac anghywir yn reddfol |
| Francis Herbert Bradley | Harold Arthur Pritchard |
| Mae iaith foesol yn dibynnu ar osodiadau penodol y mae'n bosibl dangos eu bod yn gywir neu'n anghywir | Roedd yn cytuno â deddf Hume |
| Mae gosodiadau moesegol yn mynegi ffeithiau am y byd, ein safle yn y gymdeithas ac felly ein dyletswydd foesol | Mae ein dealltwriaeth o ddaioni'n uniongyrchol a does dim angen unrhyw wybodaeth ategol o'r rheswm neu'r synhwyrau |
| Gallwn gyflawni gwirionedd drwy ddeall a gwireddu ein rôl yn ein teulu a'n cymuned, er mwyn cael undod â Duw | Mae'n amhosibl lleihau ein teimladau o rwymedigaeth i unrhyw beth arall |
| Gallwn ni wybod beth yw ein rôl yn y gymdeithas drwy arsylwi a dadansoddi'r gymdeithas lle rydyn ni'n byw | Canlyniad casglu tystiolaeth i gefnogi sythwelediad yw mwy o ansicrwydd |
| Gallwn ni arsylwi gweithredoedd adeiladol a dod i'r casgliad eu bod yn gywir ac felly mai ein dyletswydd ydyn nhw. | Y dystiolaeth orau yw os ydyn ni'n teimlo'r un rhwymedigaeth yn y dyfodol. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2. Archwiliwch ymagwedd fetafoesegol Emosiynaeth gan gyfeirio at Alfred J. Ayer.

- Mae Emosiynaeth yn deillio o waith Cylch Vienna/Positifiaethwyr Rhesymegol.
- Dau fath yn unig o osodiad ystyrlon sydd:
    - Datganiadau dadansoddol
    - Datganiadau synthetig
- Dydy gosodiadau moesol ddim yn mynegi gosodiadau am y byd empirig, a dydy eu nodweddion ddim yn eu diffinio eu hunain, felly maen nhw'n ffeithiol ddiystyr.
- Math o anrealaeth neu wrth-realaeth yw anwybyddoliaeth.
- Datgan teimlad ar ran y siaradwr y mae gosodiadau moesegol, a dim mwy.
- Mae'r gosodiad 'Mae dwyn yn anghywir' yn mynegi fy nheimladau am ddwyn, a dim mwy.
- Dydy hi ddim yn gwneud honiad o wirionedd am ddwyn.
- Mae'n amhosibl cael tystiolaeth am yr honiad.
- Mynegiant emosiynol yn unig yw honiad moesol ac nid gosodiad am gred hyd yn oed.
- Wrth roi rhesymau i gefnogi fy ngosodiad, dim ond rhoi enghreifftiau o'm teimladau ydw i, nid cefnogaeth resymegol.
- Dydy 'Mae ewthanasia'n dda' ddim yn fwy ystyrlon na dweud 'Ewthanasia, hwrê!' Dydy dweud 'Arfau niwclear, bŵ!' ddim yn fwy ystyrlon na chondemnio arfau niwclear a'u defnydd!"
- Alfred J. Ayer.
- Ffug-gysyniad yw'r syniad bod rhywbeth yn gywir neu anghywir.
- Dydy gosodiad fel 'Mae dwyn yn anghywir' ddim yn cynnwys mwy o wybodaeth na phetawn i'n gweiddi 'Dwyn!'
- Dydy'r olwg ar fy wyneb neu faint a siâp yr ebychnod sydd ynghlwm wrth y gair ddim yn cynnig unrhyw gynnwys y mae'n bosibl ei ddadansoddi.
- Nododd Ayer fod pedwar math o osodiad moesegol:
    - (Metafoeseg) – yr unig athroniaeth foesegol yn ôl Ayer.
    - (Moeseg Ddisgrifiadol) – mae'n perthyn i'r un categori â seicoleg neu gymdeithaseg.
    - (Moeseg Normadol) – dydy hi ddim yn perthyn i unrhyw gategori o athroniaeth neu wyddoniaeth. (Gosodiadau Emosiynol)
    - (Moeseg Gymhwysol) – dydy hi ddim yn perthyn i unrhyw gategori o athroniaeth neu wyddoniaeth. (Gosodiadau Emosiynol)
- Symbolau yw barn foesegol sy'n cynrychioli'r teimlad rwy'n ei gael wrth feddwl am fater penodol.
- Does gan osodiadau fel hyn ddim dilysrwydd gwrthrychol.
- Hefyd, mae gosodiadau moesegol yn ceisio eich perswadio i deimlo'r un fath â mi.
- Honnodd Ayer fod Emosiynaeth yn wahanol i oddrychiaeth.
- Gosodiadau am gyflwr emosiynol person yw gosodiadau goddrychol, ond mai gosodiadau emosiynol yn unig yw gosodiadau emosiynol, moesol.
- Mae'n bosibl ystyried gosodiadau goddrychol yng ngoleuni tystiolaeth, ond dydy gosodiad emosiynol, moesol ddim yn cynnwys unrhyw ffeithiau am yr hunan.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3.Esboniwch yr heriau i Naturiolaeth foesegol.

- Dywedodd Hume ein bod ni'n arsylwi ffeithiau/datganiadau 'sydd' yn y byd naturiol.

- Maen nhw'n rhoi darlun i ni o sut mae'r byd.
- Allwn ni ddim casglu o'r rhain sut dylai'r byd fod.
- e.e. llofruddiaeth yw dod â bywyd i ben yn dreisgar/cyn pryd, felly ddylen ni ddim llofruddio.
- Y camsyniad yw, does dim byd yn y rhagosodiad sy'n gwneud i'r casgliad fod yn angenrheidiol.
- Yn ôl Deddf Hume, dydy hi ddim yn bosibl deillio 'ddylai' o 'sydd'.
- Nid ffeithiau moesol yw gosodiadau 'ddylai'.

- Honnodd George E. Moore mai camsyniad yw diffinio priodwedd foesegol yn yr un ffordd ag un naturiol.
    - Mae da, fel y lliw melyn, yn amhosibl ei dorri i lawr yn elfennau i'w ddiffinio.
    - Mae Naturiolaethwyr Moesegol yn cyfuno priodweddau naturiol a moesol.
    - Yn ôl Moore, camsyniad neu dwyllresymiad yw defnyddio rhagosodiad nad yw'n foesol i sefydlu casgliad moesol.
- Datblygodd Moore ddadl y cwestiwn agored.
    - Mae'n hawdd datrys cwestiwn caeedig drwy ddiffinio termau, ond dydy hynny ddim yn wir am gwestiwn agored.
    - Wrth geisio cyfuno moesoldeb â phriodwedd naturiol, cwestiwn agored sy'n cael ei gynhyrchu bob tro, ond dylai diffiniad gynhyrchu cwestiwn caeedig. Felly mae'n amhosibl diffinio daioni.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4.Cymharwch waith Harold A. Pritchard â gwaith Alfred J. Ayer.

| **Pritchard** | **Ayer** |
|---|---|
| Sythwelediaeth/Annaturiolaeth Foesegol | Emosiynaeth/Anwybyddoliaeth Foesegol |
| Mae'n gwrthod Naturiolaeth Foesegol | Mae'n gwrthod Naturiolaeth Foesegol |
| Mae'n amhosibl dadansoddi gosodiadau moesol yn rhesymegol, ond maen nhw'n cynnwys gwirionedd ac ystyr serch hynny | Er mwyn iddyn nhw fod yn ystyrlon, dylai gosodiadau fod yn synthetig neu'n ddadansoddol. Dydy gosodiadau moesol ddim y naill na'r llall |
| Rydyn ni'n amgyffred daioni'n syth ac nid yw'n seiliedig ar unrhyw beth arall | Datgan teimlad ar ran y siaradwr y mae gosodiadau moesol, a dim mwy |
| Mae honiadau moesol yn mynegi gwirioneddau gwrthrychol sy'n amhosibl eu dadansoddi | Dydy honiadau moesol ddim yn mynegi dim byd mwy na 'Hwrê!' neu 'Bŵ!' |
| Dydyn ni ddim yn gallu cynhyrchu tystiolaeth neu resymu pam dylen ni ufuddhau iddyn nhw | Mae'n amhosibl cael tystiolaeth dros honiadau moesol ac felly maen nhw heb arwyddocâd ffeithiol |
| Mae cywir ac anghywir yn wirioneddau ffeithiol ond mae'n amhosibl eu profi'n rhesymegol | Ffug-gysyniad yw'r syniad bod rhywbeth yn gywir neu anghywir |
| Mae gosodiadau moesol normadol yn bosibl | Metafoeseg yw'r unig athroniaeth foesgol |
| Mae barn foesegol yn dod o ymdeimlad cynhenid o rwymedigaeth | Mae barn foesegol yn symbolau sy'n cynrychioli ein teimladau |
| Mae ein greddf yn dweud wrthon ni beth dylen ni ei wneud ac yn pennu dyletswyddau penodol | Mae gosodiadau moesegol yn ceisio eich perswadio i deimlo'r un fath â mi |
| Y dystiolaeth orau dros gywirdeb moesegol yw os ydyn ni'n teimlo'r un rhwymedigaeth yn y dyfodol | Does gan osodiadau moesol ddim dilysrwydd gwrthrychol |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5. Archwiliwch ddamcaniaeth fetafoesegol wybyddolaidd Naturiolaeth Foesegol.

- Gosodiadau gwybyddol = cywir neu anghywir; ffeithiol os ydyn nhw'n wir; gwrthrychol; modd eu gwirio â thystiolaeth empirig; e.e. mae coed yn amsugno carbon deuocsid; mae llofruddiaeth yn anghywir (Naturiolaethwyr Moesegol).
- Mae Naturiolaethwyr Moesegol yn trin gosodiadau moesegol yn yr un ffordd ag unrhyw osodiad arall am y byd naturiol.
- Ar ôl i osodiad moesol gael ei wirio fel un cywir, mae hyn yn golygu ei fod yn ffaith wrthrychol ac yn gywir beth bynnag yw barn pobl.
- Mae'n bosibl ei gymhwyso'n hollgyffredinol i bob person beth bynnag yw ei ddiwylliant neu ei sefyllfa.
- Mae hyn yn fath o realaeth foesol, lle mae realiti gwrthrychol i osodiadau fel 'mae llofruddiaeth yn anghywir.
- Mae gan Naturiolaethwyr Moesegol ymagwedd fwy gwyddonol at foeseg.
- Mae gosodiadau moesol yn gallu bod yn ffeithiol yn yr un modd ag y mae priodweddau cemegol yn ffeithiau.
- Rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth synhwyraidd ac yn cymhwyso ein cyneddfau rhesymegol iddi er mwyn cael gwirionedd ffeithiol.
- E.e. Mae gan John Stuart Mill neu Aristotle ymagweddau Naturiolaethol.
- Francis Herbert Bradley.
- Mae iaith foesol, fel y geiriau 'daioni', 'drygioni', 'cywir' neu 'anghywir', yn dibynnu ar osodiadau y mae'n bosibl dangos eu bod yn wir neu'n anwir.
- Rydyn ni'n gallu gwybod beth sy'n dda neu'n ddrwg drwy arsylwi nodweddion gwrthrychol ein byd, a'n lle yn y gymdeithas.
- Gallwn ni wybod beth yw ein rôl yn y gymdeithas drwy arsylwi a dadansoddi'r gymdeithas lle rydyn ni'n byw.
- Gallwn ni arsylwi natur ddinistriol rhai gweithredoedd a dod i'r casgliad bod y gweithredoedd hyn yn anghywir. Felly hefyd, gallwn ni arsylwi gweithredoedd adeiladol a dod i'r casgliad eu bod yn gywir ac felly mai ein dyletswydd ydyn nhw.
- E.e mae llofruddiaeth yn tarfu ar y gymdeithas, yn chwalu teuluoedd a'u rolau cymdeithasol, felly mae llofruddiaeth yn anghywir.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

**Cwestiynau enghreifftiol AA2 – tudalen 75**

1. Gwerthuswch y safbwynt nad oes tystiolaeth i brofi bod sythwelediad moesol yn bodoli.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Tystiolaeth = rhesymegol neu empirig. Er mwyn cael prawf bod sythwelediad moesol, byddai rhywun yn disgwyl i'r naill neu'r llall fodoli.

**Paragraff un:**

- Does dim tystiolaeth. George E. Moore – fel y lliw melyn. Da yw da. Does dim tystiolaeth neu rywbeth cyfatebol.
- Fodd bynnag, nododd Pritchard y gallwn ni ddod o hyd i gefnogaeth i'n sythwelediad mewn meddwl cyffredinol pan mae angen.
- Mae safbwyntiau Moore a Pritchard yn dibynnu ar y dybiaeth nad oes tystiolaeth dros sythwelediad moesol, rydyn ni'n gwybod a dyna ni.

**Paragraff dau:**

- Byddai Ayer yn dadlau mai datganiadau emosiynol yn unig yw sythwelediadau moesol. Mynegi ein teimladau'n unig maen nhw. Dim byd arall.
- Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Ayer yn gywir, does dim tystiolaeth dros ein teimladau heblaw am ein profiad. Os ydyn ni'n gwrthod pob profiad, yna rydyn ni'n mynd mor sinigaidd fel na allwn ni dderbyn realiti dim byd. Ym mhrofiad sythwelediad mae'r dystiolaeth dros sythwelediad.
- Mae profiad personol yn ymddangos yn dila fel tystiolaeth dros safonau moesol gwrthrychol sy'n berthnasol yn gyffredinol. Mae pobl eisiau tystiolaeth fwy diriaethol y gallan nhw ei gweld.

**Paragraff tri:**

- Ddylen ni ddim ymddiried mewn ymateb greddfol ar ei ben ei hun, byddai hynny'n anfoesol oherwydd gallai arwain at weithredoedd ofnadwy. Dylen ni edrych am dystiolaeth i gefnogi sythwelediadau moesol.
- Ond mae pob diwylliant yn rhannu'r un ymdeimlad o ddyletswydd wrth wynebu materion moesol, felly mae'r dystiolaeth yn y profiad o foesoldeb y mae pobl yn ei rannu.
- Byddai Freud yn dadlau mai rhaglennu anymwybodol gan y gymdeithas yw'r 'ymateb greddfol' hwn. Felly mae'n amhosibl ymddiried ynddo heb dystiolaeth o foesoldeb gwrthrychol y tu allan i'n bodolaeth sydd wedi'i rhaglennu.

**Casgliad:**

- Mae'n ymddangos mai holl bwynt Sythwelediaeth yw nad oes tystiolaeth i gefnogi gosodiadau moesol. Mae pob Sythweledydd yn cytuno ar hyn. Yr anhawster yw nid a oes tystiolaeth, ond a yw hi'n bosibl ystyried bod gosodiadau yn ystyrlon neu ddefnyddiol os nad oes modd eu cefnogi'n rhesymegol neu'n empirig. Dylai'r ddadl fod ynghylch a ddylen ni ymddiried mewn anogaeth foesol sydd heb ei chefnogi, neu ei thrin yn amheus.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

2. 'Dydy damcaniaethau metafoesegol ddim yn ychwanegu dim byd defnyddiol at ddadl foesegol.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Defnyddiol = modd ei ddefnyddio/ymarferol/cymwys er mwyn cyflawni pwrpas. A yw hi'n bosibl defnyddio damcaniaethau metafoesegol mewn dadleuon moesegol er mwyn ein helpu i ddod i ddeall moesoldeb?

**Paragraff un:**

- Maen nhw'n ddefnyddiol oherwydd eu bod nhw'n ein gorfodi i fod yn ymwybodol o'r tybiaethau rydyn ni'n eu gwneud am ddaioni neu ddrygioni.
- Fodd bynnag, mae'n amhosibl symud ymlaen o ran dadansoddi moesegol os yw termau fel hyn yn cael eu diystyru fel rhai emosiynol neu ddiystyr.
- Mae cael y ddadl hon yn hanfodol cyn symud ymlaen gyda moeseg, fel y gallwn ni i gyd gytuno ar yr un derminoleg. Fel arall byddwn ni'n camddeall ein gilydd yn y ddadl foesegol.

**Paragraff dau:**

- Mae'r Gorchymyn Dwyfol yn ein hatal rhag dadlau â gosodiad moesol o gwbl. Dydy hyn ddim yn ymarferol mewn dadl foesegol ac felly dydy e ddim yn ddefnyddiol. Mae'n bosibl dweud yr un fath am y positifiaethwr rhesymegol ond am reswm gwahanol. Mae'r naill a'r llall yn gwrthod gadael i osodiadau croes i'w gilydd gael eu hystyried.
- Mae angen eglurder yn y ddadl. Mae diffinio termau drwy fetafoeseg yn angenrheidiol.
- Roedd Alfred J. Ayer yn meddwl mai metafoeseg oedd yr unig wir ffurf ar foeseg. I Ayer, cymdeithaseg neu seicoleg yn unig oedd moeseg ddisgrifiadol a pherson yn mynegi emosiwn yn unig oedd y lleill. Mae ei bwynt yn ddilys oherwydd mai dyma'r unig fath o athroniaeth sy'n cwestiynu sylfaen ein gwybodaeth a'n tybiaethau.

**Paragraff tri:**

- Mae emosiynaeth Stevenson yn ddefnyddiol oherwydd ei bod yn hybu dadlau gan fod anogaeth foesol yn berswadiol.
- Ond byddai Positifiaethwyr Rhesymegol yn dweud bod pob dadl fel hyn yn ddiystyr oherwydd nad yw wedi'i seilio ar dystiolaeth neu ddadansoddi rhesymegol.
- Mae Naturiolaeth yn rhoi rhywbeth diriaethol y gallwn ni ddadlau yn ei gylch, yn wahanol i ddamcaniaethau eraill. Felly, ffeithiau rydyn ni'n ceisio eu casglu, yn hytrach na theimladau neu sythwelediadau sydd heb eu cefnogi.

**Casgliad:**

- Pwrpas metafoeseg yw penderfynu ar ystyr cyffredin i eiriau, naill ai fel y gallwn ni i gyd eu defnyddio i olygu'r un peth, neu fel y gallwn ni benderfynu ar gyfatebiaeth wrthrychol i'r geiriau. Does dim consensws ynghylch ystyr neu bwrpas iaith foesegol, a than y gallwn ni benderfynu ar un, mae'n anodd gweld sut gall metafoeseg gynnig unrhyw beth defnyddiol.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

# 2 U2 Moeseg Ddeontolegol

## 2A U2 Datblygiad John Finnis o'r Ddeddf Naturiol:

### Profi eich hun – tudalen 77

1. Rhestrwch y saith daioni sylfaenol.
    - Bywyd
    - Gwybodaeth
    - Chwarae
    - Profiad esthetig
    - Cyfeillgarwch
    - Rhesymoldeb ymarferol
    - Crefydd
2. Sut rydyn ni'n gwybod beth yw'r saith daioni sylfaenol?
   Mae'n hunanamlwg.
3. I bwy mae'r daioni'n berthnasol?
   Maen nhw'n gyffredinol i bob person ym mhob diwylliant.

### Profi eich hun – tudalen 78

1. Rhestrwch naw gofyniad rhesymu ymarferol.
    - Gweld bywyd fel rhywbeth cyflawn
    - Dim ffafrio gwerthoedd (daioni) yn fympwyol
    - Mae daioni sylfaenol yn berthnasol i bawb yn ddiwahân
    - Peidiwch â datblygu obsesiwn â project penodol
    - Defnyddiwch ymdrech er mwyn gwella
    - Cynlluniwch eich gweithredoedd er mwyn cyflawni'r daioni mwyaf posibl
    - Peidiwch byth ag achosi niwed i ddaioni sylfaenol
    - Meithrin daioni er lles pawb yn y gymuned
    - Gweithredu'n unol â'ch cydwybod a'ch awdurdod eich hun
2. Rhowch dair ffordd y mae rheswm ymarferol yn gwahaniaethu oddi wrth reswm damcaniaethol.
    - Mae rheswm damcaniaethol yn ymwneud â gwirionedd, ond mae rheswm ymarferol yn disgrifio sut i ymddwyn.
    - Dydy rheswm damcaniaethol ddim yn gallu cynhyrchu gosodiadau sy'n groes i'w gilydd, ond mae rheswm ymarferol yn cynnig dewis o gamau gweithredu a all fod yn groes i'w gilydd.
    - Mae rheswm damcaniaethol yn ystyried beth sy'n gwneud dadl ddilys, ond mae rheswm ymarferol yn ystyried sut i roi ein gwybodaeth ar waith.
3. Beth yw'r berthynas rhwng emosiwn a rheswm wrth wneud penderfyniadau moesol?
   Mae emosiynau'n chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau, ond ddylen nhw ddim rheoli rhesymu ymarferol cywir neu dynnu sylw oddi ar y rhesymu.
4. Pam mae rheswm ymarferol yn ddefnyddiol?

Mae rheswm ymarferol yn hollgyffredinol ac yn ddiamser. Y rhesymau hyn sy'n llywio'r broses o weithio allan y rhesymau pam dylen ni weithredu, ac yna sefydlu'r opsiynau ar gyfer gweithredu.

**Profi eich hun – tudalen 79**

1. Pam mae daioni er lles pawb mor bwysig?
   Mae angen i fodau dynol fyw gyda'i gilydd a chydweithredu â'i gilydd, er ein llesiant ni ein hunan ac er llesiant pawb o'n cwmpas. Os yw'r gymdeithas heb ei gwireddu, yna rwy'n llai tebygol o fod wedi fy ngwireddu.

2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng moesoldeb a'r gyfraith?
   Mae damcaniaeth foesol fel y Ddeddf Naturiol yn sefydlu beth sy'n dda. Mae deddf yn rhoi rheolau sy'n rheoli ymddygiad.

3. A ddylen ni ufuddhau i gyfraith anghyfiawn?
   Efallai y byddai rhaid i ni ufuddhau i gyfraith anghyfiawn o hyd petaen ni'n bygwth lles pawb wrth ei thorri hi. Er enghraifft, efallai y bydden ni'n chwalu'r system awdurdod wrth anufuddhau, fel ei bod hi'n fwy anodd i gydlynu pawb.

4. Rhowch dair nodwedd ar awdurdod llwyddiannus.
   - Mae ganddo arweinydd sy'n cydlynu popeth.
   - Heb orfodaeth.
   - Mae'n gadael i unigolion gael rhyddid i geisio'r daioni sylfaenol o'u rhan eu hunain.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 79**

1. Pa un o'r gweithredoedd hyn a fyddai'n foesol dderbyniol yn ôl Deddf Naturiol Finnis?
   a. Dweud celwydd wrth eich athro/athrawes fel nad yw'n dweud y drefn – Na fyddai. (Dydy hyn ddim yn meithrin cyfeillgarwch a dydy e ddim yn dangos unrhyw ymrwymiad i brosiect dysgu.)
   b. Chwarae jôc ymarferol ar ffrind yn y dosbarth – Efallai. (Mae'n gallu bodloni chwarae, ond mewn rhai achosion gallai herio cyfeillgarwch. Ddylech chi ddim ffafrio rhai gwerthoedd yn fympwyol dros rai eraill.)
   c. Rhiant yn atal ei blentyn sydd yn ei arddegau rhag mynd i ŵyl bop cyn yr arholiadau – Na fyddai. (Dylai awdurdod fod heb orfodaeth. Fodd bynnag, dylai'r person yn ei arddegau weld bywyd fel rhywbeth cyflawn, a ddylai e ddim ffafrio chwarae yn fympwyol dros wybodaeth)

   ch. Protestio y tu allan i glinig erthylu – Efallai. (Ddylai ymddygiad gorfodol ddim bod yn rhan o hyn, mae'n rhaid i'r gweithredu feithrin daioni er lles pawb. Efallai nad yw ymyrryd â hawliau menyw i gael mynediad at wasanaethau meddygol yn meithrin daioni er lles pawb. Efallai fod atal colli bywyd yn meithrin daioni er lles pawb.)

   d. Cael diwrnod pyjama a gwylio Netflix – Efallai. (Ddylai dim bod ffafrio gwerthoedd yn fympwyol, a dylai'r weithred feithrin daioni yn hytrach nag atal un arall. Mae'n dibynnu ar a yw'n meithrin chwarae a phrofiad esthetig neu a yw'n ffafrio rhai gwerthoedd yn fympwyol dros rai eraill.)
   dd. Peidio â mynd i wers er mwyn cwrdd â'ch cariad – Na fyddai. (Ddylai dim bod ffafrio gwerthoedd yn fympwyol). Ddylen ni ddim dewis chwarae neu gyfeillgarwch dros wybodaeth a dylem weld bywyd fel rhywbeth cyflawn.) e.e. A all awdurdod cyfiawn gosbi pobl am beidio ag ufuddhau i'r Ddeddf Naturiol?

- Gall – os dyma'r unig ffordd i amddiffyn daioni er lles pawb.
- Nac oes – mae'n rhaid i awdurdod fod heb orfodaeth.

## 2B U2 Trosolwg Bernard Hoose o'r ddadl Gyfranoliaeth:

**Profi eich hun – tudalen 81**

1. Diffiniwch y termau deontolegol a theleolegol.

Deontolegol – Groeg: (deon), sef dyletswydd. Mae dyletswydd ar yr asiant i ufuddhau i ddeddfau hollgyffredinol, absoliwt. Teleolegol – Groeg: (telos), sef pwrpas/nod. Bwriad yr asiant a/neu ganlyniadau'r weithred yw'r hyn sy'n gwneud i weithred fod yn foesol.

2. Esboniwch pryd byddai hi'n dderbyniol torri rheol.

Mae Hoose yn honni nad yw mynd yn erbyn egwyddor byth yn iawn heblaw bod rheswm cyfrannol yn bodoli i gyfiawnhau'r weithred.

**Profi eich hun – tudalen 82**

Rhowch dair nodwedd ar weithred foesol ddrwg a thair nodwedd ar ddrygioni ontig.

- Bodau dynol sy'n achosi gweithred foesol ddrwg, mae'n fwriadol ac enw arall posibl arni yw pechod.
- Diffyg perffeithrwydd yn y greadigaeth yw drygioni cyn-foesol neu ontig, sef niwed neu ddifrod sy'n anochel ac y mae'n bosibl ei ddioddef os yw am reswm cyfrannol.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 83**

Mae Hoose yn ystyried dienyddiwr (*Proportionalism*, tt. 47–48) sy'n gweithredu'r gosb eithaf ar droseddwyr yn ôl cyfarwyddyd y llysoedd barn.

- Beth fyddai'r weithred foesol dda yn y sefyllfa hon?
Gweithredu'r gosb eithaf oherwydd mai ei ddyletswydd yw gwneud hynny.

- Beth allai'r cymhelliad fod os yw'r dienyddiwr yn gwrthod gwneud ei ddyletswydd?
Cynnal bywyd yn ôl y gofynion cynradd.

- Nodwch y gwerth a'r anwerth os yw'r dienyddiwr yn gwrthod gwneud ei waith.
    - Y gwerth posibl yw bod bywyd yn cael ei gynnal ac mai'r bwriad oedd cynnal y gofynion cynradd. Mae hyn yn foesol dda.
    - Yr anwerth posibl yw na fyddai wedi cyflawni ei ddyletswydd ac y gall hynny rwystro trefn yn y gymdeithas
- Beth yw'r weithred gywir i'r dienyddiwr hwn?

Efallai fod hyn yn dibynnu ar y canlyniadau posibl, a beth oedd y drosedd a gyflawnodd y troseddwr. Mae gweithredu'r gosb eithaf yn foesol gywir os yw hynny am reswm cyfrannol. Fodd bynnag, os yw mwy o anwerth yn cael ei greu (ac mae Hoose yn dueddol o feddwl mai felly mae hi) yna byddai gwrthod yn foesol gywir. Mae hyn oherwydd nad yw hi'n bosibl gwrthdroi'r

trosedd a gyflawnwyd a thalu amdano yn ddigonol drwy farwolaeth arall, ac mae'n amhosibl adsefydlu'r troseddwr drwy'r gosb eithaf.

## 2C U2 Deddf Naturiol Finnis a Chyfranoliaeth: cymhwyso'r ddamcaniaeth:

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 85**

Sut byddai'r atebion i'r enghreifftiau hyn yn newid (os o gwbl) petai Aashi yn un o'r sefyllfaoedd canlynol:

a. Mewn perygl oherwydd rhyfel
Bydd mwy o werth yn cael ei achosi drwy ganiatáu iddi ddod gan y bydd ei bywyd yn cael ei achub, ac allai hi ddim cyfrannu at ei chymuned neu gael bywyd ffyniannus petai hi'n cael ei lladd.

b. Yn feddyg sydd wedi cael llawer o addysg
Byddai hi'n gallu cyfrannu mwy o werth at y naill gymuned neu'r llall, petai hi'n aros yn India neu'n dod i'r DU. Efallai byddai mwy o werth yn cael ei greu wrth iddi ddod yma petai mwy o gyfleoedd datblygu gyrfa yn y DU. Efallai byddai mwy o werth yn cael ei greu wrth iddi aros lle mae hi, petai dim meddyg gan ei phentref hebddi hi.

c. Heb deulu yn y DU
Bydd llai o werth yn cael ei greu os yw hi'n symud i'r DU lle na all hi gael bywyd teuluol. Hefyd bydd mwy o anwerth os yw hi'n dibynnu ar y wladwriaeth i'w chefnogi hi os nad oes ganddi deulu i wneud hynny. Efallai fod peth gwerth iddi ddysgu Saesneg yn y DU er mwyn cael perthnasoedd ystyrlon a'i chefnogi ei hun yn y dyfodol.

ch. Yn droseddwr
Efallai fod mwy o anwerth mewn caniatáu iddi ddod i'r DU os yw ei throsedd yn debygol o gael ei ailadrodd. Fodd bynnag, os oedd ei gweithredoedd troseddol yn ganlyniad i'w hamgylchiadau cymdeithasol, byddai mwy o werth yn cael ei greu drwy ei thynnu o'r amgylchedd hwnnw i fod gyda'i theulu a gyda mynediad at adnoddau gwell.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 87**

Pa agweddau ar Ddeddf Naturiol Finnis neu Gyfranoliaeth nad oes sôn amdanyn nhw yn yr ateb yn y tabl uchod? Beth gallech chi ei ychwanegu er mwyn gwella'r atebion hyn?

Doedd dim sôn penodol am y mathau hyn o ddaioni sylfaenol:

- Gwybodaeth
- Chwarae
- Profiad esthetig
- Cyfeillgarwch
- Rhesymoldeb ymarferol
- Crefydd

O'r naw gofyniad rheswm ymarferol, doedd dim sôn penodol am y canlynol:

- Dim ffafrio gwerthoedd (daioni) yn fympwyol

- Mae daioni sylfaenol yn berthnasol i bawb yn ddiwahân
- Defnyddiwch ymdrech er mwyn gwella
- Cynlluniwch eich gweithredoedd er mwyn cyflawni'r daioni mwyaf posibl
- Peidiwch byth ag achosi niwed i ddaioni sylfaenol
- Gweithredu'n unol â'ch cydwybod a'ch awdurdod eich hun

O Gyfranoliaeth, doedd dim sôn penodol am yr elfennau canlynol:

- Gweithredoedd da a chywir
- Cyfranoldeb yn seiliedig ar agape

## Cwestiynau enghreifftiol

**Cwestiynau enghreifftiol AA1 – tudalen 90**

1. Cymharwch Ddeddf Naturiol Finnis â'r ymagwedd gyfranoliaethol at foeseg.

| **Deddf Naturiol Finnis** | **Cyfranoliaeth** |
|---|---|
| Dull deontolegol (yn seiliedig ar ddyletswydd) | Cyfuniad deontolegol/teleolegol (dyletswydd a phwrpas) |
| Mae deddfau'n absoliwt ac yn wrthrychol | Mae deddfau'n wrthrychol, ond mae'n bosibl eu torri am reswm cyfrannol |
| Mae dewis o weithredoedd moesol dda yn bosibl | Mae dewis o weithredoedd moesol gywir yn bosibl |
| Mae'r saith daioni sylfaenol yn hunanamlwg | Does dim rheolau ynghylch sut i dafoli gwerth yn erbyn anwerth, rydyn ni'n gwybod yn reddfol. |
| • Bywyd<br>• Gwybodaeth<br>• Chwarae<br>• Profiad esthetig<br>• Cyfeillgarwch<br>• Rhesymoldeb ymarferol<br>• Crefydd | Gallwn ni wahaniaethu rhwng gweithred dda (un sy'n dilyn deddf foesol) a deddf gywir (un sydd, os yw hi'n torri deddf foesol, yn gwneud hynny am reswm cyfrannol) |
| Mae'n rhaid cael rheswm ymarferol er mwyn deall beth i'w wneud | Mae'n bosibl gwahaniaethu rhwng gweithred foesol ddrwg (drygioni bwriadol) a drygioni ontig (diffyg perffeithrwydd yn y drefn greëdig) |
| Mae naw gofyniad rheswm ymarferol yn helpu i sefydlu deddfau | Mae rheswm a sythwelediad yn ein helpu i ddeall pryd dylen ni dorri deddfau |
| • Gweld bywyd fel rhywbeth cyflawn<br>• Dim ffafrio gwerthoedd (daioni) yn fympwyol<br>• Mae daioni sylfaenol yn berthnasol i bawb yn ddiwahân<br>• Peidiwch â datblygu obsesiwn â project penodol<br>• Defnyddiwch ymdrech er mwyn gwella<br>• Cynlluniwch eich gweithredoedd er mwyn cyflawni'r daioni mwyaf posibl<br>• Peidiwch byth ag achosi niwed i ddaioni sylfaenol | Dylai tafoli gweithred foesol gywir gynnwys ystyried y gwerth/anwerth a achosir drwy:<br>• Y weithred (a ddylai ddilyn y gyfraith er mwyn bod yn dda)<br>• Y bwriad/cymhelliad (a ddylai fod yn gariadus)<br>• Y canlyniadau (a ddylai roi gwerth) |

| | |
|---|---|
| • Meithrin daioni er lles pawb yn y gymuned<br>• Gweithredu'n unol â'ch cydwybod a'ch awdurdod eich hun | |
| Mae'n rhaid anelu at ddaioni er lles pawb | Mae'n rhaid anelu am y gwerth mwyaf a'r anwerth lleiaf |
| Mae gan bawb hawl cyfartal i'r daioni sylfaenol | Dylai gweithredoedd gael eu gwneud o fwriad cariad/agape |
| Dylai rheolau gael eu trefnu gan awdurdod heb orfodaeth | Mewn sefyllfa eithriadol mae'n rhaid i'r asiant moesol wneud ei benderfyniad ei hun |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2. Archwiliwch le naw gofyniad rheswm ymarferol yn Neddf Naturiol Finnis.

- Mae Finnis yn holi beth sy'n gwneud bywyd gwerth chweil.
- Mae gweithredoedd yn werth chweil dim ond os ydyn nhw'n hybu un o'r saith daioni sylfaenol.
- Mae rheswm ymarferol yn un o'r saith daioni sylfaenol.
- Ystyr hyn yw gweithio allan sut i roi daioni sylfaenol ar waith.
- Mae'n wahanol i reswm damcaniaethol, sef deall beth sy'n wir.
- Rheswm ymarferol yw deall beth i'w wneud.
- Mae naw gofyniad rheswm ymarferol.
    1. Gweld bywyd fel rhywbeth cyflawn – cynllun cydlynol o fywyd, cynllunio eich ymrwymiadau'n gywir a pheidio â byw i'r eiliad yn unig.
    2. Dim ffafrio gwerthoedd (daioni) yn fympwyol – mae blaenoriaethu daioni yn angenrheidiol ond mae'n rhaid iddo fod yn rhesymegol: peidio byth â gwrthod daioni yn llwyr.
    3. Mae daioni sylfaenol yn berthnasol i bawb yn ddiwahân – dim ffafrio pobl yn fympwyol. Bod yn ddiduedd. (Y Rheol Euraidd)
    4. Peidiwch â datblygu obsesiwn â phroject penodol – osgoi ffanatigiaeth fel nad yw bywyd yn ddiystyr pan mae project yn dod i ben.
    5. Defnyddiwch ymdrech ermwyn gwella – peidio â rhoi'r gorau i ymrwymiadau'n ddifeddwl, bod yn ffyddlon i broject.
    6. Cynlluniwch eich gweithredoedd er mwyn cyflawni'r daioni mwyaf posibl – dylai gweithredoedd fod yn effeithiol/addas i'r pwrpas/effeithiol wrth gyflawni'r daioni sylfaenol.
    7. Peidiwch byth ag achosi niwed i ddaioni sylfaenol – peidio â mynd ati'n fwriadol i niweidio daioni. Dylai pob daioni gael ei barchu ym mhob gweithred.
    8. Meithrin daioni er lles pawb yn y gymuned – gofynion daioni er lles pawb.
    9. Gweithredu'n unol â'ch cydwybod a'ch awdurdod eich hun – er bod cydwybod yn gallu gwneud camgymeriadau, peidio byth â gwneud rhywbeth rydych chi'n credu ei fod yn anghywir.
- Gallwch ddewis yn rhydd o amrywiaeth o weithgareddau sy'n cefnogi'r daioni sylfaenol.
- Mae mynd yn groes i ddaioni sylfaenol yn bechod.
- Un o'r daioni sylfaenol yw ei fod i bawb – daioni er lles pawb.
- Mae'n gwneud yr unigolyn yn hapusach os yw'r gymdeithas yn hapusach.

- Dylai awdurdod helpu i drefnu'r daioni sylfaenol i bawb gan ddefnyddio rheswm ymarferol.
- Dylech roi enghreifftiau priodol i ddangos y pwyntiau uchod.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3. Esboniwch nodweddion deontolegol a theleolegol Cyfranoliaeth.

- Deontolegol – (Groeg: deon), sef yn seiliedig ar ddyletswydd
- Teleolegol – Groeg: telos), sef pwrpas/nod
- Mae Hoose yn credu bod deddfau moesol naturiol yn absoliwt ac yn wrthrychol. Mae hyn yn ddeontolegol. Ein dyletswydd foesol yw ufuddhau iddyn nhw.
- Mae ufuddhau i Ddeddfau Moesol Naturiol yn foesol dda.
- Mae Hoose yn dadlau bod gwahaniaeth weithiau rhwng beth sy'n dda a beth sy'n gywir.
- Mae'n rhaid i'r asiant moesol bwyso a mesur y gwerth yn erbyn yr anwerth y mae gweithred yn ei achosi.
- Os yw torri rheol yn achosi mwy o werth nag anwerth, mae hyn yn gyfrannol dderbyniol.
- Mae gwerth ac anwerth yn gallu dod o ganlyniadau a bwriadau, yn ogystal ag o'r weithred ei hun.
- Mae hyn yn gwneud Cyfranoliaeth yn deleolegol.
- Mae Cyfranoliaeth yn ystyried yr anwerth o ddrygioni ontig.
- Os yw gweithred sy'n foesol dda yn achosi gormod o anwerth mewn sefyllfa oherwydd drygioni ontig, yna mae'n foesol anghywir.
- Mae hyn yn deleolegol oherwydd ei fod yn ystyried amgylchiadau.
- Mae bwriad moesol dda bob amser yn un sy'n dod o gariad at Dduw a'i ddeddf. Mae hyn yn ddeontolegol oherwydd bod agape yn ddyletswydd y mae'n rhaid i ni ei gwireddu.
- Dydy bwriad da neu weithred dda ddim yn ddigon i wneud gweithred yn gywir. Mae hyn yn deleolegol oherwydd ei fod yn ystyried ffactorau eraill, nid rheolau yn unig.
- Dylech roi enghreifftiau priodol i ddangos y pwyntiau uchod.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4. Cymhwyswch Ddeddf Naturiol Finnis at fater moesegol mewnfudo.

- Gwnaeth Finnis osodiad dadleuol mewn erthygl yn 2009, y dylen ni fod yn ofalus gyda chyfraith mewnfudo. Ysgrifennodd fod diwylliant a phoblogaeth y DU yn edwino, ac yn eu lle bod gwladychu go chwith, gan bobl, diwylliannau, crefyddau a dyheadau eraill, beth bynnag oedd eu gwerth.
- Mae'r Ddeddf Naturiol yn ddeontolegol (yn seiliedig ar ddyletswydd)/wrthrychol (mae rheolau pendant eglur nad ydyn nhw'n fater o farn)/absoliwtaidd (mae'n bosibl eu cymhwyso'n gyffredinol).
- Mae unrhyw ddeddfau moesol sy'n cael eu gwneud am fewnfudo yn absoliwt ac mae'n rhaid ufuddhau iddyn nhw.
- Mae rheolau moesol yn cael eu gwneud gan ddefnyddio rheswm ymarferol i sicrhau ein bod ni'n gallu dilyn y daioni sylfaenol.
- Mae daioni sylfaenol yn cynnwys bywyd, chwarae, cyfeillgarwch, gwybodaeth a chrefydd ymysg eraill.

- Gallai caniatáu mewnfudo olygu bod rhai pobl yn fwy tebygol o ddatblygu'r mathau hyn o ddaioni sylfaenol.
- Bydd rhywun sy'n cael ei erlid am ei ffydd yn fwy tebygol o ddatblygu daioni sylfaenol crefydd os yw'n mewnfudo i gymdeithas amlddiwylliannol.
- Os yw gwlad yn rhyfela, gallai mewnfudo achub bywydau sy'n cynnal daioni sylfaenol.
- Mae'r daioni sylfaenol yn absoliwt ac i bawb. Daioni er lles pawb yw'r enw ar hyn.
- Byddai gwrthod mynediad at y daioni sylfaenol i rywun yn groes i'r Ddeddf Naturiol.
- Mae naw gofyniad rheswm ymarferol yn cynnwys peidio â ffafrio pobl yn fympwyol, felly dylen ni gymhwyso'r daioni i unrhyw un.
- Un arall o ofynion rheswm ymarferol yw ein bod yn gweld bywyd fel rhywbeth cyflawn, neu fod gennym gynllun cydlynol o fywyd. Felly, allwn ni ddim caniatáu rhyddid i symud, neu fewnfudo wedi'i reoli oni bai bod systemau llywodraeth yn cynllunio am hynny ac yn ei gynnwys.
- Mae'n rhaid bod parch i bob gwerth sylfaenol, felly dydy troi cefn ar fewnfudo yn llwyr ddim yn dderbyniol pan allai bywydau pobl fod mewn perygl.
- Mae Finnis yn poeni am ddileu diwylliant y DU os yw mewnfudo yn parhau, ond gallen ni nodi hefyd bod cyfeillgarwch a phrofiad esthetig yn ddaioni sylfaenol. Gallen ni ddehongli hyn i gynnwys gwerthfawrogi diwylliannau a thraddodiadau eraill.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

**Cwestiynau enghreifftiol AA2 – tudalen 90**

1. Gwerthuswch pa mor dderbyniol yw Deddf Naturiol Finnis i'r gymdeithas gyfoes.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Derbyniol = goddefadwy neu addas
- Y gymdeithas gyfoes = i'r unfed ganrif ar hugain/yn y byd heddiw

**Paragraff un:**

Mae'r ffaith bod y Ddeddf Naturiol yn caniatáu i bobl gael rhyddid i ddewis o amrywiaeth eang o ddaioni priodol yn ei wneud yn dderbyniol i bobl yn yr unfed ganrif ar hugain oherwydd bod pobl yn gwerthfawrogi'r rhyddid i ddewis.

- Fodd bynnag, mae cael dynion yn gosod dewis priodol o ddaioni yn y gyfraith ynghylch materion fel erthyliad yn cyfyngu ar ryddid menywod ac mae'n cael effaith andwyol ar eu hiechyd a'u llesiant. Dydy hynny ddim yn dderbyniol yn y byd heddiw.
- Mae'n ymddangos bod Deddf Naturiol Finnis yn dangos bod mwy nag un ffordd bosibl o wneud gweithred dda. Ond mae hynny'n dal i gyfyngu'n fawr ar y rhai sy'n dechrau o dan anfantais o'i gymharu â'r rhai sy'n gwneud cyfreithiau. Felly dydy Deddf Naturiol Finnis ddim yn dderbyniol yn y gymdeithas gyfoes sy'n gwerthfawrogi rhyddid a thriniaeth deg.

**Paragraff dau:**

- Does dim rheswm i'r gymdeithas gyfoes dderbyn daioni sylfaenol Finnis fel rhywbeth absoliwt. Mae'n honni eu bod nhw'n hunanamlwg ond does dim sail i'r honiad hwn.

- Eto i gyd, mae llawer o'r mathau hyn o ddaioni sylfaenol yn cael eu rhannu fel gwerthoedd pwysig i'r gymdeithas gyfoes. Mae chwarae, profiad esthetig a chyfeillgarwch i gyd yn hanfodol yn y byd heddiw ac felly mae hyn yn gwneud y Ddeddf Naturiol yn hollol addas.
- Mae Finnis yn rhoi'r rhyddid i ni flaenoriaethu rhai mathau o ddaioni dros rai eraill mewn sefyllfaoedd penodol, ar yr amod bod hyn yn rhesymegol ac nad yw'n rhwystro mathau eraill o ddaioni sylfaenol rhag cael eu cyflawni. Mae hyn yn ymddangos yn rhesymegol ac mae'n fwy goddefadwy yn y gymdeithas gyfoes na rhai dulliau deontolegol eraill.

**Paragraff tri:**

- O fewn Deddf Naturiol Finnis mae awdurdod cydgysylltiol yn hybu cydweithredu cadarnhaol, yn hytrach na gwrthwynebiad. Mae hyn yn ddeniadol iawn i gymdeithas sy'n gwerthfawrogi ymreolaeth.
- Fodd bynnag, pa werth sydd i awdurdod heb orfodaeth er mwyn sicrhau daioni er lles pawb? Does dim byd i atal pobl rhag gwneud fel y mynnon nhw, ac felly does dim byd i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, neu i sicrhau triniaeth deg. Mae hon yn system o foesoldeb annerbyniol.
- Wedi dweud hyn, mae'r Ddeddf Naturiol yn dal i roi peth arweiniad sydd ei angen i gydweithredu mewn cymuned fawr. Dydy hi ddim yn gadael pobl mewn cyflwr antinomaidd, felly mae'n dderbyniol i ryw raddau.

**Casgliad:**

- Mae Deddf Naturiol Finnis yn cynnal yr un pethau â'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Ei nod yw diogelu gwerthoedd sylfaenol sydd eu hangen ar fodau dynol er mwyn goroesi a llesiant. Y neges y mae'n ei hanfon yw bod rhai mathau o ymddygiad sy'n gywir a rhai sy'n anghywir, a bod hyn yn dderbyniol mewn cymdeithas gyfoes fawr y mae angen ei threfnu er lles pawb.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

2. 'Mae Cyfranoliaeth yn aneffeithiol wrth ymdrin â'r gosb eithaf.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Aneffeithiol = ddim yn cynhyrchu unrhyw effaith arwyddocaol nac effaith rydyn ni'n dymuno ei chreu. Yr effaith rydyn ni'n chwilio amdani gan Gyfranoliaeth yw nodi gweithdrefn foesegol ynghylch mater y gosb eithaf. Os yw Cyfranoliaeth yn aneffeithiol yna dydy hi ddim yn helpu asiant moesol i benderfynu beth sy'n gywir i'w wneud.

**Paragraff un:**

- Mae'r ffordd y mae Cyfranoliaeth yn gwahaniaethu rhwng da a chywir yn ei gwneud hi'n bosibl i ni wneud penderfyniadau moesol effeithiol mewn sefyllfaoedd eithafol. Mae'r gosb eithaf yn gosb ar gyfer sefyllfaoedd eithafol oherwydd mae'n gyfnod pan rydyn ni'n

awgrymu ein bod ni'n rhoi'r gorau dros dro i'r ddeddf peidio â lladd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n effeithiol oherwydd ei bod hi'n rhoi opsiynau i ni.

- Fodd bynnag, mae Hoose yn ei gwneud hi'n amhosibl defnyddio'r gosb eithaf byth, ar y sail y byddai'n gosb aneffeithiol. (Mae'n amhosibl i'r gosb eithaf adsefydlu neu atal troseddwr, a dyw hi ddim yn gallu talu iawn am y trosedd chwaith.) Mae hyn yn ei gwneud yn aneffeithiol gan fod yr opsiynau'n ymddangos yn ddychmygol.
- Fodd bynnag, yn yr achos eithafol iawn bod troseddwr yn ddiedifar ac yn berygl gwirioneddol i bawb o'i gwmpas, gan gynnwys staff, mae'n bosibl bod y gwerth mewn caniatáu'r gosb eithaf er mwyn amddiffyn eraill yn drech na'r anwerth o gymryd bywyd. Felly, mae cyfranoliaeth yn effeithiol wrth ddiogelu daioni, ond yn gallu ymateb i'r hyn sy'n wirioneddol eithafol.

**Paragraff dau:**

- Mae Cyfranoliaeth yn anymarferol ac felly yn aneffeithiol am ei bod yn edrych fel petai'n gwrthod cosb yn llwyr, ar y sail nad yw hi o fudd i'r derbynnydd. Mae'n hanfodol bod cymdeithas yn cael ei hamddiffyn er llesiant y mwyafrif.
- Eto, rhan o fod yn ddamcaniaeth ddeontolegol yw cynnal hawliau pob person pwy bynnag ydyw neu beth bynnag mae wedi'i wneud. Mae'n rhaid i ni dderbyn hyn os ydyn ni eisiau i'n hawliau ein hunain gael eu hamddiffyn. Felly mae Cyfranoliaeth yn effeithiol oherwydd ei bod hi'n ymagweddu'n gyson at y gosb eithaf.
- Mae'n ymddangos bod Hoose braidd yn ddelfrydgar yn ei ddull gan fod amddiffyn hawliau pobl yn amlwg yn beth da, ond dydy cymdeithas ddim yn gallu rhedeg heb orfodi cyfreithiau a rheolau. Os ydyn ni'n ymatal rhag cosb nad yw o fudd i'r troseddwr, gallai fod gennym gymdeithas o anhrefn yn y pen draw.

**Paragraff tri:**

- Mae Hoose yn dibynnu ar sythwelediad yn fwy na system gaeth. Gallai hyn alluogi penderfyniadau cyflym, ac felly effeithiol, i gael eu gwneud.
- Fodd bynnag, dydy rhoi'r gorau i'r gyfraith leiaf hyd yn oed ddim yn ddull deontolegol. Mae'n rhoi bodau dynol yn rôl Duw, yn gwneud y rheolau ac yn ymddiried yn eu chwiwiau diffygiol a syrthiedig yn hytrach na'r ddeddf ddatguddiedig, ddwyfol.
- Does bosibl ei bod hi'n aneffeithiol fel system Gristnogol o foesoldeb os yw penderfyniadau mawr fel a yw person yn byw neu'n marw, yn seiliedig ar reddf yn hytrach nag ar set o godau moesol. Mae Hoose yn adnabod mai bodau syrthiedig ydyn ni, felly mae ei ddibyniaeth ar sythwelediad i wneud penderfyniadau yn ymddangos yn aneffeithiol.

**Casgliad:**

- Mae gan Gyfranoliaeth rai cryfderau yn yr ystyr ei bod yn cydnabod na fydd un egwyddor neu system gaeth yn gweithio ym mhob sefyllfa a'i bod yn adnabod cymhlethdod sefyllfaoedd moesol. Fodd bynnag, mae'n dibynnu ar unigolion yn defnyddio ein synnwyr cyffredin i bwyso a mesur y gwerth yn erbyn yr anwerth, a does gan bawb ddim ohono. Pan mae pobl wedi cyflawni troseddau marwol, mae emosiynau'n gryf gyda galar a dicter, ac mae'n amhosibl ymddiried mewn pobl i wneud y peth da. Felly, mae Cyfranoliaeth yn aneffeithiol wrth ymdrin â'r gosb eithaf.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

# Thema 3 U2 Penderfyniaeth

## 3A U2 Cysyniadau crefyddol rhagordeiniad

**Profi eich hun – tudalen 92**

1. Beth yw trachwant?

Trachwant – dyhead dwys wedi'i gyfeirio oddi wrth Dduw a thuag at y byd. Mae gweithredoedd rhywiol yn nodwedd arno.

2. Beth yw rhan Crist mewn syniadau Awstinaidd?

Allwn ni ddim gwneud gweithredoedd da heb ras Duw a maddeuant Crist.
Daeth Crist i'r byd a marw er mwyn maddau i'r etholedig, nid i'r gwrthodedig.

3. Disgrifiwch ein natur ddynol.

Mae ein natur ddynol hanfodol yn rhydd yn y bôn (liberum arbitrium).
Mae ein hail natur yn bechadurus ac mae'n drech na'n natur ddynol hanfodol.

**Profi eich hun – tudalen 93**

1. Pa ysgolhaig a fu'n dadlau yn erbyn Calfiniaeth?

Arminius.

2. Sut dewisir yr etholedig i gael llawenydd tragwyddol?

Mae Duw yn defnyddio ei sofraniaeth drwy ddewis pwy sy'n cael ei achub a phwy sy'n cael ei gondemnio.

3. Beth yw rhagordeiniad dwbl?

Rhagordeiniad dwbl – mae Duw yn rhagordeinio'r etholedig a'r gwrthodedig.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 93**

1. Gwnewch restr o gymaint o nodweddion ag sy'n bosibl ar y Duw theïstig.

Hollwybodus
Hollraslon
Hollbresennol
Hollalluog
Trosgynnol
Mewnfodol
Tragwyddol
Bythol
Un
Maddeugar
Teg/barnwr

2. Pa rai o'r nodweddion hyn y mae diwinyddiaeth Awstin a Calvin yn eu cynnal?

Hollwybodus – mae Duw yn gwybod lle byddwn ni'n mynd yn y pen draw a beth byddwn ni'n ei 'ddewis'.

Hollraslon – mae Duw yn gadael i rai pobl gael iachawdwriaeth, er nad ydyn nhw'n haeddu iachawdwriaeth.

Hollalluog – Duw yw'r grym goruchaf sy'n gallu penderfynu ar weithredoedd a chyrchfan y ddynoliaeth.

Trosgynnol – mae Duw y tu allan i amser ac felly mae'n gallu gweld ein dyfodol.

Mewnfodol – mae Duw yn weithredol ym materion y ddynoliaeth ar hyn o bryd.

Un – does dim grym arall heblaw am Dduw sy'n gallu rheoli tynged y ddynoliaeth.

Maddeugar – mae Duw yn maddau i'r bobl etholedig y mae'n eu dewis.

Teg/barnwr – mae Duw yn condemnio'r gwrthodedig.

## 3B U2 Cysyniadau penderfyniaeth

**Profi eich hun – tudalen 96**

1. Beth yw penderfyniaeth galed?

Yn ôl penderfyniaeth galed, rhywbeth allanol i ni sy'n achosi pob ymddygiad dynol, felly does dim penderfyniadau rhydd. Ymagwedd fateryddol yw hon sy'n gweithredu yn ôl egwyddor achosiaeth gyffredinol – bod achos blaenorol i bob effaith. Mae'r ddamcaniaeth anghydnawsiaethol hon yn honni mai rhith yw ewyllys rydd.

2. Pam mae rhai pobl yn ystyried mai penderfynydd caled oedd John Locke?

Mae Locke yn dweud bod ein hewyllys yn dod cyn ein gweithred, a bod ein hewyllys yn dod o ddyhead am bleser.
Mae'r dyn sy'n cysgu yn dyheu am bleser felly mae'n penderfynu aros. Ar ôl iddo benderfynu aros, os nad oes neb yn ei orfodi i adael, bydd e'n aros o reidrwydd. Mae ei ewyllys yn penderfynu o reidrwydd ar ei weithred. Er mwyn i ddyhead y dyn fod yn rhydd, mae'n rhaid iddo fod o dan ei reolaeth. Os yw'n arwain yn ôl at achos cyntaf, y tu allan i'r dyn, yna dydy e ddim yn rhydd.

3. Pam byddai penderfyniaeth fiolegol yn awgrymu nad ydyn ni'n fodau rhydd?

Mae mapio'r genom dynol wedi arwain at y syniad o sefydlogrwydd genetig, hynny yw, bod ein personoliaeth a'n nodweddion wedi'u pennu gan ein genynnau sy'n cael eu hetifeddu gan ein rhieni ac sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni.

**Profi eich hun – tudalen 97**

1. Beth yw cydnawsiaeth?

Cydnawsiaeth – y cysyniad ei bod hi'n bosibl derbyn ewyllys rydd a phenderfyniaeth heb baradocs rhesymegol.

2. Pa enghraifft y mae Hobbes yn ei rhoi i ddangos y gwahaniaeth rhwng achosion mewnol ac allanol?

Mae dyn yn taflu ei eiddo i'r môr oherwydd bod y cwch yn siglo – achos allanol (heb fod yn rhydd).

Mae dyn yn taflu ei eiddo i'r môr oherwydd ei fod yn ofni y bydd y cwch yn suddo fel arall – achos mewnol ofn (rhydd).

3. Pam mae Ayer yn dweud bod gwahaniaeth rhwng achos a chyfyngiad?

Ddylen ni ddim cyferbynnu ewyllys rydd â phenderfyniaeth. Yn hytrach dylen ni ei chyferbynnu â gorfodaeth neu gyfyngiad. Yn amlwg, mae pob gweithred wedi'i hachosi, nid heb ei hachosi, ond bydd gweithred sy'n cael ei gorfodi neu ei chyfyngu yn un sy'n digwydd beth bynnag yw penderfyniad person. Ewyllys yr asiant sy'n achosi gweithred ewyllys rydd.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 97**

Ystyriwch y senario canlynol:

*Mae mam plentyn blwydd oed yn ffonio'r heddlu ac yn cyfaddef iddi niweidio ei merch. Pan mae'r heddlu'n cyrraedd, mae'r plentyn yn farw ac mae tystiolaeth iddi gael ei hysgwyd.*

Beth byddai pob un o'r pum ymagwedd benderfyniaethol yn ei ddweud ynghylch cyfrifoldeb y fam dros ei gweithredoedd?

1. Locke – doedd y fam ddim yn rhydd oherwydd bod ei phenderfyniad i ysgwyd ei phlentyn yn ganlyniad i achosion blaenorol a oedd yn allanol iddi hi. Rhith rhyddid i ddewis yn unig sydd ganddi.
2. Penderfyniaeth wyddonol – rhoddodd ei genynnau ragduedd iddi adweithio yn dreisgar ac yn ffyrnig pan oedd hi'n teimlo'n rhwystredig ac allan o reolaeth.
3. Pavlov – y gymdeithas neu ei theulu a hyfforddodd ymddygiad y fam oherwydd i'w phrofiadau blaenorol ei dysgu i adweithio'n dreisgar pan oedd hi'n rhwystredig.
4. Hobbes – Os oedd achos ymddygiad y fam yn fewnol yn hytrach nag yn allanol, yna gallwn ni ddweud ei bod hi'n rhydd.
5. Ayer – Dim ond bod dewis ganddi i beidio ag ysgwyd ei phlentyn, ac os dyna roedd hi eisiau ei wneud, gallwn ni ddweud ei bod hi'n rhydd, er y gallen ni ddweud mai ei natur neu ei magwraeth a achosodd iddi wneud hynny.

## 3C U2 Goblygiadau rhagordeiniad/penderfyniaeth

**Profi eich hun – tudalen 99**

1. Rhowch dri rheswm pam gallai penderfyniaethwr caled wrthod y syniad o gyfrifoldeb moesol.
    - Mae'r bai am unrhyw weithred, dda neu ddrwg, yn dod cyn yr asiant sy'n ei gwneud hi. Does dim synnwyr mewn dal asiant yn foesol gyfrifol. (Darrow)
    - Os yw asiant yn dreisgar oherwydd bod ganddo ennyn sy'n ei ragdueddu i'r ymddygiad hwn, fydd dim effaith ar ei eneteg wrth feio'r asiant.
    - Rydyn ni'n cael ein cyflyru i gredu bod rhaid pethau'n dda a rhai pethau'n ddrwg. Mae'r ysgogiad cyflyru yn dod o'r teulu ac o'r gymdeithas. (Freud)

2. Rhowch dri rheswm pam gallai penderfyniaethwr meddal wrthod cyfrifoldeb moesol.

Achosion blaenorol sy'n achosi ewyllys person, felly gallen ni alw'r ewyllys yn rhydd, ond mae'n fwy o ymwybyddiaeth o reidrwydd. (Ayer)

3. Rhowch dri rheswm pam gallai penderfyniaethwr dderbyn bod cyfrifoldeb moesol yn rhesymol.
   - Mae beio’n rhan o’r ysgogiad cyflyru y mae ei angen i greu person sy’n ddefnyddiol i’r gymdeithas. (Skinner)
   - Gallai adnabod yr achosion sy’n gweithredu arnon ni ein helpu i’w hailgyfeirio nhw. Mae cysyniadau o’r hyn sy’n gywir neu’n anghywir yn ein cymell i wneud hynny.
   - Dydy safonau moesegol ddim yn gynhenid deilwng, ond maen nhw’n helpu i gadw trefn ar y gymdeithas. Mae hyn yn werthfawr o ran ei ymarferoldeb. (Freud)

**Profi eich hun – tudalen 101**

1. Pwy ddylai gael y bai am ddrygioni os ydyn ni wedi ein rhagordeinio, a pham?
   - Duw – mae wedi ein rhagordeinio ni i’r nefoedd neu i uffern ac roedd yn gwybod ymlaen llaw y byddai’r cwymp yn digwydd.
   - Ni – cyn y cwymp roedd ein natur ddynol yn rhydd ac felly gwnaeth Adda ddewis rhydd i fwyta o’r goeden.
2. Esboniwch, gydag enghraifft, pam gallai Awstin a Calvin ystyried bod gweddïo yn ddefnyddiol.

Mae gweddïo’n dystiolaeth bod rhywun yn aelod o’r etholedig rai y mae Duw wedi’u galluogi. Er enghraifft, os ydw i’n gweddïo ar Dduw i faddau fy mhechodau, rwy’n gwneud hynny dim ond oherwydd bod gras Duw yn caniatáu imi wneud. Felly, mae’n arwydd bod Duw wedi fy newis i. Dydy hyn ddim yn effeithio ar ei benderfyniad o gwbl, mae’n dystiolaeth o’i benderfyniad ymlaen llaw.

3. Rhowch dri rheswm pam na allai Duw gael ei ystyried yn hollraslon os ydyn ni wedi ein rhagordeinio.
   - Os yw Duw yn rhagordeinio rhai i uffern ac yn eu creu nhw gan wybod y byddan nhw’n treulio tragwyddoldeb wedi’u condemnio, yna mae’n faleisus.
   - Os rhai yn unig y mae Duw yn eu hethol i’r nefoedd, yna dydy e ddim yn hollraslon. Yn yr achos hwn, mae’n raslon at rai pobl yn unig.
   - Does gan Dduw sy’n creu uffern wrth greu pob peth ddim cariad yn ei feddwl fel ymateb i’r ddynoliaeth.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 101**

Gallwch chi wneud llawer o gysylltiadau synoptig â rhannau eraill o’r papurau Moeseg ac Athroniaeth.
Gwnewch restr o’r holl feysydd eraill lle mae bod wedi ein rhagordeinio neu ein pennu wedi cael effaith. Er enghraifft:

- problem drygioni – amddiffyniad ewyllys rydd
- Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol – ystyr iaith foesegol os nad ydyn ni’n rhydd.
- Damcaniaethau moesegol a moeseg gymhwysol – Ein gallu i ddilyn unrhyw un o’r damcaniaethau hyn yn rhydd os ydyn ni wedi ein rhagordeinio neu ein pennu.
- Profiad crefyddol – tröedigaeth, i ba raddau mae tröedigaeth yn bosibl neu hyd yn oed yn ddilys os yw ein penderfyniadau wedi’u pennu ymlaen llaw gan Dduw neu wedi’u achosi gan achos materol allanol i ni.

- Gwyrthiau – i ba raddau rydyn ni byth yn gallu dadansoddi dadleuon a'u derbyn neu eu gwrthod nhw yn seiliedig ar reswm. Efallai fod achos materol i'r digwyddiadau hyn.
- Dadleuon yn erbyn crefydd – Freud – I ba raddau mae pob person yn cael ei reoli gan ei gymhleth Oedipws a'r uwch-ego.

## Cwestiynau enghreifftiol

**Cwestiynau enghreifftiol AA1 – tudalen 104**

1. Cymharwch y dysgeidiaethau ar ragordeiniad gan Calvin ac Awstin.

| **Awstin** | **Calvin** |
|---|---|
| Awstin Sant o Hippo (354–430) | John Calvin (1509–1564) |
| Mae ein natur ddynol hanfodol yn rhydd yn y bôn (liberum arbitrium) | Mae gan Dduw sofraniaeth lwyr dros bob peth fel nad oes lle i ryddid |
| Adda wnaeth *ddewis* bwyta o'r goeden, yn groes i orchymyn Duw | Digwyddodd cwymp Adda oherwydd gorchymyn absoliwt a chadarnhaol gan Dduw |
| Cyflawnwyd y pechod gwreiddiol yn Eden oherwydd trachwant | Ystyr llygredigaeth lwyr yw bod bodau dynol wedi'u halogi â phechod ym mhob ffordd oherwydd y cwymp |
| Rydyn ni mor anobeithiol o lygredig/massa peccati (lwmp/toreth o bechod) fel mai dim ond pechu rydyn ni'n gallu ei wneud | Dydy bodau dynol ddim yn gallu gwneud gweithred dda heblaw am ras Duw |
| Rydyn ni wedi colli ein rhyddid (libertas) oherwydd pechod.<br>Mae ein hail natur yn bechadurus ac mae'n drech na'n natur ddynol hanfodol | Allwn ni ddim dewis Duw ar ein pennau ein hunain |
| Allwn ni ddim gwneud gweithredoedd da heb ras Duw a maddeuant Crist | Tynghediaeth Galfinaidd yw enw rhai ar hyn – Allwn ni ddim dewis daioni heb ras Duw |
| Mae Duw yn ethol rhai i gael eu hachub. Y gweddill yw'r enw arnyn nhw | Mae Duw yn defnyddio ei sofraniaeth drwy ddewis pwy sy'n cael ei achub a phwy sy'n cael ei gondemnio (rhagordeiniad dwbl) |
| Rydyn ni'n cael ein hethol drwy ras Duw, nid oherwydd ein teilyngdod. Dirgelwch dwyfol yw pwy neu pam | Drwy ras Duw yn unig y gallwn ni gael ein hachub, nid drwy ein gweithredoedd |
| Mae ein hewyllys rydd yn cael ei gwastraffu drwy ysfa i bechu yn unig | Mae gras Duw yn galluogi rhai i gael ffydd (Cyfiawnhad trwy ffydd) |
| Daeth Crist i'r byd a marw er mwyn maddau i'r etholedig, nid i'r gwrthodedig | Mae marwolaeth Crist yn gwneud iawn am bechod rhai pobl, ond nid pawb |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2. Archwiliwch gysyniad penderfyniaeth galed

- Yn ôl penderfyniaeth galed, rhywbeth allanol i ni sy'n achosi pob ymddygiad dynol, felly does dim penderfyniadau rhydd.
    - Ymagwedd fateryddol (anghrefyddol, mater yw'r cyfan sydd)
    - Achosiaeth gyffredinol (mae popeth wedi'i achosi)
    - Mae achos blaenorol i bob effaith

    - Damcaniaeth anghydnawsiaethol (mae'n dweud nad yw ewyllys rydd a phenderfyniaeth yn gydnaws)
    - Rhith yw ewyllys rydd.
- Penderfyniaeth athronyddol: Defnyddir syniadau John Locke i gefnogi damcaniaeth achosiaeth gyffredinol. Mae'n honni ein bod ni'n meddwl ein bod ni'n rhydd oherwydd na wyddon ni beth yw achos ein gweithredoedd.
- Mae Locke yn dadansoddi beth sy'n ofynnol er mwyn i ni honni bod gan rywun bŵer rhyddid. Mae'n dod i'r casgliad bod rhaid bod gan berson ddau beth:
    - Pŵer meddwl
    - Y gallu i weithredu yn ôl ein meddyliau
- E.e. Mae dyn sy'n cysgu yn cael ei gario i ystafell lle mae person y mae'n dyheu am siarad ag ef. Mae'r ystafell wedi'i chloi a phan mae'r dyn yn deffro, mae'n penderfynu aros a siarad â'r person y mae wedi bod yn dymuno ei weld.
- Mae'r dyn yn gallu meddwl a gweithredu'n unol â'i feddyliau, felly mae ei weithred yn ymddangos yn rhydd. Ond rhith yw ei ryddid.
    - Ar ôl deffro, mae'r dyn sy'n cysgu yn penderfynu aros.
    - Er mwyn i'r dyhead fod yn rhydd, mae'n rhaid iddo fod o dan ei reolaeth.
    - Er mwyn bod o dan ei reolaeth, mae'n rhaid mai ei ewyllys sy'n llunio'r dyhead.
    - Wedyn mae'n rhaid mai ei ewyllys i aros yn rhydd sy'n llunio'r ewyllys honno.
    - Mae hyn yn arwain at atchwel rhesymegol.
- Os yw'n arwain yn ôl at achos cyntaf, y tu allan i'r dyn, wedyn dydy e ddim yn rhydd.
- Ar ôl iddo benderfynu aros, os nad oes neb yn ei orfodi i adael, bydd e'n aros o reidrwydd. Mae ei ewyllys yn penderfynu o reidrwydd ar ei weithred.
- Mae gwyddoniaeth a seicoleg yn cefnogi'r syniad hwn.
- Mae penderfyniaeth wyddonol yn trin pob nodwedd ar y byd fel un fecanistig, felly, am bob gweithred gorfforol mae achos corfforol. Dyma egwyddor achosiaeth gyffredinol.
- Mae penderfyniaeth fiolegol yn deillio o waith Darwin ac mae'n honni bod gan bob bod dynol fformiwla enetig. Oherwydd darganfod DNA a mapio'r genom dynol, datblygodd cysyniad sefydlogrwydd genetig.
- Trosglwyddir nodweddion corfforol a meddyliol o'r rhiant i'r plentyn adeg cenhedlu, felly mae natur gorfforol i bob nodwedd. Wrth astudio geneteg, nodwyd rhai genynnau sy'n gyfrifol am y rhain:
    - Profiad crefyddol
    - Rhywioldeb
    - Caethiwed i gyffuriau
    - Trais.
- Yn nisgyblaeth seicoleg, sylwodd Pavlov mai ymateb naturiol ci i fwyd yw glafoerio a chynhyrchu asid stumog. Mae'r ymateb hwn yn ymddangos yn anymwybodol ac nid yn rhywbeth y mae'r ci yn ei ewyllysio. Drwy arbrofi, gwelodd y gallai hyfforddi ymateb fel hyn mewn ci drwy ddefnyddio ysgogiadau allanol.
- Wrth gynnig bwyd i gi, roedd Pavlov yn canu cloch. Roedd y ci, yn ôl y disgwyl, yn cael ymateb heb ei gyflyru, sef glafoerio. Fodd bynnag, yn y pen draw byddai'r ci yn glafoerio pan nad oedd bwyd i'w weld nac i'w arogli a hyd yn oed pan nad oedd y ci'n llwglyd. Mae hyn yn dibynnu ar fecanwaith seicolegol cydberthynas ac roedd yn ymateb wedi'i gyflyru.
- Os cymhwysir hyn i fodau dynol, mae'n golygu bod ein hymddygiad wedi'i gyflyru, yn hytrach na'i fod yn rhydd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3. Esboniwch oblygiadau rhagordeiniad ar gyfer cred grefyddol.

Os Duw sydd wedi ein rhagordeinio ni, mae hyn yn golygu mai ef sy'n rheoli ac yn penderfynu ein cyrchfan yn y pen draw heb gyfeirio o gwbl at ein gweithredoedd neu ein dewisiadau. Mae goblygiadau i hyn o ran cymeriad Duw ac o ran awdurdod yr ysgrythur.

Mae'n bosibl i waith Awstin arwain crediniwr i ddod i'r casgliad:

- Creodd Duw ddamnedigaeth dragwyddol, sy'n awgrymu iddo gynllunio ar gyfer y ffaith y bydden ni'n cwympo.
- Mae Duw yn esgusodi drygioni yn oddefol drwy fethu ethol rhai i fynd i'r nefoedd.
- Mae Duw yn hollwybodus ac felly roedd yn rhagwybod y drygioni y byddai bodau dynol yn ei achosi pan greodd ef ni.
- Dydy Duw ddim yn gallu bod yn hollraslon os yw'n dewis rhai yn unig i fynd i'r nefoedd ac nid pob un ohonon ni.
- Mae nerth Duw yn gyfyngedig os yw'n eistedd yn ôl ac yn caniatáu i ni gael ein condemnio gan weithredoedd Adda.
- Mae nerth Duw yn gyfyngedig os yw ei greadigaeth yn gallu mynd o chwith a chael ei difrodi.

Neu, gall syniad Awstin am ragordeiniad awgrymu'r canlynol:

- Nid Duw wnaeth ddrygioni gan mai pethau da yn unig a greodd.
- Roedd natur hanfodol y ddynoliaeth yn rhydd, felly ni sydd ar fai am adael i ddrygioni orchfygu.
- Mae Duw yn caniatáu i ddrygioni aros fel y gallwn ni ddeall bod daioni'n rhywbeth gwahanol.
- Mae Duw yn parhau i fod heb ei ddylanwadu gan weithgarwch dynol. Ystyr hyn yw ei fod yn dal gafael ar ei nerth.
- Gan fod Duw wedi rhoi iachawdwriaeth i'r etholedig; does dim angen gweithredu dynol.
- Roedd creadigaeth Duw yn rhodd berffaith i'r ddynoliaeth. Mae'n ein caru ni.

Gallai Calvin ein harwain i gredu'r canlynol hefyd:

- Duw sy'n gyfrifol am ddrygioni gan iddo greu pob peth.
- Gwrthododd Duw rai yn weithredol, felly mae'n eu condemnio nhw i uffern beth bynnag yw eu gweithredoedd.
- Mae'r etholedig yn dal i fod yn bechadurus. Mae Duw yn eu hachub beth bynnag, ac yn ymddangos fel petai'n goddef gweithredoedd drygionus.
- Drwy ein rhagordeinio, mae Duw yn gwneud gweithredoedd drygionus sy'n cael eu condemnio gan yr ysgrythur. (e.e. lladd)
- Mae Duw yn faleisus os yw'n gwrthod pobl yn weithredol ymlaen llaw ond yn dal i'w creu nhw beth bynnag.
- Cynlluniodd Duw ar gyfer drygioni a'i greu, yn rhan o'r bydysawd. Mae Duw yn nerthol ond yn ddrygionus.
- Os yw Duw yn hollraslon ond nad yw'n ein hachub ni i gyd, yna efallai nad oes ganddo nerth i wneud hynny.

Neu, gallai Calvin ein harwain i gredu'r canlynol:

- Mae Duw yn raslon, yn caniatáu i'r pechadur gael maddeuant drwy Grist ac felly cael ei achub rhag drygioni.
- Dirgelwch dwyfol yw'r ffaith bod Duw yn condemnio rhai pobl. Gallwn ni ymddiried yn ei farn awdurdodol.

- Mae cysylltiad rhwng Duw a drygioni oherwydd ei fod yn ei wrthod. Drwy wrthod, mae'n dangos ei bŵer llwyr.
- Mae Duw yn hollol hollalluog oherwydd mai ef sy'n rheoli pob gweithred a chanlyniad.
- Mae Duw yn dda ac yn bwerus oherwydd ar ôl i ni gael ein rhagordeinio fel yr etholedig, mae'n amhosibl i ni gwympo.
- Roedd cyfiawnder yn mynnu bod cosb ddynol. Doedd dim rhaid i Dduw achub unrhyw un, ond gwnaeth hynny oherwydd cariad.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4. Cymharwch gysyniadau penderfyniaeth galed a meddal.

| **Penderfyniaeth galed** | **Penderfyniaeth feddal** |
|---|---|
| Materyddol | Materyddol |
| Achosiaeth gyffredinol | Achosiaeth gyffredinol |
| Anghydnawsiaeth – dydy rhyddid ac achosiaeth gyffredinol ddim yn gallu cydfodoli | Cydnawsiaeth – mae rhyddid ac achosiaeth gyffredinol yn gallu cydfodoli |
| Mae pob digwyddiad wedi'i achosi ac felly does dim un digwyddiad yn gallu bod yn rhydd | Mae pob digwyddiad wedi'i achosi ond yn rhesymegol mae hi'n dal yn bosibl ystyried person moesol sy'n gallu gwneud penderfyniad rhydd |
| Does neb yn gallu cael ei feio am ei weithredoedd oherwydd dydy e ddim yn gyfrifol amdanyn nhw os ydyn nhw wedi'u hachosi | Mae hi'n dal yn bosibl beio pobl am eu gweithredoedd er eu bod nhw wedi'u hachosi. |
| Mae penderfyniaeth ac ewyllys rydd yn groes i'w gilydd | Mae'n amhosibl cyferbynnu ewyllys rydd â phenderfyniaeth, yn lle hynny mae hi'n cael ei chyferbynnu â gorfodaeth |
| John Locke (penderfyniaeth athronyddol) Mae'n cael ei defnyddio i dangos mai rhith yw ewyllys rydd oherwydd na allwn ni ewyllysio'r hyn rydyn ni'n ei ewyllysio | Mae Thomas Hobbes (cydnawsiaeth) yn dadlau bod gwahaniaeth rhwng achosion mewnol ac allanol. Mae achos mewnol yn cadw ein rhyddid |
| Mae cydweddiad y dyn sy'n cysgu yn dangos na allai fynd allan o'r ystafell hyd yn oed petai'n ceisio gwneud hynny | Mae cydweddiad y dyn sy'n taflu ei eiddo i'r môr yn dangos nad yw gweithred orfodol yn unol ag ewyllys person, ond bod gweithred rydd, er mai cael ei hachosi mae hi, yn cael ei hachosi gan ddyheadau sy'n fewnol i'r asiant |
| At hynny, mae'n methu ceisio gadael oherwydd bod ei ddyhead i siarad â'r dyn arall yn ei achosi o reidrwydd i aros | Os oes gennym ni ryddid i fod yn ddigymell – y gallu i weithredu fel y mynnon ni, heb gyfyngiadau. Yna gallwn ni gael ein galw'n rhydd |
| Ivan Pavlov (penderfyniaeth seicolegol) Dangosodd drwy ei gŵn ein bod ni'n gallu cael ein cyflyru i ymddwyn mewn ffyrdd penodol | Mae Alfred J. Ayer (cydnawsydd) yn dweud bod yn rhaid bod pob digwyddiad wedi'i achosi er mwyn i ni fod yn foesol gyfrifol. Os ydyn nhw ar hap, yna nid ein bai ni ydyn nhw |
| Yn ei arbrawf, dangoswyd ei bod hi'n bosibl dysgu'r cŵn i lafoerio wrth glywed sŵn cloch. Maen nhw'n methu rheoli pryd neu pam maen nhw'n glafoerio. | Yn ei enghraifft o'r lleidr sydd â chleptomania, mae'n cael ei gyfyngu neu ei orfodi oherwydd nad yw'n gallu dewis peidio â dwyn hyd yn oed os yw eisiau hynny. Ond mae'r lleidr cyffredin |

| | |
|---|---|
| | yn cael ei achosi gan ei ewyllys ond dydy e ddim yn cael ei orfodi yn groes i'w ewyllys |
| Mae penderfyniaeth wyddonol yn dweud bod ein genynnau'n gyfrifol am ein gweithredoedd yn ogystal â'n pryd a gwedd gorfforol | Mae cydnawsiaeth yn cytuno mai ein genynnau yw un o'r ffactorau achosol sy'n gweithredu arnon ni |
| Maen nhw'n rhoi tueddiad i ni at gred grefyddol, trais, rhywioldeb a chaethiwed i gyffuriau, er enghraifft | Nid genynnau yw'r unig ffactor achosol, mae'r achosion yn niferus ac yn amrywiol |
| Mae sefydlogrwydd genetig yn dweud na allwn ni wneud dim byd yn wahanol | Pan nad ydyn ni'n gallu gwneud dim byd yn wahanol dydyn ni ddim yn rhydd, ond pan mae dewis i ni ei wneud ac y gallwn ni ei wneud yn unol â'r hyn rydyn ni eisiau, mae'n bosibl dweud ein bod ni'n rhydd |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5. Archwiliwch gysyniad penderfyniaeth feddal gan gyfeirio at Hobbes ac Ayer.

- Mae penderfyniaeth feddal, sydd â'r enw arall cydnawsiaeth, yn derbyn bod penderfyniaeth ac ewyllys rydd yn gallu bod yn wir ar yr un pryd.
- Diffinnir cydnawsiaeth fel y cysyniad ei bod hi'n bosibl derbyn ewyllys rydd a phenderfyniaeth heb baradocs rhesymegol.
- Mae penderfyniaethwyr meddal yn cynnig mai rhyddid bod yn ddigymell yw'r unig beth sydd gennym.
- Ystyr rhyddid i fod yn ddigymell yw'r gallu i weithredu fel y mynnon ni, heb gyfyngiadau.
- Mae gwaith Thomas Hobbes (1588–1679) yn cefnogi hyn.
- Does dim o'r fath beth ag asiant y mae ei weithred heb ei hachosi. Ond mae gwahanol fathau o achosion. Dydy ewyllys rydd ddim yn golygu ein bod ni heb ein hachosi. Mae'n golygu ein bod ni'n rhydd o gyfyngiadau.
- Mae achos allanol yn dod o'r tu allan i'r hunan, mae'n gyfyngiad ewyllys ac yn rhan o gadwyn achosol. Mae'n angenrheidiol – dydy e ddim yn gallu peidio â digwydd/mae'n rhaid iddo ddigwydd.
- Mae achos mewnol yn dod o'r tu mewn i'r hunan, mae'n unol â'r ewyllys ond eto i gyd, yn rhan o gadwyn achosol. Mae'n angenrheidiol hefyd.
- Er enghraifft, mae dyn yn taflu ei eiddo i'r môr oherwydd bod y cwch yn siglo – achos allanol (heb fod yn rhydd).
- Ond mae dyn yn taflu ei eiddo i'r môr oherwydd ei fod yn ofni y bydd y cwch yn suddo fel arall – achos mewnol ofn (rhydd).
- Mae gan bob gweithred achos blaenorol ac felly mae'r ddwy weithred uchod wedi'u hachosi o reidrwydd. Mae'r un weithred sydd heb ei chyfyngu, sy'n deillio o achos mewnol, yn rhydd.
- Roedd Alfred J. Ayer yn ysgolhaig cydnawsiaeth. Mae'n cynnig dau ddewis i ni. Naill ai:

    1. Mae gweithred heb ei hachosi – damweiniau ar hap yw digwyddiadau fel hyn ac felly dydyn nhw ddim yn rhydd.
    2. Mae gweithred wedi'i hachosi – mae hyn yn ein harwain yn ôl at benderfyniaeth.

- Ddylen ni ddim cyferbynnu ewyllys rydd â phenderfyniaeth. Yn hytrach dylen ni ei chyferbynnu â gorfodaeth neu gyfyngiad. Yn amlwg, mae pob gweithred wedi'i hachosi, nid

heb ei hachosi, ond bydd gweithred sy'n cael ei gorfodi neu ei chyfyngu yn un sy'n digwydd beth bynnag yw penderfyniad person. Ewyllys yr asiant sy'n achosi gweithred ewyllys rydd.

- Er enghraifft, mae'r lleidr sydd â chleptomania yn lladrata hyd yn oed os yw'n penderfynu peidio. Mae e wedi ei gyfyngu. Diffyg arian neu'r awydd i gael hwyl sy'n achosi gweithred y lleidr cyffredin; ond dydy e ddim wedi'i gyfyngu, ac os yw'n penderfynu peidio â lladrata, yna wnaiff e ddim. Mae un yn gallu gweithredu yn ôl ei ddyhead, dydy'r llall ddim.
- Os:

    1. Oes dewis o ran sut i weithredu
    2. Gallaf weithredu yn ôl fy nyheadau fy hun
    3. Nad ydw i'n cael fy nghyfyngu/ngorfodi

    Rwy'n ymddwyn yn rhydd. Mae bod wedi'i achosi yn rhoi esboniad yn unig dros fy ngweithredoedd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

**Cwestiwn enghreifftiol AA2 – tudalen 104**

1. Gwerthuswch y safbwynt nad oes gwerth mewn beio pobl am weithredu anfoesol os yw penderfyniaeth yn gywir.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:** Mae 'dim gwerth' yn osodiad ysgubol, cyffredinol sy'n dweud bod dim byd cadarnhaol o gwbl i'w gael o ganmol neu feio.

**Paragraff un:**

- Mae llawer o werth oherwydd bod beio pobl yn ffordd o gyflyru pobl i ymddwyn mewn ffordd benodol.
- Does dim gwerth cyffredinol i'r ffordd rydyn ni eisiau i bobl ymddwyn, barn wedi'i chyflyru ynom ni'n unig yw hi, felly does dim gwerth cynhenid iddi.
- Efallai fod peth gwerth, oherwydd efallai bydd yn ein galluogi i gyflyru pobl i ddilyn gwerthoedd goddrychol y gymdeithas. Mae hyn yn galluogi'r gymdeithas honno i weithredu.

**Paragraff dau:**

- Mae angen i ni gael ein canmol a'n beio er mwyn sicrhau bod ystyr i'n gweithredoedd ni. Heb hyn does dim byd yn bwysig.
- Hyd yn oed os ydyn ni'n ceisio derbyn penderfyniaeth feddal, dydyn ni ddim yn gallu dewis ein dyheadau. Felly rhywbeth allanol sy'n llunio pob penderfyniad rydyn ni'n ei wneud, does dim gwerth i'n gweithredoedd.
- Mae canmol a beio yn ein hysgogi i roi rheswm dros wneud penderfyniadau, hyd yn oed os rhith yw'r dewis hwnnw yn y pen draw. Mae'n rhith angenrheidiol.

**Paragraff tri:**

- Os nad yw ein hymddygiad wedi cael ei orfodi, mae canmol neu feio yn gam rhesymegol sy'n galluogi grŵp o bobl i weithredu gyda'i gilydd.
- Dydy hi ddim yn gwneud synnwyr rhesymegol i wneud hynny os yw'r rheswm drosto yn allanol i'r asiant, felly does dim gwerth iddo. Ymddangos yn rhydd yn unig mae e.

- Efallai mai gwerth beio yn syml yw dangos pa mor ddefnyddiol yw unigolyn fel aelod o gymdeithas yn hytrach na dangos safon wrthrychol.

**Casgliad:**

Mae rhywfaint o werth i ganmol a beio, yn hytrach na dim gwerth o gwbl. Dydy hi ddim o reidrwydd yn gwneud synnwyr rhesymegol i feio rhywun a oedd heb ddewis yn ei ymddygiad. Fodd bynnag, mae angen strwythur ar gymdeithas i weithredu'n gydlynol ac mae angen pwrpas ar unigolion i weithredu'n iach. Felly, mae angen bai er mwyn galluogi'r gymdeithas ac unigolion i weithredu.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

2. 'Mae cryfderau penderfyniaeth feddal yn drech na'i gwendidau.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:** Gallai 'yn drech na' olygu bod y cryfderau'n cynnig dadl fwy grymus, neu gallai olygu bod mwy ohonyn nhw o ran maint.

**Paragraff un:**

- Mae penderfyniaeth feddal yn ddadl gref oherwydd ei bod hi'n cyfuno tystiolaeth o achosiaeth â'n profiad ni o wneud penderfyniadau.
- Fodd bynnag, mae penderfyniaeth galed yn gryfach oherwydd bod ganddi fwy o dystiolaeth o bob disgyblaeth.
- Mae profiad dynol o ryddid sydd wedi'i rannu yn bwerus o ran ansawdd y dystiolaeth a'r maint.

**Paragraff dau:**

- Mae'n amhosibl i ni wybod yr holl achosion rhyngberthynol dros bob gweithred ddynol. Mae'r un mor bosibl y gallai penderfyniaeth feddal, penderfyniaeth galed neu ryddewyllysiaeth fod yn wir.
- Mae penderfyniaeth feddal yn dibynnu ar y profiad wedi'i rannu o ystyried, felly mae'n gyson â'r holl dystiolaeth bod gennym ni ryddid.
- Mae penderfyniaeth feddal braidd yn gylchol oherwydd mai achos angenrheidiol yw ei chanlyniad yn y pen draw; mae hi'n cymryd mwy o amser i gyrraedd yno, dyna i gyd.

**Paragraff tri:**

- Ymarfer mewn semanteg yw penderfyniaeth feddal. Y cyfan mae hi'n ei wneud yw ailddiffinio'r diffiniad o'r termau allweddol nes y gallwn ni ein galw ein hunain yn rhydd. Ond dydy hi ddim yn wahanol i benderfyniaeth galed.
- Mae rhyddewyllysiaeth yn dibynnu gormod arnon ni fel achoswyr diachos neu annibynnol ar unrhyw ddylanwadau allanol; ond mae penderfyniaeth feddal yn cydnabod sut rydyn ni'n rhan o'r byd.
- Mae penderfyniaeth galed yn cyffredinoli, yn seiliedig ar dystiolaeth, ond mae bron yn amhosibl ei dilysu'n bendant. Does ond angen un achos lle mae rhywbeth heb ei achosi i'r ddamcaniaeth gyfan chwalu.

**Casgliad:**

Mae penderfyniaeth feddal yn gryfach na'r ymagweddau eraill o ran bod ei dadleuon yn fwy grymus oherwydd ei bod hi'n dibynnu ar gyfuniad o brofiad dynol a dealltwriaeth wyddonol o achosiaeth. Fodd bynnag, mae mwy o ddadleuon a thystiolaeth o blaid penderfyniaeth galed gan fod cymaint o dystiolaeth sy'n dangos cysylltiad oherwydd bod digwyddiadau o nifer o ddisgyblaethau.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

# Thema 4 U2 Ewyllys Rydd

## 4A U2 Cysyniadau crefyddol ewyllys rydd

### Profi eich hun – tudalen 107

1. Beth ddywedodd Pelagius am rôl y pechod gwreiddiol?
    - Ar Adda yn unig yr effeithiodd pechod Adda.
    - Hyd yn oed cyn y cwymp, byddai Adda wedi marw yn y pen draw.
    - Cafodd natur ddynol ei haddasu ond nid ei llygru gan bechod.
    - Gosododd Adda esiampl ddrwg, ond heb ein condemnio ni.
    - Gosododd Iesu esiampl dda, ond heb ein hachub ni.
    - Mae plant yn cael eu geni'n rhydd o bechod Adda, yn yr un cyflwr ag Adda cyn y cwymp
    - Dydy bedydd ddim yn ofynnol er mwyn maddau'r pechod gwreiddiol, ac mae plant sy'n marw heb eu bedyddio yn dal i allu mynd i'r nefoedd.
    - Cymryd rhan mewn byd syrthiedig sy'n arwain at bechod, nid natur bechadurus a etifeddwyd.
    - Fydd pobl gyfoethog wedi'u bedyddio ddim yn etifeddu bywyd tragwyddol oni bai eu bod nhw'n rhoi'r gorau i'r cyfan.
    - Mae'n bosibl i rai farw'n ddieuog os nad ydyn nhw byth yn cyflawni pechod, hyd yn oed cyn Crist.

2. A yw hi'n bwysig sut rydyn ni'n ymddwyn yn y bywyd hwn?
    - Ydy, yn wir.
    - Rydyn ni'n gallu dewis gweithredoedd da a drwg.
    - Ein gweithredu sy'n ein gwneud ni'n addas i iachawdwriaeth neu i gondemniad, nid ffydd yn unig.
    - Oherwydd y cwymp roedd bodau dynol yn gallu aeddfedu drwy ddysgu i wneud dewisiadau da.
    - Mae angen i fodau dynol wneud ymdrech i wrthod pechod os ydyn nhw'n edifarhau mewn gwirionedd.
    - Mae Duw yn dweud bod yn rhaid i ni ymdrechu i geisio gweithredu mewn ffordd berffaith.

3. Beth yw gras, yn ôl Pelagius?

Bydd gras Duw yn helpu bodau dynol i gael iachawdwriaeth, ond dydy hi ddim yn mynnu hynny. Mae gras Pelagius yn ymddangos ar dair ffurf:

- **Gras gwreiddiol/naturiol** – mae pawb yn ei gael adeg genedigaeth, dyma rodd naturiol ewyllys rydd, wedi'i roi gan Dduw. Mae gras oddi wrth Dduw yn rhoi'r gallu i ni wneud daioni os dewiswn ni. Mae hyn yn ein galluogi i ddewis Duw droson ni ein hunain, i osgoi pechod ac i'n hachub ein hunain.
- **Gras datguddiad** – Duw sy'n ei roi drwy reswm a'r ysgrythur. Dyma ddeddf neu arweiniad, i roi gwybod i ni am ewyllys Duw. Wedyn gallwn ni ddewis a oes angen ufuddhau ai peidio.
- **Gras pardwn** – rhodd Duw o faddeuant i ni. Mae hyn yn golygu nad yw gweithredoedd Crist ar y groes yn ein hachub ni, ond maen nhw'n gwneud maddeuant yn bosibl, os ydyn ni'n ei geisio.

### Profi eich hun – tudalen 108

1. Pwy gyflwynodd bum erthygl gwrthdystio?
   Dilynwyr Jacob Arminius yn Synod Dort, ar ôl marwolaeth Arminius.

2. Sut mae Arminius yn cyfuno ewyllys rydd â rhagordeiniad?
   - Crist yw'r sylfaen a'r nerth y tu ôl i iachawdwriaeth, pellter oddi wrtho yw gwrthodedigaeth.
   - Mae etholedigaeth a gwrthodedigaeth yn ddibynnol ar ffydd ddynol.
   - Mae etholedigaeth a gwrthodedigaeth yn digwydd gyda rhagwybodaeth Duw.
   - Duw sy'n rhoi gras drwy'r ysbryd glân, ond y ddynoliaeth sy'n ei ddefnyddio.
   - Mae Duw yn rhoi'r rhodd hon o **ras rhagflaenol** neu **ras cyffredin** i'r ddynoliaeth**,** sut bynnag mae'n gweithredu. Does dim angen unrhyw beth arall.
   - Mae'r pechod gwreiddiol wedi halogi'r ddynoliaeth. Oherwydd hyn does gennym ni ddim daioni, felly allwn ni ddim dewis Duw ar ein pennau ein hunain. Mae ewyllys rydd dim ond yn bosibl oherwydd bod y groes yn ein grymuso â rhodd gras i bawb, fel y gallwn ni ddewis Crist yn rhydd.

### Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 108

1. Dychmygwch fod yn rhaid i'ch ffrind gorau benderfynu rhwng mynd i barti neu eistedd i lawr i adolygu. A allwch chi ddweud pa un y bydd e/hi yn ei ddewis?
   Ddim yn ôl Pelagius neu Arminius. Fodd bynnag, mae Duw, yn ôl Arminius, yn gwybod, er nad yw'n gallu achosi'r penderfyniad ei hunan.

2. Os ydych chi'n gwybod, ydy e/hi yn rhydd i ddewis hyn?
   Ydy, mae e/hi yn rhydd i ddewis oherwydd drwy ras Duw rydyn ni'n rhydd i ddewis.

3. A yw'r enghraifft hon yn ddigonol i ddangos etholedigaeth amodol? Pam /Pam lai?
   Ydy – mae hi'n dangos bod rhyddid dynol a'r gallu i fynd o blaid neu yn erbyn ewyllys Duw yn ddilys.
   Nac ydy – mae'r enghraifft yn ddibwys a dydy hi ddim yn ymwneud â'r gred neu ffydd yn Nuw neu'r gyrchfan derfynol.

## 4B U2 Cysyniadau rhyddewyllysiaeth

### Profi eich hun – tudalen 110

1. Beth yw ystyr 'mae bodolaeth yn rhagflaenu hanfod'?
Rydyn ni'n dod i fodolaeth yn gyntaf ac yn cael personoliaeth, natur unigol a phwrpas wedyn.

2. Sut rydyn ni'n ein gwneud ni ein hunain?
O eiliad i eiliad drwy wneud ein dewisiadau rhydd ein hunain.

3. Pam mae rhyddid yn negyddol?
Baich yn hytrach na braint yw rhyddid oherwydd mai ni'n unig sy'n gyfrifol am ein gweithredoedd ac allwn ni ddim beio neb ond ni ein hunain.

**Profi eich hun – tudalen 111**

1. Pa ran o'r ymennydd a roddodd y teimlad i'r cleifion eu bod nhw wedi symud?

Y cortecs parwydol.

2. Am beth roedd y rhan arall o'r ymennydd yn gyfrifol ar ôl cael ei hysgogi?

Mae'n adrodd canlyniadau'r cyfarwyddiadau yn ôl i'r cortecs parwydol.

3. Pam dehonglwyd hyn i olygu bod gennym ni ewyllys rydd?

Mae'r cortecs parwydol yn gyfrifol am 'ddethol' ymddygiad o amrywiaeth o ddewisiadau.

**Profi eich hun – tudalen 112**

1. Ym mha ffordd y mae Rogers yn derbyn cyflyru?

Roedd Rogers yn cydnabod bod cyflyru'n effeithio arnon ni, yn enwedig yn ystod ein profiadau plentyndod. Heb:

- Didwylledd (caniatâd i archwilio ei syniadau ei hun)
- Derbyniad (cariad diamod) Cael ei dderbyn am yr hyn ydyw
- Empathi (dealltwriaeth)

mae plentyn yn cydymffurfio â chyflyru.

2. Sut gallwn ni oresgyn ein cyflyru?

Dod yn berson sy'n gweithredu'n llawn a chael caniatâd i archwilio ein syniadau ein hunain.

3. Beth yw ystyr hunanwireddu?

Cyflawni ein potensial drwy gael ein hunanddelwedd i adlewyrchu ein hunan delfrydol.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 112**

Cyfres dditectif Gymraeg yw *Y Gwyll*. Yn y bennod gyntaf, caiff Helen Jenkins ei llofruddio ar ôl bod yn goruchwylio plant mewn cartref gofal ym Mhontarfynach. Gwyliwch y bennod/y gyfres gyntaf ac yna atebwch y cwestiynau isod (neu defnyddiwch unrhyw ddrama dditectif o'ch dewis chi). (Cyfres 1, Rhifyn 1)

1. A yw unrhyw gymeriad yn ymddwyn mewn ffydd wael yn ystod yr archwiliad i'r llofruddiaeth?

Byron Rodgers – gofalwr ac yn rhan o'r troseddu yn erbyn y plant. Yn gweld bod pwysau arno i ddewis peidio ag amddiffyn y plant.

Catrin John – yn chwarae rhan dinesydd a mam dda. Yn cuddio ei dewisiadau go iawn ynghylch Helen. Yn esgus na ddysgodd neb foesau iddi ac nad oedd hi'n gwybod yn well. Yn esgus mai Emma Jones yw hi. Yn beio ei hamgylchiadau ofnadwy er bod ganddi ddewis mewn gwirionedd rhwng lladd neu ddweud celwydd.

Jenny James – esgus mai hi yw llofrudd Heledd. Yn esgus nad oedd hi'n gallu rheoli ei gweithredoedd oherwydd bod ofn arni. Yn beio ei hamgylchiadau ofnadwy er y gallai hi mewn gwirionedd ddewis rhwng lladd neu ddweud celwydd.

DIC Tom Matthias – mae'n ymddangos heb ymlyniad ac yn bell oddi wrth bawb. Yn chwarae rhan yr ymchwilydd heddlu proffesiynol, yn amharod i ddatgelu ei ddyheadau neu ei bryderon go iawn.

*(D.S. mae ffydd wael yn fwy na dweud celwydd wrth rywun neu guddio gweithred ddrwg yn unig. Mae'n actio, yn yr ystyr bod person yn penderfynu nad yw'n gallu dewis sut i ymddwyn yn hytrach na bod dewis ganddo.)*

2. Sut mae ymchwil Sirigu yn gallu esbonio gweithredoedd y llofrudd?

Dewisodd cortecs parwydol Catrin opsiwn ac anfon y neges at ei rhag-gortecs echddygol, gan ddweud wrtho sut i ymddwyn. Wedyn adroddodd y rhag-gortecs echddygol yn ôl fod y weithred wedi digwydd.

3. Sut byddai Rogers yn rhoi cyfrif am ymddygiad y plant a oedd wedi derbyn gofal?

Doedd eu magwraeth ddim yn cynnwys didwylledd, derbyniad neu empathi. Felly roedden nhw'n methu dianc rhag eu cyflyru. Roedd hi'n amhosibl iddyn nhw hunanwireddu fel roedden nhw'n dymuno oherwydd bod eu hunanddelwedd wedi'i difrodi, ac roedd eu hunan delfrydol yn afrealistig.

4. A yw'r safbwynt rhyddewyllysiol yn gadael i ni gosbi llofrudd Helen Jenkins?
   - Ydy – mae pob person yn gyfrifol am ei ymddygiad ei hun.
   - Nac ydy – mae angen i bawb gael didwylledd, empathi a bod yn barod i dderbyn.

## 4C U2 Goblygiadau rhyddewyllysiaeth ac ewyllys rydd

**Profi eich hun – tudalen 114**

1. Pam mae Sartre yn gwrthod syniadau dynol o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir?
   - Mae moeseg a chrefydd yn ceisio gwneud synnwyr rhesymegol o fydysawd disynnwyr.
   - Ond mae dioddefaint a marwolaeth yn nodwedd ar y bydysawd abswrd.

2. Sut mae ymchwil Sirigu yn awgrymu y gallai canmol a beio fod yn werthfawr?
   Os yw'r ymchwil hwn wedi nodi'n gywir y man lle mae ewyllys rydd yn ein hymennydd, mae'n werthfawr canmol neu feio pobl am eu gweithredoedd oherwydd mai oddi mewn iddyn nhw y mae eu dewisiadau i weithredu yn dod.

3. Sut gallai Rogers weld bod moeseg normadol yn ddefnyddiol?
   Efallai na fyddai'n gwneud hynny oherwydd ei bod hi'n ein hatal ni rhag bod yn rhydd i archwilio ein syniadau ein hunain. Ond mae sut rydyn ni'n hunanwireddu yn drech na'r cyflyru hwn. Mae moeseg berthynolaidd yn rhoi dewis i ni i wneud ein penderfyniadau ein hunain yn yr eiliad yn ôl ein hanghenion.

**Cymhwyso eich gwybodaeth – tudalen 115**

Gwyliwch bennod o *The 100*. Ym mhob pennod, mae'r cymeriadau'n cael eu gorfodi i wneud dewisiadau moesol anodd mewn amgylchiadau eithafol. (Cyfres 2, Pennod 8)

1. O ble mae'r cymeriadau'n cael eu gwerthoedd moesol?

O'u cymdeithas yn y gofod pan oedden nhw'n cylchu'r Ddaear ac o'u sefyllfa bresennol wrth iddyn nhw ymladd am eu bywydau.

2. Os yw Clarke ac eraill yn rhydd, a oes angen unrhyw foeseg normadol arnyn nhw?

Nac oes – mae angen iddyn nhw benderfynu sut i fyw o eiliad i eiliad a chymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau. Mae moeseg normadol yn rhoi gormod o lawer o gyfyngiadau.
Oes – mae Moeseg Sefyllfa, er enghraifft, yn rhoi fframwaith ar gyfer dewis rhydd ond hefyd hunangysyniad iach. Roedd Clarke yn ymddwyn yn gariadus wrth ladd Finn i atal rhagor o ddioddefaint dan ddwylo'r 'grounders', ond roedd yn sicrhau bod ymdeimlad y 'grounders' o gyfiawnder yn cael sylw oherwydd gweithredoedd blaenorol Finn yn erbyn y pentrefwyr.

3. Yn eich barn chi, petai Duw'n caniatáu'r mathau hyn o weithredoedd yn rhan o'i greadigaeth, beth byddai hynny'n ei ddweud am Dduw?

Dydy'r gweithredoedd ddim yn gyson â'r ddealltwriaeth feiblaidd o Dduw fel un sy'n gariadus at bob person, gan fod y gyfres i gyd yn cynnwys llawer iawn o ladd a phoenydio. Fodd bynnag, mae ymddygiad o'r fath yn ganlyniad gwneud penderfyniadau yn yr eiliad gan bobl sy'n rhydd i wneud daioni neu ddrygioni. Gallai Duw fod yn faleisus os yw'n creu dynoliaeth sy'n gallu achosi'r fath ddioddefaint. Neu gall fod yn bell neu'n methu helpu. Mae hyn yn dod â ni'n ôl at broblem drygioni.

**Profi eich hun – tudalen 116**

1. Sut gallai Arminius amddiffyn Duw rhag bod yn awdur drygioni?

Mae'r pechod gwreiddiol wedi halogi'r ddynoliaeth. Mae hyn yn golygu mai ewyllys rydd ddynol ddaeth â drygioni i'r byd, nid Duw.

2. Sut mae Pelagius yn cynnal daioni Duw os yw bodau dynol yn rhydd?

Ystyr dydyn ni ddim yn etifeddu'r pechod gwreiddiol yw mai ar ein gweithredoedd ni ein hunain y mae gwobr neu gosb ddwyfol yn seiliedig. Mae Duw yn dda, dydy e ddim yn fympwyol; mae'n caniatáu iachawdwriaeth i bob un sy'n ei haeddu.

3. Pam byddai'n bosibl gweld bod gweddïo'n ddiwerth os yw bodau dynol yn rhydd?

Does dim pwynt gweddïo os yw Duw yn osgoi ateb i gynnal ein rhyddid. Hefyd mae gwrth-ddweud rhesymegol mewn Duw sy'n ateb gweddïau pobl a allai weddïo am bethau croes i'w gilydd.

**Cwestiynau enghreifftiol AA1 – tudalen 120**

1. Cymharwch gysyniadau crefyddol ewyllys rydd gan Pelagius ac Arminius.

| Pelagius | Arminius |
|---|---|
| Ar Adda yn unig yr effeithiodd pechod Adda.<br>Cafodd natur ddynol ei haddasu ond nid ei llygru gan bechod.<br>Gosododd Adda esiampl ddrwg, ond heb ein condemnio ni.<br>Mae plant yn cael eu geni yn ddieuog o bechod Adda. | Mae'r pechod gwreiddiol wedi halogi'r ddynoliaeth. Oherwydd hyn does gennym ni ddim daioni, felly allwn ni ddim dewis Duw ar ein pennau ein hunain. |

| | |
|---|---|
| Gosododd Iesu esiampl dda, ond heb ein hachub ni. Ein gweithredoedd ni sy'n ein hachub ni. | Crist yw'r sylfaen a'r nerth y tu ôl i iachawdwriaeth, pellter oddi wrtho yw gwrthodedigaeth. |
| Oherwydd y cwymp roedd bodau dynol yn gallu aeddfedu drwy ddysgu gwneud dewisiadau da. | Y cwymp achosodd y pechod gwreiddiol. Gallwn ni ymarfer ewyllys rydd dim ond oherwydd iddi gael ei rhoi drwy farwolaeth Crist ar y groes dros bawb. |
| Mae Duw yn dweud bod yn rhaid i ni ymdrechu i geisio gweithredu mewn ffordd berffaith. Mae'r ysgrythur yn cynnwys cyfraith Duw. Gallwn ni gymhwyso ein hewyllys rydd a dewis dilyn ei ddeddfau. Ein gweithredoedd sy'n ein hachub ni, nid ein ffydd yn unig. | Mae etholedigaeth a gwrthodedigaeth yn ddibynnol ar ffydd ddynol. Mae iachawdwriaeth yn dibynnu ar ein hymdrechion ni ar y cyd â Duw. Mae angen cymorth Duw arnon ni er mwyn ymdrechu yn erbyn drygioni, ond ein hymdrech ni ein hunain yw hon o hyd. |
| Rydyn ni'n derbyn tri math o ras:<br>Gras gwreiddiol/naturiol – rhodd ewyllys rydd, y mae pawb yn ei derbyn wrth gael eu geni.<br>Gras datguddiad – Duw yn rhoi rheswm ac ysgrythur er mwyn i ni wybod beth yw ewyllys Duw.<br>Gras pardwn – rhodd Duw o faddeuant i ni. Dydy gweithredoedd Crist ddim yn ein hachub ni ond maen nhw'n gwneud maddeuant yn bosibl. | Rhoddodd Duw rodd ddiamod gras rhagflaenol neu ras cyffredin. Does dim angen unrhyw beth arall i gael iachawdwriaeth. Gras rhagflaenol = rhodd rhyddid i ddewis daioni, wedi'i roi drwy'r Ysbryd Glân drwy farwolaeth Crist ar y groes. |
| Gallwn ni wneud gweithredoedd da drwy ewyllys rydd ond mae angen help dwyfol arnon ni. Mae gan bob bod dynol y pŵer hwn o ewyllys rydd, ond Cristnogion yn unig sy'n cael help Duw drwy ras. | Mae'r rhyddid dynol y mae'r Iawn drwy Grist yn ei roi yn wirioneddol; cynllun Duw yw achub pawb, ond mae'n bosibl i ni rwystro ei gynlluniau a chael ein colli yn uffern. Mae'r pechadur yn dewis Duw drwy ras, ond dydy Duw ddim yn gorfodi'r pechadur. |
| Rhagwybodaeth Duw yw rhagordeiniad, nid Duw yn cyfeirio ein gweithredoedd. Mae Duw yn gwybod ymlaen llaw pwy fydd yn ceisio pardwn ac iachawdwriaeth dros ei bechodau ond nid ef sy'n achosi i ni gael ein hachub neu ein condemnio. | Rhagwybodaeth Duw yw rhagordeiniad (gwybodaeth ganol), nid nerth sy'n gorfodi. Mae Duw yn gwybod pwy fydd yn derbyn neu'n gwrthod Crist yn rhydd, ac yn ei wobrwyo neu'n ei gondemnio yn ôl yr hyn sydd yn yr ysgrythur. Y Duw hollwybodus sy'n penderfynu hyn o ddechrau amser, yn seiliedig ar yr hyn y mae'n ei ragweld y byddwn ni'n ei wneud. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2. Archwiliwch sut mae Sartre yn amddiffyn rhyddewyllysiaeth yn athronyddol.

- Safbwynt anghrefyddol yw rhyddewyllysiaeth sy'n dweud bod gwneud penderfyniadau yn ddewis rhydd.
- Anghydnawsiaethol – mae'n honni nad yw achosiaeth yn effeithio ar ein meddyliau.
- Mae rhyddewyllyswyr yn dadlau o blaid y rhyddid i fod yn ddigymell (y gallu i weithredu fel rydyn ni'n dewis heb gyfyngiadau) a'r rhyddid i fod yn ddifater (mae person heb ei achosi yn ei weithredoedd, ond eto'n gyfrifol rywsut).

- Fel dirfodwr, roedd Sartre yn dadlau mai bodau dynol sy'n eu gwneud nhw eu hunain.
- Does dim Duw neu ddogma gwrthrychol i'n harwain ni.
- Mae moeseg a chrefydd yn ceisio gwneud synnwyr rhesymegol o fydysawd disynnwyr.
- Mae dioddefaint a marwolaeth yn nodwedd ar y bydysawd abswrd.
- Yr asiant ei hun sy'n gyfrifol am ei benderfyniadau a'i weithredoedd.
- Dywedodd Sartre fod bodolaeth yn rhagflaenu hanfod. Dydy ein hunaniaeth ddim wedi'i sefydlu cyn i ni fodoli. Rydyn ni'n cael ein geni fel tabula rasa (llechen lân). Mae hyn yn gwrth-ddweud honiad y Beibl bod ein henaid yn bodoli cyn bywyd daearol.
- Rydyn ni'n ein gwneud ein hunain o eiliad i eiliad, drwy wneud penderfyniadau a gweithredu'n rhydd. Mae ein profiad hunanymwybodol o ystyried cyn gweithredu yn dystiolaeth o hyn. Does dim rheswm i dybio bod un penderfyniad yn well nag un arall.
- Mae pellter rhwng y meddwl dynol a'r byd allanol (y bwlch). Dydy achos ac effaith ddim yn gweithredu ar ein meddyliau fel y maen nhw'n gweithredu ar y byd. Dydyn ni ddim yn gallu dileu ein cyfyngiadau corfforol; ond mae bod yn ddynol yn ymwneud â ffurfio ein delfrydau'n rhydd a chymryd cyfrifoldeb drostyn nhw.
    - Rydyn ni'n gwneud penderfyniadau ac yna'n gweithredu i achosi canlyniadau.
    - Rydyn ni'n gweld y canlyniadau, ac yna'n gosod ein delfrydau ein hunain.
    - Rydyn ni'n gwneud dewisiadau pellach yn ôl y delfrydau rydyn ni'n eu dyfeisio.
    - Rydyn ni'n ymwybodol drwy'r amser y gallen ni ddewis yn wahanol.
    - Felly ni sy'n ein gwneud ni ein hunain.
    - Mae'r cyfrifoldeb hwn yn faich.
    - Does gennym ni ddim dewis ond dewis.
- Wrth honni mai dylanwadau allanol sy'n achosi ein gweithredoedd, rydyn ni'n gwrthod ein rhyddid ac yn gweithredu mewn ffydd wael. Felly rydyn ni'n ildio i rymoedd cymdeithasol ac yn mabwysiadu gwerthoedd allanol. Rydyn ni'n gwneud hyn pan mae'r dewis arall, sef derbyn cyfrifoldeb mewn byd abswrd, yn rhy boenus i ni. Mae Sartre yn rhoi enghraifft gweinydd:
    - Dychmygwch weinydd ymhongar. Mae e'n uchel ei gloch, mae ei weithredoedd yn rhodresgar ac mae'n orawyddus. Mae'n actio fel robot neu awtomaton yn hytrach na bod dynol. Mae'n gwybod yn y bôn nad gweinydd yn unig yw e, mae'n ei dwyllo ei hun yn ymwybodol.
    - Mae'r gweinydd yn ymddwyn mewn ffydd wael (Mauvais Fois) drwy wrthod ei ryddid ei hun a mabwysiadu'r rôl y mae'r gymdeithas yn mynnu ei rhoi iddo. Mae'n mabwysiadu gwerthoedd anghywir. Wrth gwyno am ein sefyllfa a sut mae disgwyliadau cymdeithasol yn cyfyngu arnon ni, rydyn ni'n ymddwyn mewn ffydd wael. Rydyn ni'n rhydd i fod yn bwy bynnag rydyn ni eisiau bod, yn ddilys.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3. Esboniwch y prif ddadleuon o blaid rhyddewyllysiaeth.

Safbwynt anghrefyddol yw rhyddewyllysiaeth sy'n dweud bod gwneud penderfyniadau yn ddewis rhydd. Mae'r safbwynt athronyddol hwn yn anghydnawsiaethol gan ei fod yn honni nad yw achosiaeth yn effeithio ar ein meddyliau.

Mae rhyddewyllyswyr yn dadlau o blaid y rhyddid i fod yn ddigymell (y gallu i weithredu fel rydyn ni'n dewis heb gyfyngiadau) a'r rhyddid i fod yn ddifater (mae person heb ei achosi yn ei weithredoedd, ond eto'n gyfrifol rywsut).

Rhyddewyllysiaeth athronyddol: (Jean-Paul Sartre)

- Dywedodd Sartre fod bodolaeth yn rhagflaenu hanfod. Dydy ein hunaniaeth ddim wedi'i sefydlu cyn i ni fodoli. Rydyn ni'n cael ein geni fel tabula rasa (llechen lân).
- Rydyn ni'n ein gwneud ein hunain o eiliad i eiliad, drwy wneud penderfyniadau a gweithredu'n rhydd. Mae ein profiad hunanymwybodol o ystyried cyn gweithredu yn dystiolaeth o hyn. Does dim rheswm i dybio bod un penderfyniad yn well nag un arall.
- Mae pellter rhwng y meddwl dynol a'r byd allanol (y bwlch). Dydy achos ac effaith ddim yn gweithredu ar ein meddyliau fel y maen nhw'n gweithredu ar y byd. Dydyn ni ddim yn gallu dileu ein cyfyngiadau corfforol; ond mae bod yn ddynol yn ymwneud â ffurfio ein delfrydau'n rhydd a chymryd cyfrifoldeb drostyn nhw.
    - Rydyn ni'n gwneud penderfyniadau ac yna'n gweithredu i achosi canlyniadau.
    - Rydyn ni'n gweld y canlyniadau, ac yna'n gosod ein delfrydau ein hunain.
    - Rydyn ni'n gwneud dewisiadau pellach yn ôl y delfrydau rydyn ni'n eu dyfeisio.
    - Rydyn ni'n ymwybodol drwy'r amser y gallen ni ddewis yn wahanol.
    - Felly ni sy'n ein gwneud ni ein hunain.
    - Mae'r cyfrifoldeb hwn yn faich.
    - Does gennym ni ddim dewis ond dewis.
- Wrth honni mai dylanwadau allanol sy'n achosi ein gweithredoedd, rydyn ni'n gwrthod ein rhyddid ac yn gweithredu mewn ffydd wael (Mauvais Fois). Felly rydyn ni'n ildio i rymoedd cymdeithasol ac yn mabwysiadu gwerthoedd allanol. Mae Sartre yn rhoi enghraifft gweinydd:
    - Dychmygwch weinydd ymhongar. Mae e'n uchel ei gloch, mae ei weithredoedd yn rhodresgar ac mae'n orawyddus. Mae'n actio fel robot neu awtomaton yn hytrach na bod dynol. Mae'n gwybod yn y bôn nad gweinydd yn unig yw e, mae'n ei dwyllo ei hun yn ymwybodol.
    - Wrth gwyno am ein sefyllfa a sut mae disgwyliadau cymdeithasol yn cyfyngu arnon ni, rydyn ni'n ymddwyn mewn ffydd wael. Rydyn ni'n rhydd i fod yn bwy bynnag rydyn ni eisiau bod, yn ddilys.

Rhyddewyllysiaeth wyddonol: (Angela Sirigu)

- Arweiniodd Sirigu astudiaeth yn 2009 ar ran y Ganolfan Niwrowyddoniaeth Wybyddol yn Bron, Ffrainc, i ymchwilio i swyddogaethau rhannau gwahanol o'r ymennydd. Roedd yr ymchwil yn cynnwys arbrofi ar saith claf a oedd yn cael llawdriniaeth ar yr ymennydd i dynnu tiwmor. Roedd y cleifion hyn yn ymwybodol ac felly yn gallu disgrifio eu profiadau.
- Ysgogodd Sirigu a'i thîm ddwy ran o'r ymennydd â chwiliedyddion:
    - Rhag-gortecs echddygol: Pan oedd symudiad anwirfoddol wedi'i ysgogi yn digwydd a doedd cleifion ddim yn ymwybodol iddyn nhw symud, neu hyd yn oed yn gwadu iddyn nhw wneud hynny.
    - Cortecs parwydol:  Gydag ysgogiad gwan: roedd y claf yn teimlo'r awydd i symud (rholio ei dafod, symud ei fysedd neu ei freichiau) Gydag ysgogiad cryf: roedd y claf yn disgrifio iddo symud; eto i gyd roedd yr ymchwilwyr heb weld unrhyw symudiad.
- Roedd y darganfyddiadau'n dangos bod y ddwy ran yn cydweithio i achosi symudiad. Mae'r cortecs parwydol yn cynhyrchu rhagfynegiadau am symudiadau posibl ac yn anfon cyfarwyddiadau i'r rhag-gortecs echddygol. Mae'r rhag-gortecs echddygol yn adrodd canlyniadau'r cyfarwyddiadau yn ôl i'r cortecs parwydol. Hefyd, gallai hyn awgrymu nifer o bethau am ein hewyllys rydd:
    - Bod y man yn yr ymennydd lle mae'n bosibl gweithredu'r penderfyniad rhydd wedi cael ei adnabod.

  - Bod y cortecs parwydol yn gyfrifol am 'ddethol' ymddygiad o amrywiaeth o ddewisiadau.

Penderfyniaeth seicolegol: (Carl Rogers)

- Roedd Rogers yn cydnabod bod cyflyru'n effeithio arnon ni, yn enwedig yn ystod ein profiadau plentyndod. Mae ar blentyn sy'n datblygu angen:
  - Didwylledd (caniatâd i archwilio ei syniadau ei hun)
  - Derbyniad (cariad diamod) Cael ei dderbyn am yr hyn ydyw
  - Empathi (dealltwriaeth)
- Heb y tri pheth hyn, mae plentyn yn cydymffurfio i gyflyru.
- Ond roedd Rogers yn gwrthod ymddygiadaeth ac unrhyw benderfyniaeth angenrheidiol. Mae ein hymddygiad yn datblygu o'n canfyddiad unigryw ni ohonon ni ein hunain a'n sefyllfa. Mae ei gysyniad dyneiddiol o'r 'hunan' yn cyfeirio at bwy ydyn ni mewn gwirionedd fel person.
- Mae pob person yn unigryw.
- Rydyn ni i gyd yn datblygu'n wahanol yn unol â'n personoliaeth.
- Mae'r hunan yn cynnwys tri chysyniad unigryw:
  - Hunan-werth – ein gwerth ni
  - Hunanddelwedd – sut rydyn ni'n meddwl yr ydyn ni
  - Hunan delfrydol – ein nodau sy'n newid drwy'r amser
- Rydyn ni eisiau byw yn unol â'n hunanddelwedd.
- Mae gennym ni un cymhelliad sylfaenol – yr awydd i hunanwireddu. Mae hyn yn golygu cyflawni ein potensial drwy gael ein hunanddelwedd i adlewyrchu ein hunan delfrydol.
- Mae hyn yn golygu bod angen:
  - Dileu'r cyflyru a gawson ni yn ystod ein bywyd cynnar
  - Dod yn bobl sy'n gweithredu'n llawn
  - Bod mewn cysylltiad llwyr â'n teimladau ac â'n profiadau yn yr eiliad bresennol.
- Taith barhaus, nid cyrchfan yw dod yn berson sy'n gweithredu'n llawn.
- Mae angen rhyddid er mwyn bod yn fod dynol sy'n gweithredu'n llawn. Mae pobl yn unigryw, yn ymatebol, ac â natur nad oes modd ei rhagweld, ac yn rhydd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4. Esboniwch oblygiadau rhyddewyllysiaeth ar gyfer cyfrifoldeb moesol.

- Mae rhyddewyllysiaeth yn dylanwadu ar y gred ynghylch cyfrifoldeb bodau dynol dros benderfyniadau ac ymddygiad moesol. Dydy hi ddim yn eglur o gwbl mai ni sy'n gyfrifol, os ydyn ni'n rhydd.
- Yn ôl Sartre, yr unig syniadau sy'n bwysig o'r hyn sy'n gywir, yn anghywir a gwerth moesol, yw eich rhai chi. Does dim rheolau nac arweiniad gwrthrychol y gallwn ni droi atyn nhw. Daeth i'r canlyniad mai chi a chi'n unig sy'n gyfrifol am y gweithredoedd a'r dewisiadau yr ydych chi'n eu gwneud – chi sydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw.
- Mae fy syniadau dynol o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn golygu fy mod i'n gallu creu penderfyniad fy hunan drosof i fy hunan. Mae hi'n weithred o greu ac mae ei gwerth yn gynhenid gan mai oddi wrtha i'n unig y mae'n dod.
- Fodd bynnag, dydy gwerth a syniadau cymunedol o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir ddim yn dylanwadu arnon ni, ac rydyn ni'n gweithredu mewn ffydd wael wrth ymddwyn fel petaen nhw'n awdurdodol.

- Mae'r gwyddonydd Francis Collins yn gwrthod yr hyn y mae'n ei alw'n benderfyniaeth fiolegol 'Genes R Us'. Mae'r dystiolaeth enetig a gyflwynir drwy astudiaethau gefeilliaid a rhywedd yn dangos ein bod ni i gyd yn wahanol iawn er gwaethaf ein cyfansoddiad genetig. Rydyn ni'n rhydd, ac felly os yw'r gymdeithas yn dweud wrthon ni ein bod ni wedi gwneud gweithred sy'n groes i'r hyn sy'n dderbyniol, yna mae'n rhaid i ni gymryd cyfrifoldeb drosti.
- Efallai fod ymchwil Sirigu wedi dangos lleoliad ewyllys rydd yn yr ymennydd dynol. Dydy hi ddim yn dod i unrhyw farn am hyn o ran a yw hi'n bosibl beio neu ganmol asiantau moesol am eu gweithredoedd.
- Ond gallwn ni gasglu ystyr o'i gwaith i'r naill gyfeiriad neu'r llall: Os yw'r ymchwil hwn wedi nodi'n gywir y man lle mae ewyllys rydd yn ein hymennydd, mae'n werthfawr canmol neu feio pobl am eu gweithredoedd oherwydd mai oddi mewn iddyn nhw y mae eu dewisiadau i weithredu yn dod. Fodd bynnag, dydy ymchwil Sirigu ddim yn dangos ewyllys rydd. Gallai gwyddonwyr reoli penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y cortecs parwydol, ac felly achosi gweithredu. Does dim gwerth mewn beio asiant am weithredoedd a achosir.
- Roedd Rogers yn honni ein bod ni'n ymddwyn fel rydyn ni oherwydd y ffordd rydyn ni'n canfod ein sefyllfa. All neb arall wybod sut rydyn ni'n canfod pethau, felly ni yw'r arbenigwyr gorau arnon ni ein hunain. Os yw plentyn yn cael ei fagu mewn amgylchedd meithringar, neu os cawn ni'r cyfle i hunanwireddu, rydyn ni'n rhydd.
- Mae damcaniaethau moesegol normadol fel Moeseg Sefyllfa neu Fyfïaeth yn rhoi amgylchedd da, hunangysyniad iach a rhyddid i benderfynu i unigolion er mwyn cyflawni eu potensial llawn. Hyn sy'n ein gwneud ni'n foesol gyfrifol am ein gweithredoedd.
- Mae'r Ddeddf Naturiol neu'r gorchymyn dwyfol yn gorfodi gormod o lawer o gyfyngiadau. Maen nhw'n atal asiant rhag gweithredu'n llawn, gan fod yr hunan delfrydol yn groes i'w ymddygiad go iawn. Mae'r ymagweddau hyn yn gweithio i'n cyflyru ni ac i gael gwared ar ein rhyddid ac felly ein cyfrifoldeb.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5. Esboniwch pam roedd Arminius yn gwrthod safbwynt Calvin ar ragordeiniad.

Gwrthododd Arminius ragordeiniad Calvin. Roedd yn dadlau bod y ddysgeidiaeth hon yn troi'r ddynoliaeth yn awtomata, neu fel robotiaid, a Duw yn awdur pechod. Addasodd ei ddealltwriaeth o ragordeiniad yn hytrach na'i wrthod, fel bod lle i ragordeiniad ac ewyllys rydd.

| **Dysgeidiaeth Calvin:** | **Dysgeidiaeth Arminius:** |
|---|---|
| Digwyddodd cwymp Adda oherwydd gorchymyn absoliwt a chadarnhaol gan Dduw. | Mae'r ddysgeidiaeth hon felly'n dweud mai Duw yw awdur pechod. Mae'r pechod gwreiddiol yn ein llygru ni ac yn dwyn daioni oddi arnon ni, ond nid o ganlyniad i orchymyn Duw mae hyn. |
| Mae rhagordeiniad Duw yn ei ragwybodaeth a'i ordinhad gweithredol. | Mae dysgeidiaeth Galfinaidd yn gwneud Duw yn fympwyol neu'n ddiduedd. Rhagwybodaeth Duw yw rhagordeiniad (gwybodaeth ganol), nid nerth sy'n gorfodi. Mae Duw yn gwybod pwy fydd yn derbyn neu'n gwrthod Crist yn rhydd, ac yn ei wobrwyo neu'n ei gondemnio yn ôl yr hyn sydd yn yr ysgrythur. Y Duw hollwybodus sy'n penderfynu hyn o ddechrau amser, yn seiliedig ar yr hyn y mae'n ei ragweld y byddwn ni'n ei wneud. |

| | |
|---|---|
| | Mae hyn yn cadw grym Duw ond hefyd ei natur hollraslon drwy adael i ni ei ddewis ef. |
| Mae bodau dynol wedi'u llygru'n llwyr â phechod oherwydd y cwymp. Felly dydyn ni ddim yn gallu gwneud gweithred dda heblaw am ras Duw. | Mae'r pechod gwreiddiol *wedi* halogi'r ddynoliaeth. Oherwydd hyn does gennym ni ddim daioni, felly allwn ni ddim dewis Duw ar ein pennau ein hunain. Ond, mae ewyllys rydd *yn* bosibl oherwydd bod y groes yn ein grymuso â rhodd gras i bawb, fel y gall pawb ddewis Crist yn rhydd. |
| Mae Duw yn defnyddio ei sofraniaeth drwy ddewis pwy sy'n cael ei achub a phwy sy'n cael ei gondemnio. Does neb yn gallu gwrthod gras Duw a chyflawni apostasi. Mae Duw wedi dewis, ac allwn ni wneud dim byd i newid hyn. | Mae apostasi'n bosibl, fel ein bod ni'n gallu troi cefn yn rhydd; fel arall mae gwobr neu gosb yn ddiystyr. |
| Dydy bodau dynol ddim yn gyfartal. Mae rhai pobl wedi'u pennu i gael eu hethol, pobl eraill i fynd i uffern. Duw sy'n pennu hyn cyn i ni gael ein geni. Allwn ni ddim dewis Duw oni bai bod Duw wedi gorchymyn hyn. | Roedd marwolaeth Crist ar y groes dros bawb, fel ein bod ni'n gallu arfer ein hewyllys rydd er gwaethaf y pechod gwreiddiol. Mae Duw yn rhoi'r rhodd hon o ras rhagflaenol neu ras cyffredin i'r ddynoliaeth, sut bynnag mae'n gweithredu. Does dim angen unrhyw beth arall i gael iachawdwriaeth. Felly mae Duw yn hollalluog ac yn hollraslon. |
| Drwy ras Duw yn unig y gallwn ni gael ein hachub, nid drwy ein gweithredoedd. Mae gras Duw yn galluogi rhai pobl i gael ffydd, a Duw benderfynodd hyn cyn y Creu. | Mae iachawdwriaeth i bawb sy'n dewis Duw. Mae'n dibynnu ar ein hymdrechion ni ar y cyd â Duw. Mae angen cymorth Duw arnon ni, a dylen ni ddyheu amdano er mwyn ymdrechu yn erbyn drygioni, ond ein hymdrech ni ein hunain yw hon o hyd. Mae hyn yn rhoi amddiffyniad gras Duw i bobl fel nad ydyn nhw'n cael eu tynnu oddi wrtho tuag at ddrygioni. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

**Cwestiynau enghreifftiol AA2 – tudalen 120**

1. Gwerthuswch y safbwynt bod gweddïo'n ddibwrpas os yw bodau dynol yn hollol rydd.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Cyflwyniad** – Dibwrpas = heb bwrpas. Angen ystyried pam mae pobl yn gweddïo – addoli, edifarhau, diolch, erfyn. A yw hi'n bosibl bodloni unrhyw un o'r pwrpasau hyn os bodau rhydd ydyn ni?

**Paragraff un:**

- Mae'n amhosibl i Dduw ateb ein gweddïau sy'n erfyn heb gyfaddawdu rhyw ran o ryddid dynol.
- Fodd bynnag, mae gweddi, wedi'i gwneud yn rhydd, yn un sy'n cydsynio ag ymyrraeth Duw.
- Eto i gyd, mae'n rhaid i Dduw ddefnyddio grym os yw eisiau ateb gweddïau sy'n ymwneud â phobl eraill. Os ydyn ni'n rhydd, mae hyn yn gwneud gweddïau fel hyn yn ddibwrpas.

**Paragraff dau:**

- I gael cyfathrebu go iawn mae'n rhaid i'r ddau barti ymateb i'w gilydd, nid rheoli ei gilydd. Cyfathrebu â Duw yw addoli go iawn.
- Fodd bynnag, mae'n rhaid i ryddid gwirioneddol gael pellter oddi wrth wybodaeth am Dduw, fel nad yw ef yn gallu ymateb i weddïo.
- Ond mae'r pwynt hwn yn wan oherwydd dydy pellter oddi wrth wybodaeth am Dduw ddim yn ein gorfodi i fod yn bell oddi wrth ei wybodaeth ef amdanon ni. Mae'n golygu bod y wybodaeth rydyn ni'n ei chael yn gyfyngedig, ond mae hi'n dal i estyn allan ato, sy'n werthfawr.

**Paragraff tri:**

- Mae'n amhosibl defnyddio gweddïau sy'n erfyn i reoli gweithredoedd Duw gan nad yw ef wedi'i benderfynu chwaith.
- Mae'r math hwn o weddïo'n lleihau'r byd i fod yn degan, lle mae penderfyniadau gwael yn ddadleuol gan y bydd Duw yn eu datrys nhw.
- Eto i gyd, mae rhai pobl yn dadlau bod gweddïo'n ymwneud â newid ein hunain yn rhydd, nid newid pobl eraill, fel ein bod ni'n fwy tebyg i Dduw. Mae gwerth i'r math hwn o weddïo myfyriol gan ei fod yn effeithio ar ein penderfyniadau ac ar ein gweithredoedd.

**Casgliad:**

Ystyried ein lle yn y byd yw gweddïo, nid gofyn i Dduw gymryd drosodd neu fodloni ein rhestri siopa. Efallai fod pwrpas gweddïo'n ymwneud mwy â pherthynas rhwng y dwyfol a'r ddynoliaeth, ystyried ein lle a'n rôl ar y ddaear a'n perthnasoedd ag eraill, yn hytrach nag am wneud Duw yn gaethwas i ni, neu ein gwneud ni'n ddibynnol arno ef am ein gweithredoedd. Mae'r math hwn o weddïo yn ymddangos yn bwrpasol yn hytrach nag yn ddibwrpas.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**

2. 'Mae dewis hollol rydd gan fodau dynol.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Cyflwyniad** – Dewis hollol rydd = mae'n awgrymu bod dim byd wedi'i bennu o gwbl yn ein proses gwneud penderfyniadau. Byddai dod i gasgliad am y cwestiwn hwn yn gofyn i ni ddangos nad oes agwedd ar ein proses gwneud penderfyniadau y tu hwnt i'n rheolaeth ni.

**Paragraff un:**

- Mae gwyddoniaeth yn dweud wrthon ni ein bod ni'n gynnyrch rhaglennu gan enynnau a'r gymdeithas. Does dim byd rydyn ni'n ei wneud yn rhydd.
- Eto i gyd, mae Sartre yn honni ein bod ni'n gwneud ein penderfyniadau ein hunain heb reolaeth gan unrhyw asiantau allanol. Yn sicr, mae hyn yn gyson â'n profiad dynol o wneud penderfyniadau.
- Yn amlwg, mae'n amhosibl dweud ein bod ni'n hollol rydd oherwydd na allwn ni dyfu adenydd a hedfan. Dydy Sartre ddim yn cydnabod bod dylanwadau a rheolyddion yn sicr sy'n gweithredu ar ein natur ni.

**Paragraff dau:**

- Mae anogaeth foesol ond yn gwneud synnwyr os oes gennym ni'r grym i'w gwrthod hi neu i ufuddhau iddi. Felly, mae'n rhaid bod gennym ni ddewis hollol rydd er mwyn i foesoldeb wneud synnwyr.
- Fodd bynnag, mae seicoleg yn awgrymu ein bod ni'n gwrthod gorchmynion moesol neu'n ufuddhau iddyn nhw dim ond oherwydd i ni gael ein rhaglennu i wneud hynny.
- Mae'n ymddangos bod ein hymennydd cymhleth yn gallu defnyddio amrywiaeth eang o ddylanwadau i wneud penderfyniadau 'rhydd'. Efallai fod bodau dynol yn gwneud dewisiadau rhydd, ond mae'n rhaid i ni dderbyn bod dylanwadau cymhleth hefyd.

**Paragraff tri:**

- Mae dysgeidiaeth grefyddol yn awgrymu nad oes gennym ni ryddid. Os yw Duw yn Dduw gwirioneddol, mae'n rhaid bod ganddo y nerth droson ni, yn unol ag athrawiaeth Calvin.
- Eto, efallai fod Pelagius yn gywir, ac y gellir dweud ein bod ni'n hollol rydd i ddewis Duw neu beidio.
- Does dim ffordd go iawn o wybod pa ymagwedd grefyddol sy'n wir. Os oes Duw, efallai ein bod ni'n rhydd i ddewis pethau dibwys bywyd, ond dydy hyn ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth yn y pen draw.

**Casgliad:**

Er mwyn dewis rhywbeth yn rhydd, o reidrwydd, mae'n rhaid cyfyngu ar rai posibiliadau eraill. Allaf i ddim ei chael hi bob ffordd, felly nonsens yw honni ein bod ni'n hollol rydd. Fodd bynnag, mae safbwynt penderfyniaeth feddal yn caniatáu achosiaeth a diffyg cyfyngiad. Efallai mai dyma'r agosaf y gallwn ni ddod at ddisgrifiad o ryddid sy'n gwneud synnwyr yn wyneb gwyddoniaeth.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad ynghylch y cwestiwn sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth.**